Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| **CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **DYDD IAU 14 MAI 2015** | **THURSDAY 14 MAY 2015** |
| **am 10.30 o'r gloch** | **at 10.30 am** |

**R H A G L E N**

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar :-

- 26 Chwefror 2015
- 30 Mawrth, 2015 (Arbennig)
- 7 Ebrill, 2015 (Arbennig)

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem ar y Rhaglen.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

4. **CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.2 Y CYFANSODDIAD**

Gofynnwyd y cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd R. Meirion Jones i'r Cadeirydd :-

*"Hoffwn ofyn cwestiwn i'r Cadeirydd ynglŷn ag anogaeth i gadw enwau Cymraeg ar dai Ynys Môn.*

*Gwelwyd yng Ngheredigion yn gynharach eleni y Cyngor yno yn datgan ei anogaeth i gadw enwau Cymraeg ar dai. Teimlais y dylem ni ym Môn fod yn gwneud yn debyg. Gwyddwn fod y Prif Weithredwr yn gefnogol i'r syniad ac iddo godi'r mater yn y Fforwm Iaith Sirol a chysylltais efo swyddogion. Erbyn hyn rydym wedi derbyn gwybodaeth mewnol ac o Gyngor Ceredigion. Gwyddom hefyd fod y Bil Cynllunio o flaen y Cynulliad ar hyn o bryd. Hoffwn i'r Prif Weithredwr adael i ni wybod beth yw'r sefyllfa bresennol ynglŷn â'r mater a sut mae ef yn gweld y ffordd ymlaen i gael y maen i'r wal.*

*Mae Grŵp Plaid Cymru yn gefnogol i'r egwyddor ac eisiau amddiffyn ein treftadaeth ac felly eisiau gweld Cyngor Sir Ynys Môn yn datblygu Polisi ar y mater, ac rwy'n gofyn y cwestiwn hwn ar ran y Grŵp."*

5. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

6. **DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2015/16**

- Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes.

- Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 20

Ebrill 2015 wedi **PENDERFYNU**:-

- ***"Awdurdodi'r Swyddogion, drwy'r Aelod Portffolio ar gyfer Perfformiad, Trawsnewid, y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol i ymgymryd â'r dasg o lunio'r drafft terfynol a***

- ***Argymell bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2015, yn mabwysiadu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2015/16".***

## 7. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL – RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT

• Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

• Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2015 wedi **PENDERFYNU argymell i'r Cyngor llawn**:-

***"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir llawn ei fod yn cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Contract newydd ac yn dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i ymgorffori'r Rheolau Gweithdrefn Contract newydd yn y Cyfansoddiad."***

## 8. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL – CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

• Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

• Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2015 wedi **PENDERFYNU argymell i'r Cyngor llawn**:-

***"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor, sef cylch gorchwyl newydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio fel y caiff ei nodi yn yr Atodiad i'r Adroddiad hwn".***

## 9. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL – PWERAU'R PRIF WEITHREDWR

• Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

• Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2015 wedi **PENDERFYNU argymell i'r Cyngor llawn**:-

- ***"Ei fod yn gwneud newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y gall y Prif Weithredwr wneud newidiadau strwythurol i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion heb fynd drwy'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.***

- ***Ei fod yn rhoddi'r awdurdod i'r Swyddog Monitro weithredu'r newid drwy ychwanegu paragraff newydd i'r Cynllun Dirprwyo yn unol ag Atodiad 1 ac wedi hynny, i weithredu unrhyw benderfyniadau perthnasol gan y Prif Weithredwr".***

## 10. PWYLLGOR ARCHWILIO – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014-15

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2014-15**

Cyflwyno adroddiad gan Mr Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2014-15**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**13. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2014-15**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**14. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR**

Ystyried Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â pharagraff 4.1.16 o'r Cyfansoddiad. **– I DDILYN**

**15. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

*"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".*

**16. ADOLYGIAD O'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH**

- Cyflwyno argymhellion y Pwyllgor Penodiadau a gafwyd ar 1 Mai 2015.
- Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**17. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

*"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".*

**18. GWEITHREDU'R CYNLLUN ARFARNU SWYDDI A THÂL CYFARTAL**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Professiwn – Adnoddau Dynol.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Raymond Jones, Lewis Davies, R Dew, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, T Ll Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas and Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes,<br>Cyfarwyddwr Cymunedol,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Economaidd ac Adfywio Cymunedol,<br>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol)<br>Rheolydd Dros Dro y Gwasanaeth Cyfrifeg (BHO),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorydd Jim Evans |

**1.** **COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 4 Rhagfyr, 2014 (Arbennig) (10.00 a.m.)
- 4 Rhagfyr, 2014 (2.00 p.m.)
- 20 Ionawr, 2015 (Arbennig)
- 4 Chwefror, 2015 (Arbennig)

**2.** **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

- Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:
  - Dymuniadau da am adferiad buan i'r Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Jim Evans a fu yn yr ysbyty'n ddiweddar.
  - Roedd y Cadeirydd yn falch bod y Cynghorydd Jeff Evans wedi gwella ar ôl cael pen-glin newydd.
  - Dymunwyd yn dda i'r Dirprwy Brif Weithredwr, Mrs Bethan Jones yn ei swydd newydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i Mrs Jones am ei chyfraniad i wasanaethau'r Cyngor Sir ers 2012.

Roedd Arweinydd y Cyngor hefyd yn dymuno diolch i Mrs Bethan Jones am ei gwasanaeth i'r Cyngor a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Roedd y Prif Weithredwr yn dymuno diolch i Mrs Bethan Jones ar ran yr Uwch Swyddogion a staff y Cyngor Sir am ei gwaith dros y ddwy flynedd diwethaf gyda'r Awdurdod.  Dymunodd yn dda i Mrs Jones yn ei swydd newydd.

Diolchodd y Dirprwy Brif Weithredwr i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu geiriau caredig.

- Roedd y Cadeirydd yn dymuno atgoffa'r Aelodau o noson Elusennol y Cadeirydd a oedd i'w chynnal yng Ngwesty Breeze Hill, Benllech ar 27 Mawrth 2015 am 7.00pm.  Nododd y bydd yr adloniant yn cael ei ddarparu gan Ffermwyr Ifanc Ynys Môn ac y bydd yr elw yn mynd i Nyrsys Marie Curie Ynys Môn a'r Samariaid.

- Llongyfarchwyd Miss Enid Williams, Prif Swyddog Ieuenctid ar ei phenodiad yn Llywydd Sioe Môn ar gyfer 2015/16.

- Estynnwyd cydymdeimladau â Mr Evan Jones, Adran Priffyrdd a oedd wedi colli ei wraig Mrs Elizabeth Jones.  Roedd Mrs Jones yn gyn Swyddog Gweinyddol yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch ac yn gyn Glerc i Gyngor Cymuned Llannerch-y-medd.  Bu hefyd yn weithgar yn cefnogi Eisteddfod Môn.

- Estynnwyd cydymdeimlad hefyd ag unrhyw Aelod Etholedig neu aelod o staff y Cyngor a oedd wedi cael profedigaeth.

Safodd y Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch a'u cydymdeimlad.

- Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd adroddiad ar ganlyniad y broses ymgynghori mewn perthynas ag ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir llawn gyda hyn.

## 3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan :-

Y Cynghorwyr Llinos M. Huws, Carwyn Jones, Bob Parry OBE, Nicola Roberts a Peter S. Rogers ynghylch eitem 5 yn ystod trafodaeth ar y cynnig i godi am y Clwb Brecwast yn yr ysgolion.  Gadawodd yr Aelodau y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater.

## 4. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni chyflwynwyd deisebau.

## 5. CYLLIDEB 2015/16

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio (Cyllid) gynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2015/16, y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a phennu'r Dreth Gyngor yn rhannau 5(a) i (ch) ar y rhaglen.  Nodwyd y bu'n her ariannol i'r Cyngor baratoi'r gyllideb ar gyfer eleni ond roedd yn dymuno diolch i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'u staff am eu gwaith yn paratoi'r gyllideb.  Diolchodd hefyd i'r Aelod Portffolio Cysgodol, y Cynghorydd John Griffith am fod yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd ynghylch pennu cyllideb ar gyfer 2016/15.  Roedd nifer o gyfarfodydd a seminarau wedi digwydd fel bod Aelodau'n cael mewnbwn i'r gyllideb ac ymgynghorwyd gyda'r cyhoedd hefyd cyn y Nadolig.

Nododd na chynigir unrhyw ostyngiadau sylweddol yng nghyllidebau gwasanaethau statudol.  Mae cyllidebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg wedi ei ddiogelu'n llwyr.  Derbyniodd yr Awdurdod 3.9% yn llai o grant cynnal refeniw ar gyfer 2015/16 sy'n golygu bu'n rhaid iddo ddod o hyd i arbedion o gwmpas £4m.  Yn yr ymgynghoriad gyda'r cyhoedd ar y gyllideb, cafwyd ymatebion yn bennaf ynghylch y cynnydd yn y Dreth Gyngor a'r cynnig arbedion mewn perthynas â brecwast ysgol sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr o arbedion effeithlonrwydd yn amodol ar ymgynghoriad a sgriwtini.  Wrth gynnig

cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor, mae'r Awdurdod wedi cadw mewn cof nifer y teuluoedd ar yr Ynys sy'n derbyn incwm isel ond mae'r Dreth Gyngor yn Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r isaf trwy Gymru gyfan.

Diolchodd yr Aelod Portffolio Cysgodol (Cyllid) i Swyddogion yr Adran Gyllid hefyd am eu gwaith yn paratoi'r gyllideb. Roedd yn falch ei fod wedi bod yn rhan o'r Pwyllgor Llywio ar gyfer y gyllideb a'r gwaith paratoi. Dygodd sylw at y meysydd a ganlyn yn y gyllideb a oedd yn destun pryder iddo:-

- Roedd y cynnig i godi ar Glybiau Brecwast Ysgol yn bryder iddo oherwydd bod gan rai teuluoedd mwy nag un plentyn.
- Ffactorau risg mewn perthynas â'r cyllidebau refeniw h.y. gofal maeth preifat, lleoliadau allsirol ar gyfer plant, therapi ar gyfer materion iechyd meddwl.
- Toriadau yn y gwasanaeth cynnal priffyrdd o £400k
- Cynnydd yn y ffioedd parcio
- Bydd y Bid Gyfalaf ar gyfer y prosiect Gweithio'n Gallach angen £1.1m i uwchraddio'r dderbynfa a gwaith adeiladu arall yn yr adrannau. Mae'r prosiect yn dibynnu ar werthu asedau'r awdurdod ac efallai na fyddant yn cael eu gwerthu mor gyflym ac y disgwylir.
- Cynnydd i gludo myfyrwyr 16+ i'r ysgol.
- Toriadau o £60k yn y ddarpariaeth tendrau bysus gyda'r posibilrwydd o golli gwasanaeth bws mewn cymunedau gwledig.
- Dylid cynnal cyllidebau ysgol oherwydd bod toiledau mewn rhai ysgolion mewn cyflwr truenus
- Angen rhoi sylw i ailweirio adeiladau addysg.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y cynnig arbedion mewn perthynas â Chlybiau Brecwast Ysgol a nodi y bydd y mater yn destun ymgynghoriad gyda chydranddeiliaid perthnasol. Roedd yn rhagweld y byddai'n cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod mis Mai. Dywedodd Aelodau'r Wrthblaid fod clybiau brecwast i blant yn fodd o sicrhau eu bod yn cael prydau iach ac y gallant wella gallu'r plant i ganolbwyntio yn eu gwersi. Mynegwyd pryderon y byddai codi am glybiau brecwast yn cael effaith ar rai teuluoedd sydd ar incwm isel ond nad ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau na phrydau ysgol am ddim. Gofynnodd yr Wrthblaid am i'r mater gael ei drafod yn y Cyngor llawn ac nid trwy'r Pwyllgor Gwaith ar ôl ymgynghori yn ei gylch gyda cydranddeiliaid perthnasol.

Nodwyd y pryderon isod gan Aelodau mewn perthynas â'r gyllideb:-

- Mae angen sicrhau bod gan Stad Mân-ddaliadau David Hughes gyllid digonol i wella a chynnal gwaddol unigryw'r stad i'r Ynys
- Toriadau o 50% yn y Ganolfan Groeso yn Llanfairpwll
- Cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor.

Dywedodd Arweinydd yr Wrthblaid nad oeddent fel Grŵp yn gallu cefnogi'r cynigion ar gyfer y gyllideb a hynny'n bennaf oherwydd y bwriad i godi am glybiau brecwast ysgol a'r prosiect Gweithio'n Gallach.

Ar ôl rhoi sylw i'r papurau fel pecyn sengl ac yn dilyn y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod heddiw, cymerwyd pleidlais ar y cynigion gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyllideb derfynol 2015/16. Roedd y bleidlais fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| O blaid y cynigion fel y cawsant eu cyflwyno: | 15 |
| Yn erbyn y cynigion: | 12 |
| Ymatal: | 2 |

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn y cynigion ar gyfer y gyllideb fel y cyflwynwyd nhw ar gyfer 2015/16**

- **Bod y cynnig i wneud arbedion trwy godi am glybiau brecwast yn cael ei drafod yn y cyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor Sir ar ôl ymgynghori gyda'r cydranddeiliaid perthnasol.**

- **Derbyn Penderfyniad y Dreth Gyngor Drafft fel (ch) yn y Rhaglen:-**

**1.** PENDERFYNWYD

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn Adran 12 Cynllun Ariannol y Tymor Canolig a'r Gyllideb 2015/16, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cyllideb refeniw 2015/16 fel y gwelir honno yn Atodiad 3 Cynllun Ariannol y Tymor Canolig a'r Gyllideb 2015/16.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cynllun a chyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn Papur Bidiau Cyfalaf 2015/16.

(ch) Ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn Atodiad 3 Cynllun Ariannol y Tymor Canolig a'r Gyllideb 2015/16 er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2015/16, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

**(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Atodiad 3 Cynllun Ariannol y Tymor Canolig a'r Gyllideb 2015/16 yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

**(ii)** pwerau i ddyrannu symiau o'r arian wrth gefn heb ei ddyrannu a rhai gwasanaeth i gyllido cynigion gwariant unwaith-ac-am-byth sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2015/16 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i ryddhau hyd at £500k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2016, dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pwerau a ganlyn:-

**(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw blynyddoedd y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn Papur Bidiau Cyfalaf 2015/16 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu'r dangosyddion pwyllog sy'n amcangyfrifon am 2015/16 ymlaen fel sy'n ymddangos yn papur Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/16 gan gadarnhau'r terfynau ar fenthyca a buddsoddi sydd wedi eu nodi yn eitemau 10,11 a 14 i 17 yn y tabl.

**(ff)** Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am y flwyddyn.

**(g)** Cadarnhau y bydd eitemau 1 (b) i (g) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2015/16 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig A | Dim Disgownt |
| Dosbarth Penodedig B | Dim Disgownt |

3. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2015/16, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n briodol i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig C | Dim Disgownt |

4. Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin unrhyw gostau yr aiff y Cyngor iddynt mewn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw gais neu gais arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

5. Y dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2014 wedi cymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2015/16 a nodi ymhellach bod y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2014 wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol yn parhau fel y mae am 2015/16.

6. Yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2014, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y'i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau)(Cymru)(Diwygiad) 2004, gymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys môn fel ei sail dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn 2015/16, fel a ganlyn:-

**a)** 30,188.51 yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sail y Dreth Gyngor am y flwyddyn.

**b)** Dyma'r symiau a glandrwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel symiau sail y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y tai annedd hynny yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol

| | |
|---|---:|
| Amlwch | 1,462.07 |
| Biwmares | 1,046.72 |
| Caergybi | 3,788.07 |
| Llangefni | 1,899.07 |
| Porthaethwy | 1,408.16 |
| Llanddaniel-fab | 366.62 |
| Llanddona | 356.87 |
| Cwm Cadnant | 1,114.53 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,295.38 |
| Llanfihangel Esceifiog | 667.65 |
| Bodorgan | 435.73 |
| Llangoed | 624.09 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 603.80 |
| Llanidan | 400.60 |
| Rhosyr | 963.80 |
| Penmynydd | 235.34 |
| Pentraeth | 555.40 |
| Moelfre | 605.10 |
| Llanbadrig | 646.65 |
| Llanddyfnan | 489.39 |
| Llaneilian | 546.97 |
| Llannerch-y-medd | 500.62 |
| Llaneugrad | 181.83 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,762.34 |
| Cylch y Garn | 395.35 |

| | |
|---|---|
| Mechell | 525.09 |
| Rhos-y-bol | 457.77 |
| Aberffraw | 291.03 |
| Bodedern | 413.58 |
| Bodffordd | 414.76 |
| Trearddur | 1,215.13 |
| Tref Alaw | 241.90 |
| Llanfachraeth | 219.65 |
| Llanfaelog | 1,218.52 |
| Llanfaethlu | 281.01 |
| Llanfair-yn-neubwll | 554.48 |
| Y Fali | 973.58 |
| Bryngwran | 345.73 |
| Rhoscolyn | 329.73 |
| Trewalchmai | 354.40 |

*7.* Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2014/15 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £182,940,882 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £ 57,230,942 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) ac (c) y Ddeddf.

**c)** £125,709,940 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 6(a) uchod a chyfanswm 6(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £ 93,691,000 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i gronfa'r cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £ 1,060.63 sef y swm yn 6(c) uchod llai'r swm yn 6(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £ 1,058,656 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £ 1,025.57 sef y swm yn 6(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 6(dd) uchod â'r swm yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34 (2) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

f) Rhan o Ardal y Cyngor

| Rhan o Ardal y Cyngor | | D |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,084.08 |
| Biwmares | £ | 1,051.40 |
| Caergybi | £ | 1,110.55 |
| Llangefni | £ | 1,088.09 |
| Porthaethwy | £ | 1,076.70 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,046.03 |
| Llanddona | £ | 1,040.00 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,053.83 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,053.75 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 1,048.49 |
| Bodorgan | £ | 1,043.59 |
| Llangoed | £ | 1,040.98 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 1,033.85 |
| Llanidan | £ | 1,046.06 |
| Rhosyr | £ | 1,045.80 |
| Penmynydd | £ | 1,039.59 |
| Pentraeth | £ | 1,053.48 |
| Moelfre | £ | 1,044.57 |
| Llanbadrig | £ | 1,064.23 |
| Llanddyfnan | £ | 1,039.63 |
| Llaneilian | £ | 1,046.13 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,045.37 |
| Llaneugrad | £ | 1,044.82 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,049.66 |
| Cylch y Garn | £ | 1,039.23 |
| Mechell | £ | 1,040.27 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,038.68 |
| Aberffraw | £ | 1,049.62 |
| Bodedern | £ | 1,040.08 |
| Bodffordd | £ | 1,040.04 |
| Trearddur | £ | 1,051.18 |
| Tref Alaw | £ | 1,040.87 |
| Llanfachraeth | £ | 1,044.12 |
| Llanfaelog | £ | 1,043.21 |
| Llanfaethlu | £ | 1,046.03 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 1,043.06 |
| Y Fali | £ | 1,052.64 |
| Bryngwran | £ | 1,050.73 |
| Rhoscolyn | £ | 1,033.15 |
| Trewalchmai | £ | 1,043.91 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 6(e) uchod symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 5(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

ff)

| Rhan o Ardal y Cyngor | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 722.72 | 843.18 | 963.63 | 1,084.08 | 1,324.98 | 1,565.89 | 1,806.80 | 2,168.16 | 2,529.52 |
| Biwmares | £ | 700.93 | 817.76 | 934.58 | 1,051.40 | 1,285.04 | 1,518.69 | 1,752.33 | 2,102.80 | 2,453.27 |
| Caergybi | £ | 740.36 | 863.77 | 987.16 | 1,110.55 | 1,357.33 | 1,604.13 | 1,850.91 | 2,221.10 | 2,591.29 |
| Llangefni | £ | 725.39 | 846.30 | 967.19 | 1,088.09 | 1,329.88 | 1,571.69 | 1,813.48 | 2,176.18 | 2,538.88 |
| Porthaethwy | £ | 717.80 | 837.44 | 957.07 | 1,076.70 | 1,315.96 | 1,555.23 | 1,794.50 | 2,153.40 | 2,512.30 |
| Llanddaniel-fab | £ | 697.35 | 813.58 | 929.81 | 1,046.03 | 1,278.48 | 1,510.93 | 1,743.38 | 2,092.06 | 2,440.74 |
| Llanddona | £ | 693.33 | 808.89 | 924.45 | 1,040.00 | 1,271.11 | 1,502.22 | 1,733.33 | 2,080.00 | 2,426.67 |
| Cwm Cadnant | £ | 702.55 | 819.65 | 936.74 | 1,053.83 | 1,288.01 | 1,522.20 | 1,756.38 | 2,107.66 | 2,458.94 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 702.50 | 819.59 | 936.67 | 1,053.75 | 1,287.91 | 1,522.08 | 1,756.25 | 2,107.50 | 2,458.75 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 698.99 | 815.50 | 931.99 | 1,048.49 | 1,281.48 | 1,514.49 | 1,747.48 | 2,096.98 | 2,446.48 |
| Bodorgan | £ | 695.72 | 811.69 | 927.64 | 1,043.59 | 1,275.49 | 1,507.41 | 1,739.31 | 2,087.18 | 2,435.05 |
| Llangoed | £ | 693.98 | 809.66 | 925.32 | 1,040.98 | 1,272.30 | 1,503.64 | 1,734.96 | 2,081.96 | 2,428.96 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 689.23 | 804.11 | 918.98 | 1,033.85 | 1,263.59 | 1,493.34 | 1,723.08 | 2,067.70 | 2,412.32 |
| Llanidan | £ | 697.37 | 813.61 | 929.83 | 1,046.06 | 1,278.51 | 1,510.98 | 1,743.43 | 2,092.12 | 2,440.81 |
| Rhosyr | £ | 697.20 | 813.40 | 929.60 | 1,045.80 | 1,278.20 | 1,510.60 | 1,743.00 | 2,091.60 | 2,440.20 |
| Penmynydd | £ | 693.06 | 808.57 | 924.08 | 1,039.59 | 1,270.61 | 1,501.63 | 1,732.65 | 2,079.18 | 2,425.71 |
| Pentraeth | £ | 702.32 | 819.38 | 936.43 | 1,053.48 | 1,287.58 | 1,521.69 | 1,755.80 | 2,106.96 | 2,458.12 |
| Moelfre | £ | 696.38 | 812.45 | 928.51 | 1,044.57 | 1,276.69 | 1,508.82 | 1,740.95 | 2,089.14 | 2,437.33 |
| Llanbadrig | £ | 709.48 | 827.74 | 945.98 | 1,064.23 | 1,300.72 | 1,537.22 | 1,773.71 | 2,128.46 | 2,483.21 |
| Llanddyfnan | £ | 693.08 | 808.61 | 924.12 | 1,039.63 | 1,270.65 | 1,501.69 | 1,732.71 | 2,079.26 | 2,425.81 |
| Llaneilian | £ | 697.42 | 813.66 | 929.90 | 1,046.13 | 1,278.60 | 1,511.08 | 1,743.55 | 2,092.26 | 2,440.97 |
| Llannerch-y-medd | £ | 696.91 | 813.07 | 929.22 | 1,045.37 | 1,277.67 | 1,509.98 | 1,742.28 | 2,090.74 | 2,439.20 |
| Llaneugrad | £ | 696.54 | 812.64 | 928.73 | 1,044.82 | 1,277.00 | 1,509.19 | 1,741.36 | 2,089.64 | 2,437.92 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 699.77 | 816.41 | 933.03 | 1,049.66 | 1,282.91 | 1,516.18 | 1,749.43 | 2,099.32 | 2,449.21 |
| Cylch y Garn | £ | 692.82 | 808.29 | 923.76 | 1,039.23 | 1,270.17 | 1,501.11 | 1,732.05 | 2,078.46 | 2,424.87 |
| Mechell | £ | 693.51 | 809.10 | 924.69 | 1,040.27 | 1,271.44 | 1,502.61 | 1,733.78 | 2,080.54 | 2,427.30 |
| Rhos-y-bol | £ | 692.45 | 807.87 | 923.27 | 1,038.68 | 1,269.49 | 1,500.32 | 1,731.13 | 2,077.36 | 2,423.59 |
| Aberffraw | £ | 699.74 | 816.38 | 933.00 | 1,049.62 | 1,282.86 | 1,516.12 | 1,749.36 | 2,099.24 | 2,449.12 |
| Bodedern | £ | 693.38 | 808.96 | 924.52 | 1,040.08 | 1,271.20 | 1,502.34 | 1,733.46 | 2,080.16 | 2,426.86 |
| Bodffordd | £ | 693.36 | 808.92 | 924.48 | 1,040.04 | 1,271.16 | 1,502.28 | 1,733.40 | 2,080.08 | 2,426.76 |
| Trearddur | £ | 700.78 | 817.59 | 934.38 | 1,051.18 | 1,284.77 | 1,518.37 | 1,751.96 | 2,102.36 | 2,452.76 |
| Tref Alaw | £ | 693.91 | 809.57 | 925.22 | 1,040.87 | 1,272.17 | 1,503.48 | 1,734.78 | 2,081.74 | 2,428.70 |
| Llanfachraeth | £ | 696.08 | 812.10 | 928.11 | 1,044.12 | 1,276.14 | 1,508.17 | 1,740.20 | 2,088.24 | 2,436.28 |
| Llanfaelog | £ | 695.47 | 811.39 | 927.30 | 1,043.21 | 1,275.03 | 1,506.86 | 1,738.68 | 2,086.42 | 2,434.16 |
| Llanfaethlu | £ | 697.35 | 813.58 | 929.81 | 1,046.03 | 1,278.48 | 1,510.93 | 1,743.38 | 2,092.06 | 2,440.74 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 695.37 | 811.27 | 927.17 | 1,043.06 | 1,274.85 | 1,506.64 | 1,738.43 | 2,086.12 | 2,433.81 |
| Y Fali | £ | 701.76 | 818.72 | 935.68 | 1,052.64 | 1,286.56 | 1,520.48 | 1,754.40 | 2,105.28 | 2,456.16 |
| Bryngwran | £ | 700.48 | 817.24 | 933.98 | 1,050.73 | 1,284.22 | 1,517.72 | 1,751.21 | 2,101.46 | 2,451.71 |
| Rhoscolyn | £ | 688.76 | 803.57 | 918.36 | 1,033.15 | 1,262.73 | 1,492.33 | 1,721.91 | 2,066.30 | 2,410.69 |
| Trewalchmai | £ | 695.94 | 811.93 | 927.92 | 1,043.91 | 1,275.89 | 1,507.87 | 1,739.85 | 2,087.82 | 2,435.79 |

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 6(e) a 6(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu a'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

7. Y dylid nodi ar gyfer y flwyddyn 2015/16 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:-

| Awdurdod Praeseptio | | Bandiau Prisiau | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £ | 156.96 | 183.12 | 209.28 | 235.44 | 287.76 | 340.08 | 392.40 | 470.88 |

8. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 6(ff) a 7 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn, yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor yn y flwyddyn 2015/16 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir isod:-

| Rhan o Ardal y Cyngor | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 879.68 | 1,026.30 | 1,172.91 | 1,319.52 | 1,612.74 | 1,905.97 | 2,199.20 | 2,639.04 | 3,078.88 |
| Biwmares | £ | 857.89 | 1,000.88 | 1,143.86 | 1,286.84 | 1,572.80 | 1,858.77 | 2,144.73 | 2,573.68 | 3,002.63 |
| Caergybi | £ | 897.32 | 1,046.89 | 1,196.44 | 1,345.99 | 1,645.09 | 1,944.21 | 2,243.31 | 2,691.98 | 3,140.65 |
| Llangefni | £ | 882.35 | 1,029.42 | 1,176.47 | 1,323.53 | 1,617.64 | 1,911.77 | 2,205.88 | 2,647.06 | 3,088.24 |
| Porthaethwy | £ | 874.76 | 1,020.56 | 1,166.35 | 1,312.14 | 1,603.72 | 1,895.31 | 2,186.90 | 2,624.28 | 3,061.66 |
| Llanddaniel-fab | £ | 854.31 | 996.70 | 1,139.09 | 1,281.47 | 1,566.24 | 1,851.01 | 2,135.78 | 2,562.94 | 2,990.10 |
| Llanddona | £ | 850.29 | 992.01 | 1,133.73 | 1,275.44 | 1,558.87 | 1,842.30 | 2,125.73 | 2,550.88 | 2,976.03 |
| Cwm Cadnant | £ | 859.51 | 1,002.77 | 1,146.02 | 1,289.27 | 1,575.77 | 1,862.28 | 2,148.78 | 2,578.54 | 3,008.30 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 859.46 | 1,002.71 | 1,145.95 | 1,289.19 | 1,575.67 | 1,862.16 | 2,148.65 | 2,578.38 | 3,008.11 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 855.95 | 998.62 | 1,141.27 | 1,283.93 | 1,569.24 | 1,854.57 | 2,139.88 | 2,567.86 | 2,995.84 |
| Bodorgan | £ | 852.68 | 994.81 | 1,136.92 | 1,279.03 | 1,563.25 | 1,847.49 | 2,131.71 | 2,558.06 | 2,984.41 |
| Llangoed | £ | 850.94 | 992.78 | 1,134.60 | 1,276.42 | 1,560.06 | 1,843.72 | 2,127.36 | 2,552.84 | 2,978.32 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 846.19 | 987.23 | 1,128.26 | 1,269.29 | 1,551.35 | 1,833.42 | 2,115.48 | 2,538.58 | 2,961.68 |
| Llanidan | £ | 854.33 | 996.73 | 1,139.11 | 1,281.50 | 1,566.27 | 1,851.06 | 2,135.83 | 2,563.00 | 2,990.17 |
| Rhosyr | £ | 854.16 | 996.52 | 1,138.88 | 1,281.24 | 1,565.96 | 1,850.68 | 2,135.40 | 2,562.48 | 2,989.56 |
| Penmynydd | £ | 850.02 | 991.69 | 1,133.36 | 1,275.03 | 1,558.37 | 1,841.71 | 2,125.05 | 2,550.06 | 2,975.07 |
| Pentraeth | £ | 859.28 | 1,002.50 | 1,145.71 | 1,288.92 | 1,575.34 | 1,861.77 | 2,148.20 | 2,577.84 | 3,007.48 |
| Moelfre | £ | 853.34 | 995.57 | 1,137.79 | 1,280.01 | 1,564.45 | 1,848.90 | 2,133.35 | 2,560.02 | 2,986.69 |
| Llanbadrig | £ | 866.44 | 1,010.86 | 1,155.26 | 1,299.67 | 1,588.48 | 1,877.30 | 2,166.11 | 2,599.34 | 3,032.57 |
| Llanddyfnan | £ | 850.04 | 991.73 | 1,133.40 | 1,275.07 | 1,558.41 | 1,841.77 | 2,125.11 | 2,550.14 | 2,975.17 |
| Llaneilian | £ | 854.38 | 996.78 | 1,139.18 | 1,281.57 | 1,566.36 | 1,851.16 | 2,135.95 | 2,563.14 | 2,990.33 |
| Llannerch-y-medd | £ | 853.87 | 996.19 | 1,138.50 | 1,280.81 | 1,565.43 | 1,850.06 | 2,134.68 | 2,561.62 | 2,988.56 |
| Llaneugrad | £ | 853.50 | 995.76 | 1,138.01 | 1,280.26 | 1,564.76 | 1,849.27 | 2,133.76 | 2,560.52 | 2,987.28 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 856.73 | 999.53 | 1,142.31 | 1,285.10 | 1,570.67 | 1,856.26 | 2,141.83 | 2,570.20 | 2,998.57 |
| Cylch y Garn | £ | 849.78 | 991.41 | 1,133.04 | 1,274.67 | 1,557.93 | 1,841.19 | 2,124.45 | 2,549.34 | 2,974.23 |
| Mechell | £ | 850.47 | 992.22 | 1,133.97 | 1,275.71 | 1,559.20 | 1,842.69 | 2,126.18 | 2,551.42 | 2,976.66 |
| Rhos-y-bol | £ | 849.41 | 990.99 | 1,132.55 | 1,274.12 | 1,557.25 | 1,840.40 | 2,123.53 | 2,548.24 | 2,972.95 |
| Aberffraw | £ | 856.70 | 999.50 | 1,142.28 | 1,285.06 | 1,570.62 | 1,856.20 | 2,141.76 | 2,570.12 | 2,998.48 |
| Bodedern | £ | 850.34 | 992.08 | 1,133.80 | 1,275.52 | 1,558.96 | 1,842.42 | 2,125.86 | 2,551.04 | 2,976.22 |
| Bodffordd | £ | 850.32 | 992.04 | 1,133.76 | 1,275.48 | 1,558.92 | 1,842.36 | 2,125.80 | 2,550.96 | 2,976.12 |
| Trearddur | £ | 857.74 | 1,000.71 | 1,143.66 | 1,286.62 | 1,572.53 | 1,858.45 | 2,144.36 | 2,573.24 | 3,002.12 |
| Tref Alaw | £ | 850.87 | 992.69 | 1,134.50 | 1,276.31 | 1,559.93 | 1,843.56 | 2,127.18 | 2,552.62 | 2,978.06 |
| Llanfachraeth | £ | 853.04 | 995.22 | 1,137.39 | 1,279.56 | 1,563.90 | 1,848.25 | 2,132.60 | 2,559.12 | 2,985.64 |
| Llanfaelog | £ | 852.43 | 994.51 | 1,136.58 | 1,278.65 | 1,562.79 | 1,846.94 | 2,131.08 | 2,557.30 | 2,983.52 |
| Llanfaethlu | £ | 854.31 | 996.70 | 1,139.09 | 1,281.47 | 1,566.24 | 1,851.01 | 2,135.78 | 2,562.94 | 2,990.10 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 852.33 | 994.39 | 1,136.45 | 1,278.50 | 1,562.61 | 1,846.72 | 2,130.83 | 2,557.00 | 2,983.17 |
| Y Fali | £ | 858.72 | 1,001.84 | 1,144.96 | 1,288.08 | 1,574.32 | 1,860.56 | 2,146.80 | 2,576.16 | 3,005.52 |
| Bryngwran | £ | 857.44 | 1,000.36 | 1,143.26 | 1,286.17 | 1,571.98 | 1,857.80 | 2,143.61 | 2,572.34 | 3,001.07 |
| Rhoscolyn | £ | 845.72 | 986.69 | 1,127.64 | 1,268.59 | 1,550.49 | 1,832.41 | 2,114.31 | 2,537.18 | 2,960.05 |
| Trewalchmai | £ | 852.90 | 995.05 | 1,137.20 | 1,279.35 | 1,563.65 | 1,847.95 | 2,132.25 | 2,558.70 | 2,985.15 |

**(d) Gwelliannau i'r Gyllideb.**

Ni dderbyniwyd unrhyw welliannau.

**6. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL – CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR APELIADAU**

Adroddwyd – bod y Pwyllgor Gwaith ar ôl rhoi sylw i'r uchod yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2015, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir:-

- *"Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y cawsant eu cynnwys yn Atodiad 1 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.*

- *Bod y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) yn cael yr awdurdod i ddiwygio unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol i adlewyrchu'r newidiadau dan sylw.*

- *Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cael yr awdurdodi i wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau perthnasol."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn y cyswllt hwn.**

**7. ESTYN TYMOR Y PWYLLGOR SAFONAU**

Adroddwyd – bod y Pwyllgor Gwaith ar ôl rhoi sylw i'r uchod yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2015, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir:-

- ***"****Bod y Cyngor yn cymeradwyo ailbenodi'r Aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau am dymor pellach o 4 blynedd, o 17 Rhagfyr 2015.*
- *Bod y Cyngor yn dirprwyo'r awdurdod i'r Swyddog Monitro wneud yr holl newidiadau dilyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor, ac i Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau er mwyn ymestyn yn awtomatig yr holl benodiadau yn y dyfodol i ddau dymor i holl Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn y cyswllt hwn.**

**8. STRATEGAETH DAI LEOL**

Adroddwyd – bod y Pwyllgor Gwaith ar ôl rhoi sylw i'r uchod yn ei gyfarfod ar 12 Ionawr 2015, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir:-

- *"Argymell y Strategaeth Dai Leol a'r Cynllun Gweithredu ynghlwm ar gyfer eu mabwysiadu gan y Cyngor Sir.*
- *Bod y Pwyllgor Gwaith yn cael diweddariad blynyddol ar gynnydd a pherfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth"*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn y cyswllt hwn.**

**9. ADOLYGIAD O BOLISI MASNACHU AR Y STRYD YR AWDURDOD**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyO'r adroddiad a mabwysiadu'r Polisi diwygiedig yn dilyn yr adolygiad o Bolisi'r Awdurdod mewn perthynas â Masnachu ar y Stryd.**

**11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**12. POLISI TÂL 2015**

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn(Adnoddau Dynol) – Bod Deddf Lleoliaeth 2011 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau yng Nghymru a Lloegr i gynhyrchu a chyhoeddi datganiad ar bolisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Yn unol â'r Ddeddf, roedd raid i Awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu polisi tâl ar bob agwedd ar y gydnabyddiaeth a delir i Brif Swyddogion. Er bUdd tryloywder ac atebolrwydd, roedd y Cyngor wedi dewis cymryd agwedd ehangach a chynhyrchu datganiad polisi a oedd yn rhoi sylw i'r holl grwpiau gweithwyr, ac eithrio athrawon ysgol oherwydd nad oedd eu tâl yn fater a oedd o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol.

Cyhoeddodd y Cyngor ei ddatganiad cyntaf ar ei bolisi tâl yn 2012 ac roedd mân newidiadau i adlewyrchu strategaeth gyfredol y Cyngor wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad eleni gyda newidiadau sy'n rhoi sylw i Reoliadau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn rhan 1.2 yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cynnwys yn natganiad yr Awdurdod ar y Polisi Tâl gymal sy'n rhoi awdurdod i'r Cyngor weithredu unrhyw ddyfyrniadau tâl a drafodwyd yn genedlaethol i Brif Swyddogion y mae ganddynt hawl i'w cael yn ôl eu contractau.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl am 2015/16 a'r datganiad diwygiedig ar Bolisi Tâl 2014/15.**

Roedd y Cynghorwyr Jeff Evans a Nicola Roberts yn dymuno cofnodi ei bod wedi ymatal eu pleidleisiau mewn perthynas â'r eitem hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 30 Mawrth 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Dew, Jeff Evans, John Griffith, Kenneth P. Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Victor Hughes, W. T. Hughes, Llinos M. Huws, R. Llewelyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, Dylan Rees, Alwyn Rowlands, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Rheolwr Busnes (Gwasanaethau Tai) (NM)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Ann Griffith, Derlwyn Hughes, Aled M. Jones, Carwyn Jones, G.O. Jones, H. Eifion Jones, Raymond Jones, R. O. Jones, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts. |

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y cyfarfod arbennig hwn o'r Cyngor wedi ei alw gan Gadeirydd y Cyngor o dan ddarpariaethau'r Cyfansoddiad, yn dilyn cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru o gyllid Grant Tai Cymdeithasol ychwanegol ar gyfer datblygu 10 o gartrefi ar safle oedd ym mherchnogaeth y Cyngor ger Bryn Paun, Llangoed. Roedd y cyllid ychwanegol hwn wedi ei ddyrannu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a rhaid ei hawlio cyn 31 Mawrth 2015 ar yr hwyraf.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ceisiodd y Cynghorydd Lewis Davies gael eglurhad a oedd angen iddo ddatgan diddordeb yn y mater oherwydd iddo fod yn gysylltiedig â datblygiad Bryn Paun fel Aelod Lleol.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd ei ymwneud yn y capasiti hwnnw yn creu diddordeb.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad arall o ddiddordeb.

### 2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y

gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

**3. DATBLYGIAD TAI CYMDEITHASOL - BRYN PAEN, LLANGOED**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Cyngor adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai oedd yn egluro’r cefndir gyda nodi Bryn Paun, Llangoed fel safle datblygu tai cymdeithasol tebygol a’r ystyriaethau oedd ynglŷn â hyrwyddo’r safle.

Cadarnhaodd y Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol lwyddiant y Cyngor yn sicrhau cyllid grant Tai Cymdeithasol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a chyfeiriodd at yr argymhellion yn yr adroddiad i symud ymlaen gyda’r mater hwn.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai mai’r amcan gwreiddiol i’r safle yn 2012 oedd gweithredu cynnig i gyfarfod â’r anghenion am dai fforddiadwy mewn cymunedau drwy ddatblygu model lle mae gwerth y tir yn cael ei ddefnyddio fel yn nawdd i sicrhau fforddiadwyaeth. Roedd y Galluogwr Tai Gwledig wedi nodi’r angen am dai fforddiadwy yn Llangoed ac roedd hwnnw wedi’i gefnogi gan y Cyngor Cymuned gyda safle datblygu tebygol yn gyfagos i Bryn Paun oedd ym mherchnogaeth y Gwasanaethau Tai wedi ei nodi. Dewisiwyd North Wales Housing i weithio mewn partneriaeth â’r Gwasanaethau Tai i ddatblygu’r cynllun. Cyfeiriodd y Swyddog at faterion y bu’n rhaid rhoi sylw iddynt yn y tair blynedd diwethaf a chadarnhaodd bod bwriadau ar gyfer datblygiad ymarferol o 10 cartref wedi ei gynllunio gan North Wales Housing mewn partneriaeth â’r Gwasanaethau Tai. Cafwyd cytundeb ynglŷn â gosodiad y datblygiad a chafwyd caniatâd cynllunio llawn. Blaenoriaethwyd y cynllun ar gyfer bid grant tai cymdeithasol ychwanegol oherwydd yn dilyn cael caniatâd cynllunio llawn a chytundeb ar gostau datblygu roedd yn barod i’w ddechrau ac roedd yn gymwys i’w ystyried. Mae dyfarnu’r dyraniad ychwanegol hwn yn ei gwneud yn bosibl i ni ddatblygu’r cartrefi hyn y mae mawr alw amdanynt fel bonws i’r dyraniad grant blynyddol sydd wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Cyfeiriodd y Swyddog at yr ystyriaethau ariannol oedd ynglŷn â’r cynllun a chadarnhaodd bod adroddiad prisio annibynnol ar werth y tir wedi’i dderbyn ers y cafodd yr adroddiad hwn ei ddrafftio.

Roedd y Cynghorydd Lewis Davies ac Alwyn Rowlands fel Aelodau Lleol yn croesawu’r dyraniad cyllid grant ychwanegol ac yn cydnabod y gwaith a’r ymdrechion oedd wedi’u gwneud i ddod â’r cynllun i rym.

**Penderfynwyd yn unfrydol -**

- **I werthu safle Cyfrif Refeniw Tai yn gyfagos i Bryn Paun, Llangoed i North Wales Housing ar bris oedd yn adlewyrchu pwrpasau tai cymdeithasol, fydd yn cael ei dystiolaethu drwy adroddiad prisio annibynnol.**

- **I gymeradwyo gwerthu’r safle i North Wales Housing ar gyfer datblygu 10 o gartrefi rhent tai cymdeithasol oherwydd i’r grant Tai Cymdeithasol ychwanegol ddod ar gael.**

**Y Cynghorydd Vaughan Hughes**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Jim Evans (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Raymond Jones, Lewis Davies, R Dew, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, G O Jones, H E Jones, R Ll Jones, R. Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M. Evans, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Dysgu Gydol Oes),<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymuned),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Dros Dro,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Eitemau 1 i 4 yn unig),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (Eitemau 1 i 4 yn unig),<br>Rheolydd Cyfrifeg Dros Dro (Eitemau 1 i 4 yn unig),<br>Rheolydd Strategaeth AD (Eitemau 1 i 4 yn unig),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) (Eitemau 1 i 4 yn unig),<br>Swyddog Gweithrediadau AD. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T Ll Hughes, Carwyn Jones, Alun W Mummery a Nicola Roberts. |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol at Eitem 5 ar y Rhaglen sy'n ymwneud ag arfarnu swyddi a thâl cyfartal. Dywedodd ei bod yn amlwg fod gan nifer o Aelodau Etholedig berthnasau'n gweithio i'r Cyngor ac, yn dilyn ymgynghori gydag Arweinwyr y Grwpiau, trefnodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Banel Caniatâd Arbennig o'r Pwyllgor Safonau er mwyn gofyn am ganiatâd arbennig ar gyfer yr Aelodau Etholedig hynny. Penderfynodd y Panel Caniatâd Arbennig ryddhau caniatâd arbennig yn unol â pharagraff 2(d) y Côd Ymddygiad i'r Aelodau Etholedig hynny a oedd o'r farn fod ganddynt ddiddordeb rhagfarnus, er mwyn iddynt fedru cymryd rhan yn y drafodaeth ond nid i bleidleisio.

Mewn perthynas ag Eitem 5, derbyniwyd gan yr isod ddatganiadau o ddiddordebau rhagfarnus a datganiad eu bod wedi cael caniatâd arbennig oherwydd bod aelodau o'u teuluoedd yn gweithio i'r Cyngor Sir :-

Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff M. Evans, T.V. Hughes, Llinos M. Huws, H. Eifion Jones, R.Ll. Jones, R.O. Jones, Bob Parry OBE, J. Arwel Roberts, Dafydd R. Thomas, Ieuan Williams.

Datganodd y Cynghorwyr R. Meirion Jones a Dylan Rees eu bod yn gyn-weithwyr i'r Cyngor Sir. Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees ei fod wedi cael barn gyfreithiol gan y Swyddog Monitro ac wedi cael ei gynghori y gallai siarad ar Eitem 5 ond petai'n dadlau dros roi ôl-gyflog i gyn-weithwyr, yna byddai ganddo ddiddordeb rhagfarnus ac ni fyddai'n cael pleidleisio. Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones yntau na fyddai'n pleidleisio os byddai ôl-gyflog ar gyfer gweithwyr yn cael ei drafod.

Gwnaeth Swyddogion isod y Cyngor ddatganiadau o ddiddordeb rhagfarnus yn Eitem 5 ac aethant allano'r cyfarfod cyn y drafodaeth ar yr eitem oherwydd gall y mater effeithio'n uniongyrchol ar eu graddfeydd cyflog a'u telerau ac amodau cyflogaeth:-

Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolydd Cyfrifeg Dros Dro, Rheolydd Strategaeth AD a Swyddog Pwyllgor.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y posibilrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm**

**3. PENODIADAU STAFF – PENODI PRIF WEITHREDWR**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor penodi a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2015 i benodi Dr Gwynne Jones yn Brif Weithredwr o 1 Mehefin, 2015.**

**4. EXCLUSION OF THE PRESS AND PUBLIC**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasgao'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y posibilrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm**

## 5. ARFARNU SWYDDI A THÂL CYFARTAL

- Ystyried argymhellion y Panel Tâl a Graddfeydd a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2015.

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol.

Amlinellodd y Cynghorydd Alwyn Rowlands argymhellion y Panel Adolygu Tâl a Graddfeydd a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2015 a chynigiodd y dylai'r Cyngor Llawn dderbyn yr argymhellion hynny. Diolchodd y Cynghorydd Rowlands i'r gwasanaeth Adnoddau Dynol a'r holl bartïon a fu'n ymwneud â'r mater hwn am eu hymrwymiad a'u gwaith caled dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rhoes y Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol amlinelliad o'r adroddiad a'r sefyllfa gyfredol yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Undebau Llafur ar ôl y cyfarfod o'r Panel Adolygu Tâl a Graddfeydd. Amlinellodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro'r sefyllfa ariannol gan gadarnhau fod yr argymhelliad a gyflwynwyd i'r Panel Adolygu Tâl a Graddfeydd yn fforddiadwy.

Wedi ystyried argymhellion y Panel Adolygu Tâl a Graddfeydd a'r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro, cynigiwyd cefnogi argymhellion y Panel Adolygu Tâl a Graddfeydd.

**O blaid:**

Y Cynghorwyr Dylan Rees, R Meirion Jones, Alwyn Rowlands, Richard A Dew, Kenneth P Hughes, John Griffith, Gwilym O Jones, Peter Rogers, Derlwyn R Hughes, William T Hughes, Aled Morris Jones, Raymond Jones, Jim Evans, Vaughan Hughes.

**Yn erbyn:**

Dim pleidleisiau yn erbyn.

**Gwnaeth yr isod ddatganiad o ddiddordeb rhagfarnus:**

Y Cynghorwyr Robert G Parry OBE, Lewis Davies, Llinos M Huws, Jeffrey M Evans, Dafydd R Thomas, Richard O Jones, H Eifion Jones, Ieuan Williams, T V Hughes, J Arwel Roberts.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhellion y Panel Adolygu Tâl a Graddfeydd a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2015.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Gyngor Sir Ynys Môn** |
| **Dyddiad:** | **14.5.14** |
| **Pwnc:** | **Dogfen Cyflawni Blynyddol 15/16** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>**752111**<br>**GethinMorgan@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Gofynnir i'r Cyngor Sir dderbyn a mabwysiadu'r  Ddogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 15/16 yn ei gyfarfod ar y 14 Mai, 2015.

At ddibenion eglurder mae'r Ddogfen Cyflawni Blynyddol yn cael ei adnabod fel arall fel y Cynllun Gwella (a amlinellir yn y Cyfansoddiad).

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Nid oes unrhyw opsiynau eraill yn cael eu hystyried gan fod hyn yn rhan o'r  Fframwaith Polisi sy'n nodi'r angen i ddogfen o'r fath gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dangos y prif feysydd ar gyfer gwella a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol y cyngor yn ystod 2015-16 sydd yn clirio'n swyddogaeth ni o wellhad parhaol sy'n cael ei gydnabod yn ofyniad statudol o dan y Mesur Llywodraeth Leol - Cymru 2009 a 2011.

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cytuno gyda'r cyfeiriad gweithredol ar gyfer 15/16 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Wedi'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16eg Ebrill. Sylwadau a diwygiadau wedi'i ymgorffori yn y fersiwn atodol. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | SAC – gohebiaeth yn nodi fod y cynllun yn cyd-fynd a disgwyliadau Mesur Llywodraeth Lleol Cymru 2009. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|

| |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2015/16 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynllun Corfforaethol 2013-17 fel a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2013 |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# DOGFEN GYFLAWNI BLYNYDDOL
# (Cynllun Gwella)

# 2015/16

Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Ffon: (01248) 752111

# DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2015-2016

# CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen cyflawni blynyddol yn canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud i wireddu'r targedau uchelgeisiol a osodwyd yn Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn 2013-17.

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn cael ei lywio drwy'r ymarferiadau ymgysylltu ac ymgynghori mwyaf pellgyrhaeddol rydym wedi 'w cynnal.

Gofynnwyd i'n trigolion pa rai o'n gwasanaethau oedd bwysicaf iddynt, ynghyd a'r rhal hynny oeddent yn teimlo nad oedd mor bwysig.

Y blaenoriaethau cyson ddaeth i'r amlwg ar draws yr holl ddemograffeg ar yr Ynys oedd:

- Cefnogi'r mwyaf agored i niwed
- Datblygu'r Economi
- Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion

Mae'r blaenoriaethau hyn yn ffurfio sylfaen a ffocws ein Cynllun Corfforaethol syd yn nodi ein hamcanion strategol hyd at 2017.

Adborth gan y cyhoedd hefyd arweiniodd tuag at i'r cyngor fabwysiadu ei brif nod, sef ein bod - erbyn 2017**.." yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion"**

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd angen i'r Cyngor newid y ffordd mae llawer o'i wasanaethau yn cael eu darparu.

Bydd saith blaenoriaeth allweddol yn llunio'r trawsnewid hwn dros y blynyddoedd nesaf, sef:

- Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
- Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
- Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
- Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi
- Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgell
- Dod Cwsmeriaid, Dinasyddion a Bro
- Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Dyma'r ail flwyddyn lle rydym wedi cynhyrchu Dogfen Cyflawni Blynyddol. Mae'r ddogfen (a elwir hefyd yn Gynllun Gwella 2015/16) yn dangos sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau allweddol dros y 12 mis nesaf ac yn amlygu ein cymhelliant i sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaeth yn ôl y disgwyl gan Llywodraeth Cymru. Byddwn yn monitro cyflawni y targedau a’r canlyniadau hyn yn ofalus drwy brosesau a gweithdrefnau rheoli perfformiad sefydledig.

Bydd gwrando ar yr hyn yr ydych fel trigolion Ynys Môn, defnyddwyr ein gwasanaethau a busnesau lleol yn ei feddwl - ac yna gweithredu ar hynny - hefyd yn rhan hanfodol o'r broses drawsnewid.

# Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn

Mae pobl yn byw'n hirach ac rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y bobl dros 85 sy'n byw ar yr Ynys dros y 10 mlynedd nesaf. Mae gan Ynys Môn un o'r poblogaethau pobl hŷn mwyaf yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn golygu cynnydd yn niferoedd y bobl sydd â chyflyrau cymhleth tymor hir gan gynnwys dementia.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion. Bydd hyn yn sicrhau bod y lefel angenrheidiol o gefnogaeth sydd ei angen i ateb y galw cynyddol (o ran cyllid a'r gweithlu) a chynaliadwyedd y gwasanaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn dechrau y broses trawsnewid, byddwn yn ymgymryd â'r canlynol yn ystod 2015/16.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

**Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu ar y cyd â phartneriaid 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng Ngogledd a chanol yr Ynys ac yn cynllunio ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn Ne'r Ynys drwy:**

- Gweithredu fesul cam yn Llangefni trwy sicrhau partneriaid adeiladu, cymeradwyo dyluniadau terfynol a chychwyn gwaith adeiladu ar y safle, yn ogystal a cwblhau gwaith paratoadol yn Gogledd yr ynys.
- Bwrw ymlaen gyda'r rhaglen yn Ne'r Ynys trwy wneud penderfyniad ar y cynigion terfynol ynghylch: safleoedd tir, llunio achos busnes i'w gymeradwyo cyn cychwyn gwaith, nodi partneriaid Adeiladu cyn cymeradwyo'r dyluniadau terfynol a chychwyn gwaith adeiladu.

**Gwella ystod ac argaeledd gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth a'r angen am gartrefi gofal preswyl drwy:**

- Bydd rhoi ar waith y Cynllun Gweithredu ar gyfer "Lle i'w Alw'n Gartref" yn golygu ail-ganolbwyntio ar yr unigolyn a rhoi eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn a sicrhau gofal neu gymorth o ansawdd gwell o ganlyniad i faterion diogelu pan fyddant yn symud yn uniongyrchol o ysbyty i gartref gofal neu o gartref gofal arall. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i staff i godi ymwybyddiaeth o ddementia a mynediad i Gofal Uwch Môn.
- Datblygu, cytuno a dechrau gweithredu model 'Hyb Cymunedol' erbyn Rhagfyr 2014, lle bydd ystod eang o gefnogaeth a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gymunedau lleol (ac yn aml yn anffurfiol) yn cael eu gwella a'u "cyd-gysylltu" fel bod gwell cefnogaeth a gofal yn cael ei darparu i'r person hŷn mewn angen gan a thrwy'r gymuned leol.
- Sefydlu'n gadarn model Un Pwynt Mynediad a fydd yn cefnogi mynediad mwy effeithiol i wybodaeth, cyngor a chymorth ac integreiddio unigolion gydag adnoddau lleol eraill.

**Ailddatblygu ein gwasanaeth ail-alluogi i gefnogi a helpu pobl i wella ac adennill annibyniaeth trwy ddefnyddio cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau trwy:**

- Cryfhau'r farchnad a gweithredu rhaglen i allanoli gofal cartref ymhellach tra'n datblygu model arbenigol o ddarpariaeth fewnol.
- Sefydlu model cytunedig o ddarpariaeth gofal cartref gan yr Awdurdod Lleol a fydd yn darparu gwasanaeth ail-alluogi a chymorth dementia arbenigol.

**Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd , datblygu trefniadau i reoli a darparu gwasanaethau ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr trwy:**

- Cyflwyno manyleb Gogledd Cymru ar gyfer darparu gofal preswyl wedi ei gyfoethogi ar gyfer pobl â dementia.
- Sefydlu'n gadarn gweithio amlddisgyblaethol o fewn y timau a gyd-leolwyd yn Llanfairpwll, Amlwch a Chaergybi i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn y gymuned mewn dull amserol ac effeithlon.
- Datblygu integreiddiad gwell o wasanaethau Anabledd Dysgu gan gynnwys ystyried comisiynu ar y cyd a rhannu cyllidebau .

**Crynodeb:**

Wrth wireddu'r uchod, mi fyddwn, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16, wedi cwblhau'r holl waith cynllunio angenrheidiol ac wedi cychwyn adeiladu yn Llangefni. Byddwn hefyd wedi cwblhau'r gwaith paratoadol yn Amlwch a byddwn wedi penderfynnu a nodi trydydd safle yn ne'r ynys.

Byddwn wedi parhau i ganolbwyntio ar leihau'r angen am ofal preswyl trwy gynlluniau a pholisïau yn y gymuned megis "Lle i'w Alw'n gartref". Bydd hyn yn mynd law yn llaw â datblygu ein blaenoriaethau gofal cartref ac ail-alluogi arbenigol yn y maes dementia.

Byddwn wedi gwneud cynnydd pellach o ran integreiddio arferion Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn y maes Anabledd Dysgu.

# Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi

Mae gwella'r economi leol, creu swyddi a gwella ffyniant ar gyfer trigolion lleol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor Sir. Mae'r economi yn fater o bwys ac mae ein cymunedau yn cydnabod bod creu swyddi newydd yn hollbwysig ar gyfer darparu sylfaen gadarn i wella ansawdd bywyd a gostwng anghyfartaleddau ar yr ynys. Er y cydnabyddir bod buddsoddiad gan y sector preifat yn yrrwr economaidd hollbwysig, mae gan y Cyngor rôl o ran sefydlu amgylchedd lle gall busnesau lleol ddatblygu a lle gall busnesau newydd ymsefydlu a ffynnu.

Bydd cydweithredu mwy ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol yn allweddol ar gyfer sicrhau cynnydd ein blaenoriaethau datblygu economaidd, yn arbennig felly mewn perthynas â llewyrch ein cymunedau gwledig a threfol a chefnogi anghenion sector twristiaeth yr ynys.

Mae’r Rhaglen Ynys Ynni y Cyngor Sir a’r statws Parth Menter yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu swyddi newydd sylweddol yn sgil y buddsoddiad arfaethedig a photensial y sector ynni carbon isel i dyfu. Bydd y Cyngor yn edrych ar ddatblygu cynlluniau sy'n cynyddu mwy o gfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, gwella seilwaith a chefnogi'r gadwyn gyflenwi.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

**Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau cystadleurwydd economi'r ynys drwy wella seilwaith , argaeledd sgiliau a chefnogi cwmnïau lleol. Byddwn y gwneud hyn drwy;**

- Ddatblygu 10 prosiect i fanteisio i’r eithaf ar gyfleon adfywio rhanbarthol a lleol
- Creu 5 o swyddi newydd, diogelu 10 swydd a chynorthwyo 10 o fusnesau Yng Nghaergybi (newydd neu gyfredol) trwy Gronfa Fuddsoddi Caergybi
- Cydweithio gyda’r sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector i wella cyfleon am swyddi, twf a ffyniant
- Manteisio ar gyfleon i ddenu cyllid Ewropeaidd a domestig trwy gyflwyno ceisiadau am gyllid allanol (gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol UE 2014-2020 a’r Cynllun Datblygu Gwledig)
- Rhoi cymorth, arweiniad a chyngor i 50 o fusnesau ar yr ynys

**Cefnogi’r economi dwristiaeth drwy ein cynllun rheoli cyrchfan gan weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo delwedd a chryfderau arbennig Ynys Môn . Fe wnawn hyn drwy;**

- Gynnyddu nifer yr ymweliadau gan dwristiaid o 2% (oddeutu 30,000) drwy ymgyrch marchnata ac hysbysebu wedi'i dargedu
- Sefydlu 6 o bwyntiau gwybodaeth newydd i dwristiaid mewn aneddiadau allweddol ar yr Ynys
- Cynnal Taith Prydain Aviva ‘Grand Depart’ ar 6 Medi

- Datblygu economi Mordeithiau'r ynys trwy groesawu llongau mordeithio i Borthladd Caergybi
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn
- Cynorthwyo a chefnogi pump o ddigwyddiadau twristiaeth lleol
- Rheolaeth effeithiol o waith adran morwrol y cyngor

**Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau seilwaith (er enghraifft, lled band eang a thechnolegau symudol) i alluogi datblygiad, buddsoddi a chreu swyddi drwy;**

- Gynorthwyo Superfast Cymru yn ôl y gofyn gyda marchnata a hyrwyddo y Cynllun Band Eang ar Ynys Môn
- Adeiladu 3 uned busnes newydd yn Llangefni
- Clirio 0.54 hectar o dir yn Llangefni ar gyfer ail-ddatblygu unedau busnes newydd
- Cydweithio gyda Rhwydwaith Ynni Scottish Power i wella isadeiledd trydanol Ynys Môn
- Gweithio gyda Dŵr Cymru i nodi gwelliannau posibl i'r isadeiledd dŵr a charthffosiaeth yn Ynys Môn
- Cydweithio gyda datblygwyr sector preifat i sicrhau bod trigolion yr ynys yn gallu manteisio ar gyfleon lleol a rhanbarthol ar gyfer swyddi, twf a ffyniant
- Rheoli rhaglen cadwyn gyflenwi ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i sicrhau bod y rhanbarth yn medru manteisio ar gyfleon sy'n codi o'r sector ynni carbon isel

**Cynnal ein cyfrifoldebau cynllunio yn effeithiol mewn perthynas â'r holl brosiectau mawr ar Ynys Môn, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf a sicrhau'r budd cymunedol mwyaf posib trwy:**

- Sicrhau cyllid digonol ac amserol trwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio fel bod datblygwyr yn cyfrannu at brosesau caniatâd cynllunio statudol a weithredir gan y Cyngor
- Sicrhau'r buddiannau economaidd-gymdeithasol mwyaf posib yn sgil datblygiadau mawr trwy'r broses gynllunio statudol
- Cydlynu a gweithredu gweithgareddau Rhaglen Ynys Ynni i gynorthwyo i sicrhau datblygiadau ynni mawr a dad-risgio prosiectau
- Nodi, diffinio a datblygu dyheadau Cyngor Sir Ynys Môn o ran sicrhau gwaddol yn sgil prosiectau ynni mawr (statudol ac anstatudol)
- Parhau i gydweithio gyda'r Adran ar gyfer Ynni a Newid Hinsawdd a Llywodraeth Cymru

**Gyrru adfywiad cymunedol gan ddatblygu cynlluniau tref a chymuned cyfannol ar gyfer y prif aneddiadau ar yr ynys gan roddi blaenoriaeth i Gaergybi, Llangefni ac Amlwch drwy;**

- Sicrhau'r buddiannau lleol mwyaf posib yn sgil prosiectau mawr arfaethedig trwy brosesau a gweithdrefnau anstatudol (gan gynnwys cyfraniadau budd cymunedol gwirfoddol)
- Sicrhau bod Caergybi'n manteisio'n llawn ar yr holl gyfleon Adfywio Economaidd mawr (yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru) drwy reoli a chydlynu'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid
- Denu £150,000 o fuddsoddiad sector preifat i mewn i Gaergybi
- Gefnogi menter Canol Tref Llangefni / Adfywio er mwyn gwella bywiogrwydd a bywiogrwydd economaidd-gymdeithasol y dref yn llwyddiannus; enghreifftiau o fentrau yn cynnwys:
  - Datblygu Cynllun Cludiant Gwyrdd ar gyfer Llangefni (gan gynnwys cerdded a beicio);
  - Symud ymlaen â'r prosiect Ffordd Gyswllt Llangefni - penderfyniad ar gais cynllunio a ragwelir Gwanwyn / Haf 2015

**Crynodeb:**

Wrth wireddu'r uchod, byddwn wedi medru cyflawni Achosion Busnes cadarn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16 ar gyfer gwahanol fentrau ar draws ystod o feysydd sydd a blaenoriaeth strategol.

Byddwn wedi creu neu ddiogelu nifer o swyddi presenol trwy gefnogi busnesau. Byddwn wedi parhau i ganolbwyntio ar dwristiaeth trwy weithio tuag at gynnydd o 2% yn nifer yr ymwelwyr a sefydlu 6 o bwyntiau gwybodaeth newydd i dwristiaid.

Byddwn wedi gwneud cynnydd gyda'r rhaglenni Ynys Ynni a'r rhaglenni parth menter i sicrhau cyflogaeth ychwanegol a gwaddol hirhoedlog ar gyfer Ynys Môn. Yn ogystal, byddwn wedi canolbwyntio ymdrechion ar ein cynllun mentrus a chyffrous Lleoedd Bywiog a Llewyrchus '.

# Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Ysgolion

Mae'r Cyngor eisiau i bob plentyn, pob person ifanc a dysgwr, waeth beth fo'u cefndir a'i hamgylchiadau, gyflawni eu llawn botensial a chwarae rôl weithredol fel dinasyddion cyfrifol a hyrwyddwyr cymunedol. Er mwyn gwireddu hyn, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yn genedlaethol, rydym angen codi safon addysg ar Ynys Môn.

Bydd y Cyngor yn herio syniadau cyfredol, annog arloesedd a datblygu seilwaith ysgol a fydd yn codi safonau addysgu a chyrhaeddiad. Rhaid i ni hefyd leihau lleoedd gwag, gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc a bod yn ymatebol i'n rhaglen gwella economaidd-gymdeithasol a chymunedol.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

**Parhau i godi safonau o ran cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb drwy:**

- Gwneud defnydd priodol o'r holl ddata sydd ar gael i gytuno targedau heriol ar gyfer yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd mewn perthynas â chyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen, lefelau disgwyliedig a lefelau disgwyliedig + 1 yn y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4;
- Defnyddio setiau data craidd a'r model categoreiddio cenedlaethol i herio perfformiad ysgolion unigol;
- Gweithredu'r Cytundeb Partneriaeth diwygiedig i dargedu ysgolion sydd angen cymorth. Parhau i ddatblygu rôl Aelodau Etholedig o ran adolygu cynnydd;
- Defnyddio proses uwchgyfeirio gadarn i herio ysgolion nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol, a defnydd o ymarferwyr ardderchog (lleol a rhanbarthol) i wneud gwelliannau trwy'r fenter hunan-wella (ysgol i ysgol) a chymorth gan Ymgynghorwyr Her i herio staff a llywodraethwyr ysgol;
- Gwreiddio disgwyliadau'r Awdurdodau Lleol fod ysgolion yn gweithredu cynlluniau sydd wedi eu targedu i gefnogi'r holl ddisgyblion i gyrraedd eu potensial a sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 a CA3.

**Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgolion i lywio penderfyniadau tymor hir a fydd yn cynnwys darparu dwy ysgol gynradd ardal trwy:**

- Cychwyn gwaith adeiladu ar ysgol newydd yn ardal y Llannau ac un yn Caergybi ar yr amod y ceir y caniatadau a'r gymeradwyaeth angenrheidiol
- Sicrhau caniatad a chymeradwyaeth wedi eu cytuno ar gyfer rhaglen moderneiddio ardal Rhosyr erbyn Ebrill 2016 (Brynsiencyn / Parc y Bont / Dwyran / Niwbwrch / Llangaffo / Bodorgan).
- Cychwyn yr ymgynghoriad ar gyfer ardal Seiriol (ysgolion Biwmares a Llangoed, gan gynnwys pentrefi Llanfaes a Llanddona).

**Mabwysiadu a chyflwyno strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n fodd i Ynys Môn a Gogledd Cymru wella sgiliau'r gweithlu ac alinio eu hunain gyda chyfleoedd yn y dyfodol drwy:**

- Ddatblygu cydweithrediad pellach rhwng ysgolion Môn a rhaglen Ynys Ynni i sicrhau'r amgylchedd gorau posib ar gyfer dysgu ac addysgu o safon uchel ar gyfer pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg), a sgiliau cysylltiedig eraill ar gyfer cyflogaeth yng nghyd-destun datblygiadau yn y dyfodol gyda'r rhaglen Ynys Ynni a'r Bwrdd Uchelgais Sgiliau Rhanbarthol.
- Datblygu Consortiwm Dysgu Ôl-16 Gwynedd a Môn ymhellach.
- Datblygu'r defnydd o ddata perfformiad a thracio ôl-16 effeithiol i nodi arferion gorau a gwella perfformiad ar lefel Uwch a lefel Uwch Gyfranol.
- Datblygu defnydd mwy effeithiol o drefniadau e-ddysgu ar lefel Uwch a lefel Uwch-Gyfrannol o fewn y Bartneriaeth Ddysgu.
- Parhau i gydweithio gyda Chwmni Prentis Menai i sicrhau bod gan bobl ifanc Ynys Môn gyfleon i gael mynediad i hyfforddiant ardderchog sy'n ymwneud â gwaith a phrentisiaethau.
- Cynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid i gwrdd â galwadau'r fframwaith Ymgysylltu â Phobl Ifanc a sicrhau gwasanaeth ieuenctid cynaliadwy ac effeithlon ar gyfer Ynys Môn.

**Crynodeb:**

Wrth wireddu'r uchod erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2015/16, byddwn wedi gweld cyrhaeddiad addysgol yn gwella yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2, 3 a 4. Yn ogystal, byddwn wedi cymryd camau breision i sicrhau bod ysgolion newydd yn cael eu hagor yn ardal y Llannau erbyn Medi 2016 a safle Cybi yng Nghaergybi erbyn chwarter olaf 2016/17. Byddwn hefyd wedi cymeradwyo Achosion Busnes a nodi safleoedd ar gyfer yr ysgolion yn ardaloedd Rhosyr a Seiriol.

Byddwn wedi parhau i nodi, herio a chefnogi ysgolion sy'n tanberfformio, yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion mwyaf dawnus a galluog yn cael eu herio i gyrraedd eu potensial.

Byddwn wedi datblygu rhagor o gydweithio rhwng ysgolion Môn a'r Rhaglen Ynys Ynni i hyrwyddo sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yng nghyd-destun datblygiadau sector Ynni i'r dyfodol, a Chwmni Prentis Menai i sicrhau bod pobl ifanc Môn yn cael cyfleon i gael mynediad i hyfforddiant â phrentisiaeth ardderchog.

# Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi

Mae  sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn byw mewn cartref diogel ac addas yn holl bwysig . Mae hyn yn eu galluogi i gael y budd mwyaf ar gyfer mynediad i swyddi, hamdden, a mwynderau ac addysg i gael y manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn dyheu amdanynt ac yn eu haeddu.

Byddwn yn parhau â'n hymdrechion i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu mwy o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ein dinasyddion.

Gyda chwmnïau ynni mawr byd-eang yn gweithio tuag at fuddsoddi’n sylweddol yn Ynys Môn, byddwn yn parhau i weithio gyda landlordiaid yn y sector cymdeithasol / preifat i sicrhau’r nifer uchaf posib o gartrefi o safon ar gyfer contractwyr.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn ystod 2015/16?**

**Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chydlynu’r gwasanaeth cyngor budd-daliadau a fydd yn gwella annibyniaeth, cefnogi ein strategaeth gwrthdlodi a lliniaru effeithiau diwygio lles drwy:**

- Sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng raglenni gwrthdlodi,er enghraifft Cymunedau’n Gyntaf Môn, Teuluoedd yn Gyntaf, a Dechrau'n Deg) trwy Gynllun Peilot ar gyfer Fframwaith Canlyniadau Cyffredin a sicrhau’r cyfleon mwyaf posib ar gyfer buddion cymunedol rhwng Cymunedau’n Gyntaf Môn, Lifft a’r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid

- Rhoi gwasanaethau cynghori a chymorth i gynorthwyo aelwydydd i ddiogelu ac uchafu incwm

- Rhoi taliadau tai dewisol i aelwydydd a effeithir gan fesurau Diwygio Lles

- Arwain a chefnogi gweithrediad y Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar gyfer Diwygio Lles gyda'r nod o ostwng y tebygolrwydd y bydd trigolion yr Ynys yn dioddef tlodi a digartrefedd

- Cefnogi a gweithredu’r trefniadau Credyd Cynhwysol trwy gynnig cymorth i hawlwyr newydd

- Dod o hyd i ffyrdd o oresgyn pryderon landlordiaid ynghylch materion Diwygio Lles yn arbennig mewn perthynas â Budd-dal Tai.

- Rhoi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd.

**Cynyddu'r opsiynau o ran tai fforddiadwy sydd ar gael ar hyd a lled yr ynys a dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd**

- Cwblhau 24 o unedau un/dwy ystafell wely yn cael ei ariannu drwy’r grant Cartrefi Bychan.

- Cwblhau 34 o Unedau Tai drwy Gynllun Grant Tai Cymdeithasol a Grant Cyllid Tai

- Prynu 10 o unedau tai Cyngor ychwanegol
- Dod â 60 eiddo a fu'n wag yn y tymor hir yn ôl i ddefnydd

**Archwilio opsiynau i gefnogi pobl ifanc i gael i mewn i'r farchnad dai trwy**

- Helpu 8 aelwyd drwy gynllun Prynu Cartrefi Ynys Môn.

**Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc drwy**

- Creu 10 o gyfleon ar gyfer swyddi / prentisiaethau trwy adeiladu cynlluniau tai fforddiadwy
- Creu cyfleon ar gyfer swyddi / prentisiaethau drwy ein cynllun cyfalaf tai Cyngor, yn buddsoddi dros £9.8 miliwn yn ystod 2015-2016 ar gynnal a chadw cynlluniedig, rheoli perygl tân, gwaith gwres canolog, gwaith amgylcheddol ac ailfodelu eiddo presennol.

**Cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd yn ddigartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol drwy:**

- Cael 10 eiddo ychwanegol gan landlordiaid Preifat bob chwarter drwy ddefnyddio pecyn cymhelliant Landlord Ynys Môn a sefydlu data-bas cynhwysfawr o landlordiaid sy'n gweithredu ar yr ynys.
- Cynyddu'r nifer o landlordiaid sydd ar ddata-bas Gwasanaethau Tai Ynys Môn gan o leiaf 20 y chwarter.
- Rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer 20 o gartrefi fforddiadwy newydd.

**Crynodeb:**

Wrth wireddu'r uchod, byddwn felly wedi cyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16 gynnydd yn yr opsiynau tai fforddiadwy ledled yr Ynys – trwy ddod â 60 o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd; cwblhau 24 o unedau tai un a dwy ystafell wely yn cael eu cyllido trwy'r Grant Cartrefi Bach a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP) a chwblhau 34 o unedau tai drwy'r Cynllun Grant Tai Cymdeithasol a Grantiau Cyllid Tai. Byddwn yn cynyddu ein stoc o Dai Gyngor gan 10 uned a byddwn wedi nodi safleoedd addas ar gyfer datblygu unedau Tai Cyngor newydd ar yr Ynys.

Byddwn wedi creu 10 o gyfleon ar gyfer swyddi / prentisiaethau drwy adeiladu cynlluniau tai fforddiadwy. Byddwn hefyd yn arwain o ran cefnogi'r broses o weithredu'r Cynllun Gweithredu Diwygio Lles Corfforaethol gyda'r nod o leihau'r tebygrwydd y bydd dinasyddion yr Ynys yn dioddef tlodi a digartrefedd. Byddwn hefyd wedi canfod 10 eiddo ychwanegol gan Landlordiaid Preifat y chwarter drwy ddefnyddio Pecyn Cymhelliant Landlord Ynys Môn.

# Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd

Mae ein cyfleusterau a'n gweithgareddau hamdden yn parhau i fod yn boblogaidd ac maent yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn cefnogi ac yn cynnal iechyd a lles defnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn ymrwymedig i fabwysiadu agwedd fwy masnachol tuag at y ddarpariaeth hamdden ynghyd â gwneud nifer o welliannau er mwyn moderneiddio ansawdd ac argaeledd y cyfleusterau a'r gweithgareddau presennol.

Byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden er mwyn cynhyrchu mwy o incwm a lleihau ein dibyniaeth ar gyllid craidd y Cyngor; yn buddsoddi mewn gwell cyfleusterau er mwyn gallu cynnig gweithgareddau mwy amrywiol a chyfarfod â disgwyliadau'r cwsmeriaid, cyflwyno systemau mwy modern ar gyfer talu am/llogi gweithgareddau hamdden a gwella arferion gofal cwsmer er mwyn adlewyrchu anghenion defnyddwyr sy'n newid yn barhaus.

Rydym eisiau cadw ein lle a'n presenoldeb yng nghalon y cymunedau gyda'n darpariaeth o lyfrgelloedd. Bydd hyn yn golygu mwy o weithio mewn partneriaeth a rhannu eiddo i roi i bobl leol fynediad gwell, symlach a llyfnach i'r wybodaeth a'r gwasanaethau y maent eu hangen.

**Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gwneud y canlynol yn ystod 2015/16?**

**Datblygu a gweithredu strategaeth hamdden ar gyfer y tymor canol i arwain penderfyniadau a lleihau'r angen i'r Cyngor fuddsoddi yn ystod oes y cynllun hwn drwy**

- Weithredu'r prosiectau allweddol a amlinellir yn y Cynllun Hamdden ar gyfer 2014- 2017.
- Cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ein Canolfannau Hamdden.
- Buddsoddi mewn cyfleusterau mwy hyblyg ac addas i'r pwrpas ar gyfer y dyfodol mewn ymateb i anghenion y cwsmer sy'n newid.
- Trosglwyddo cyfleusterau awyr agored yng Nghaergybi i sefydliadau rheoli eraill.
- Datblygu a gweithredu Rhaglen Wella ar gyfer Gofal Cwsmer yn y maes Hamdden.
- Darparu cymysgedd o weithgareddau allgyrraedd i gynyddu presenoldeb a gwella cyfranogiad.

**Cydgysylltu ein cyfleusterau neuaddau chwaraeon dan do gyda'n darpariaeth yn yr ysgolion uwchradd a thrafod gyda darparwyr allanol cymunedol i redeg y cyfleusterau gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau Ysgol drwy**

- Mabwysiadu ymagwedd fwy masnachol tuag at reoli cyfleusterau a darparu gweithgareddau yng Nghanolfannau Amlwch, Caergybi, Llangefni a Phorthaethwy.

**Annog datblygu a chefnogi darpariaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y cymunedau, gan y cymunedau**

- Trosglwyddo rheolaeth Cwrs Golff Llangefni a'r Llain Ymarfer yn llwyddiannus i sefydliad rheoli arall (hyd Ebrill 2017).

**Ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth Llyfrgelloedd**

- Cael cymeradwyaeth ar gyfer y modelau cychwynnol ar gyfer trawsnewid Llyfrgelloedd, cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus a chytuno ar y model a ffefrir i'w ddarparu o Ebrill 2016.

**Ymchwilio i opsiynau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth yn ein safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a gweithredu trefniadau rheoli newydd (os yw'n berthnasol)**

- Cael cymeradwyaeth ar gyfer y modelau cychwynnol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau Treftadaeth, cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus a chytuno ar y model a ffefrir i'w ddarparu o Ebrill 2016.

**Crynodeb:**

Wrth wireddu'r uchod, byddwn wedi cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2015/16 gyda chynnydd a gwelliant o ran y nifer sy'n cymryd rhan, profiad y cwsmer a chynnydd yn yr incwm ym mhob un o'n canolfannau hamdden.

Byddwn wedi trosglwyddo'r cyfleusterau awyr agored yng Nghaergybi i sefydliad rheoli arall yn ogystal â datblygu a gweithredu Rhaglen ar gyfer  Gwella Gofal Cwsmer yn y maes Hamdden a darparu cymysgedd o weithgareddau allgyrraedd i gynyddu niferoedd a gwella cyfranogiad.

Byddwn wedi cytuno ar fodelau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau Diwylliannol a Llyfrgell, wedi sefydlu strwythur rheoli newydd ar gyfer Llain Ymarfer Golff Llangefni.

# Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau

Mae dal gennym waith i'w wneud i safoni a symleiddio prosesau a thrwy ein gwaith gyda Cynghorau eraill, rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd pellach yn ein swyddogaethau cefnogi a gwell gwydnwch o ran gwasanaethau arbenigol a sgiliau prin.

Rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor yw gwrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a busnesau yn ei ddweud - a gweithredu ar hynny. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol tuag at ddarparu gwasanaethau'n well a bydd hyn ond yn gwella eto. Byddwn yn gwneud y mwyaf o'n technegau cyfathrebu dwyieithog trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel 'Facebook' a Trydar yn ogystal â grwpiau traddodiadol wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, paneli dinasyddion a sioeau teithiol cyhoeddus.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn ystod 2015/16:**

**Datblygu , cytuno a llofnodi siarter cwsmeriaid cadarn a dilys sydd yn gosod disgwyliadau penodol ar ein staff wrth ddelio â chwsmeriaid**

- Darparu prosiect i gyfrannu tuag at y nod corfforaethol o sefydlu ffocws ardderchog ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned. Drwy adeiladu ar fabwysiadu'r siarter gwasanaeth cwsmer ar gyfer y cyngor, byddwn yn sicrhau y bydd yr holl wasanaethau yn cyflawni'r safonau siarter gwasanaeth ac y bydd trefniadau monitro yn eu lle i sicrhau parhad ymarfer da. Y safonau hynny fydd –
    - Eich croesawu wrth i chi gyrraedd y Cyngor
    - Ceisio gweld y rhai hynny ohonoch gydag apwyntiadau o fewn 10 munud
    - Anelu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib o fewn yr adnoddau sydd ar gael
    - Ceisio datrys problemau a bod ag agwedd 'gallaf wneud'
    - Ateb galwadau ffon o fewn 5 caniad pan fydd ein cyfleusterau ar agor
    - Ateb yr alwad yn ddwyieithog ac yn ymateb yn eich dewis iaith
    - Anelu i ateb eich llythyrau, ffacsys neu e-byst o fewn 15 diwrnod gwaith
    - Annog cyfathrebu drwy e-bost
- Datblygu pecyn cymorth i ddenu a chadw gweithlu hyblyg i gyfarfod â'n disgwyliadau a'n gwerthoedd i'n sefydliad i'r dyfodol. Recriwtio'r bobl iawn a moderneiddio agweddau'r staff presennol trwy gwestiynau alinio gwerth ar gyfer staff presennol a staff newydd.
- Datblygu a chryfhau ein hymgysylltiad a'n hymwneud â dinasyddion Ynys Môn o fewn prosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd y Cyngor drwy gefnogi'r bartneriaeth Prosiect Lleisiau Cymunedol "Gwrandewch/Listen" er mwyn cynyddu ymgysylltiad unigolion a chymunedau sydd â diddordeb mewn dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ym Môn.

**Archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno'r ddelwedd gywir ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael drwy**

- Bydd y rhaglen gweithio'n gallach yn atgyfnerthu ein prif dderbynfeydd a rhai allanol i ddarparu agwedd siop un stop i wasanaethu anghenion y cwsmer yn y pwynt cyswllt.

**Sicrhau y byddir hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig drwy greu a gweithredu ar strategaeth iaith Gymraeg ddatblygedig**

- Sy'n nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Iaith Gymraeg trwy gyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Iaith Gymraeg

**Crynodeb:**

Wrth wireddu'r uchod, byddwn felly yn cyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16, brosiect a fydd yn cyfrannu tuag at y nod corfforaethol o sefydlu ffocws ardderchog ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned a byddwn wedi cymryd camau i sicrhau bod gennym bolisi recriwtio a phroses sy'n recriwtio'r bobl iawn ar gyfer y swyddi iawn.

Byddwn wedi datblygu a chryfhau ymhellach ein hymgysylltiad â'n hymwneud â dinasyddion Ynys Môn ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd y Cyngor trwy gefnogi partneriaeth 4 blynedd y Prosiect Lleisiau Cymunedol "Gwrandewch/Listen".

# Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu ( TGCh )

Wrth drawsnewid ein gwasanaethau, bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni targedau a nodir a chynllunio'n unol â hynny. Bydd y Cyngor yn dod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianeli megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid i ddiwallu llawer o'u hanghenion personol neu fusnes fel bancio neu siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael mynediad at yr hyn y maent ei angen, pan fyddant ei angen, ble bynnag y maent ac yn eu dewis iaith.

Gellir rhyngweithio yn electronig, yn fewnol ac yn allanol ac ar bob lefel. Bydd cyfathrebu wyneb yn wyneb a ffyrdd eraill ar gael ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Drwy newid systemau, byddwn yn rhyddhau staff i 'wneud eu gwaith' o fewn ffiniau clir gan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn eto'n ystwyth. Bydd ein systemau yn cefnogi ein blaenoriaethau a byddir yn rhesymoli'n drylwyr i sicrhau nad yw'r systemau hynny nad ydynt yn cefnogi'n blaenoriaethau yn cael eu defnyddio mwyach.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn ystod 2015/16?**

**Galluogi staff i gael mynediad at y systemau cyfrifiadurol sydd eu hangen arnynt yn ddiogel o unrhyw leoliad drwy:**

- Gweithredu'r Rhaglen Gweithio'n Gallach fydd yn cynnwys datblygu datrysiadau cadarn a chynaliadwy i alluogi mynediad o bell fydd yn golygu y bydd staff yn gallu gweithio'n fwy hyblyg i gyfarfod ag anghenion a galwadau ein cwsmeriaid.

**Galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn electronig dros y we ar amser ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt drwy:**

- Ddatblygu a gwella'r gwasanaeth asesiad ariannol sengl.
- Sefydlu system e-ffurflenni ar gyfer defnydd Gofal Cymdeithasol a Chorfforaethol.
- Sefydlu systemau e-ffurflenni ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau a'u hadolygu ar gyfer defnydd Corfforaethol.
- Datblygu ymhellach y defnydd o e-ffurflenni i Aelodau gofrestru diddordebau, e-ffurflenni ar gyfer cofrestru etholiadol a gweinyddu etholiadau.

**Sicrhau bod gwasanaethau yn defnyddio technoleg yn fwy eang i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol drwy:**

- Gyrru'r mentrau canlynol yn eu blaenau :-
    - System Rheolaeth Ariannol
    - System Adnoddau Dynol deinamig ar y We.

- System Rheoli Cofnodiadau
- Systemau sy’n hwyluso Mynediad o Bell
- Pecyn cymorth recriwtio a chadw (RRT)

Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn grymuso ein cwsmeriaid i gael mynediad i’n gwasanaethau pan fyddant eu hangen hwy fwyaf yn y ffordd y maent hwy’n dymuno eu derbyn.

**Chwilio am dechnolegau TGCh newydd i gwrdd ag anghenion presennol a dyfodol y Cyngor a dinasyddion yr Ynys drwy:**

- Adolygu, ailddrafftio a mabwysiadu dogfen Strategaeth TGCh gynhwysfawr fydd yn amlinellu agwedd yr awdurdod tuag at dechnoleg a’i ddefnydd ohono i sicrhau y darperir gwasanaeth ac i sicrhau gwelliannau busnes.
- Datblygu a darparu datrysiad wrth gefn cadarn i gefnogi'r systemau TG sy’n hanfodol ar gyfer busnes ac a fydd yn cefnogi trawsnewid yr Awdurdod

**Crynodeb:**

Wrth wireddu’r uchod, byddwn yn rheoli gwasanaethau mwy cydlynol a mwy hygyrch i gwsmeriaid sy’n delio â’r Cyngor.  Bydd hyn yn cynnwys gwella neu gaffael systemau mewnol fydd yn gwneud y Cyngor a’i staff yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth ddelio ag anghenion y cyhoedd.

# Blaenoriaethu Gwelliannau eraill

Eleni, am y tro cyntaf yn hanes y Cyngor presennol, cynhaliwyd hunan-asesiad gennym a oedd yn cydnabod gwelliannau a wnaed dros gyfnod y ddwy flynedd diwethaf.

Amlygwyd hefyd y gwelliannau pellach sydd eu hangen arnom os ydym am fodloni gofynion ein 6 thema allweddol, a sefydlu'n hunain a chystadlu fel un o gynghorau gorau Cymru ym maes llywodraeth leol yng Nghymru.

Amlygwyd fod rolau a chyfrifioldebau aelodau a staff bellach yn llawer cliriach. Cydnabyddir fod cydweithio i bwrpas gwelliant yn amlygu ei hun yn fwyfwy gyda datblygiad perthynas ac ymddygiad proffesiynol ar draws y gorfforaeth yn cael ei feithrin. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her ariannol ac yn cydnabod yr her pellach sy'n ein gwynebu yn yr hinsawdd economaidd cyfredol. Mae'r diwylliant mewnol yn datblygu'n addawol gyda sefydliad grwpiau megis cynhadleddau rheolwyr, y 6 thema allweddol a fforymau staff lle byddent yn cael trin a trafod arfer dda. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y modd yr ydym wedi sefydlu'n gwobrau staff blynyddol.

Ceir cyfeiriad a gweledigaeth trawsnewidiol ym meysydd oedolion hyn yr Ynys a strategaeth moderneiddio addysg bellach. Byddwn yn datblygu'r modd o weithio'n gallach er budd y dinesydd ac rydym yn cydnabod fod angen inni wella ar ein rheolaeth cyllidol tra'n gwreiddio'n arferion rheolaeth risg.

Gan ystyried yr hyn a fynegwyd eisoes felly, ein bwriad fel corff cyhoeddus eleni yw gwireddu'r gwelliannau pellach a restrir isod dan dri maes allweddol -

***(a) Arweinyddiaeth –***

**Byddwn yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a chryf fydd yn sefydlu ymddygiad proffesiynol a sefydliadol angenrheidiol i sicrhau gwelliant. I wireddu hyn, byddwn –**

- Datblygu rol ein Uwch Dim Arweinyddiaeth i yrru cyfeiriad strategol y Cyngor yn ei flaen gan sicrhau fod blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn cael eu cyfarch yn amserol.

- Yn cynnal cynnydd y rhaglen drawsnewid ac yn moderneiddio dulliau cyflwyno gwasanaeth a chysylltu a'r Cyngor, drwy fabwysiadu strategaeth TG â swyddogaeth alluogi.

- Yn arwain datblygiad ein gweithlu i sicrhau fod y sgiliau cywir gennym i gyflwyno gwasanaethau o'r ansawdd uchaf ac adnabod staff gyda'r potensial i ddatblygu fel rheolwyr ac arweinwyr y dyfodol.

- Yn cryfhau'n berthynas partneriaethol gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac yn arwain ar fentrau partneriaethol a chydweithredol fydd yn datblygu manteision posibl i ddinasyddion a staff i'r dyfodol.

***(b) Llywodraethiant –***

**Byddwn yn darparu fframwaith rheoli perfformiad integredig, gan gysylltu'r Cynllun Corfforaethol i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol i lawr at y broses o bennu'r gyllideb flynyddol ac adolygiadau datblygiad perfformiad unigol. I wireddu hyn, byddwn –**

- Yn gwella a mireinio’n trefniadau rheolaeth ariannol mewnol gan gyfunioni’n cyllid a gwariant penodol yn erbyn blaenoriaethau corfforaethol.

- Yn cyflawni’r prosiect caffael corfforaethol a datblygu trefniadau parhad busnes yn gorfforaethol ac ar lefel gwasanaeth.

- Yn ymateb yn gadarnhaol i bob set o argymhellion boed nhw’n dod gan ein archwiliwyr mewnol neu rai allanol.

- Sefydlu’n gadarn prosesau rheoli risg ymhellach ac yn datblygu polisi partneriaeth gyda chyfarwyddyd clir ar feini prawf ar gyfer sefydlu partneriaeth a’r modelau llywodraethiant clir

***(c) Perfformiad –***

**Byddwn yn Gyngor sy’n rhoi pwyslais ar ganlyniadau a deilliannau i’n dinasyddion ac yn ymdrechu i wella perfformiad mewn meysydd pwysig o’n gwaith. I wireddu hyn, byddwn –**

- Yn adeiladu ar lwyddiant y Byrddau Trawsnewid Corfforaethol a’r prosesau sy’n sylfaen iddynt.

- Yn parhau i fireinio’n cardiau sgorio corfforaethol a gwasanaeth a chyflawni cysondeb yn safon ein cynlluniau darparu gwasanaeth.

- Yn caffael a gweithredu system rheoli perfformiad electroneg corfforaethol, gan sicrhau’r sgiliau dadansoddi sydd eu hangen a grymuso staff drwy hyfforddiant i reoli perfformiad.

Drwy gyflawni’r uchod fe fyddwn yn cymeryd camau breision i fod erbyn 2017 –

***‘yn gyngor proffesiynol sy’n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy’n cael eu gwerthfawrogi’n fawr gan ein dinasyddion’.***

# Manylion Pellach

**I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:**

**Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni Ynys Môn**
**LL77 7TW**
**Ffôn - 01248 752111**
**-bost - GethinMorgan@ynysmon.gov.uk**

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor:**
**www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol**

**Gallwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:**
**Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk**

**Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn:**
**www.ynysmon.gov.uk/AGBSAC**

**Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:**

- **Swyddfa Archwilio Cymru:**
  **www.wao.gov.uk**
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:**
  **www.cssiw.org.uk**
- **Estyn:**
  **www.estyn.gov.uk**

**Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu i gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor os gwelwch yn dda trwy'r manylion cyswllt a amlinellir ar frig y dudalen hon.**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **Pwyllgor Gwaith 16 Mawrth 2015**<br>**Cyngor 14 May 2015** |
| **Pwnc:** | **Rheolau Gweithdrefn Contract Newydd** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball – Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Awena Walkden – Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol)**<br>**Est: 2563**<br>**apxce@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLIAD/ION**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Contract ("RhGC") newydd (fel y gwelir hwy yn Atodiad 1 yr Adroddiad hwn) ac yn dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i ymgorffori'r RhGC newydd yn y cyfansoddiad.

**RHESWM/RHESYMAU**

Mae RhGC y Cyngor yn nodi'r fframwaith ar gyfer cynnal ei holl weithgaredd caffael. Pe bai gofynion statudol neu rai cyfreithiol eraill yn mynd y tu hwnt i'r awdurdod a geir yn y RhGC, yna bydd y gofynion hynny'n cael blaenoriaeth dros y RhGC.

Mae'r RhGC cyfredol angen eu diweddaru oherwydd :-

i. Mae'r fersiwn bresennol yn weinyddol drwm ac mae'n creu biwrocratiaeth ddianghenraid ac mae hynny'n ei gwneud yn aneffeithlon.
ii. Nid yw bellach yn unol ag arferion gorau ac fe all achosi cymhlethdodau mewn contractau aml-awdurdod, a hefyd i gontractwyr sy'n delio â lliaws o awdurdodau;
iii. Mae Grŵp Caffael Gogledd Cymru sy'n cynnwys arbenigwyr contract yn y rhanbarth, wedi cyfarfod ar nifer o achlysuron dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i drafod yr angen am newid yn y RhGC a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o awdurdodau. Mae Atodiad 1 wedi ei lunio trwy ddewis rhai o'r pwyntiau allweddol o'r trafodaethau hynny.
iv. Mae gwerthoedd y contractau cyfredol wedi eu cynyddu er mwyn awdurdodi swyddogion i gaffael contractau llai yn gyflymach a heb orfod mynd drwy gymaint o weithdrefnau. Fe

fydd, fodd bynnag, yn ofynnol i swyddogion gadw llwybr archwilio cymesur o'r broses a ddilynwyd a'r rhesymau am eu penderfyniad. Bydd y rhain yn destun archwiliad ac adolygiad mewnol.

v. I gymryd i ystyriaeth y gofynion deddfwriaethol ar gyfer e-dendro.

vi. I ddiweddaru rheolau "eithriadau" fel bod awdurdod ymlaen llaw yn cael ei roddi gan Swyddogion ac nid gan y Pwyllgor Gwaith. Pwrpas hyn yw cyflymu'r broses a chysoni'r rheolau gyda'r hyn sy'n digwydd mewn llefydd eraill.

I grynhoi, mae'r canlynol wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth greu'r RhGC newydd :-

1. Yr arferion gorau ar hyn o bryd
2. Y gyfraith ar hyn o bryd yng nghyswllt caffael
3. Argymhellion gan swyddogion caffael y Cyngor.

Mae crynodeb ynghlwm yn Atodiad 2 sy'n nodi'r prif newidiadau a fwriedir.

**<u>GOBLYGIADAU ARIANNOL</u>**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i ddiweddaru'r RhGC. Fodd bynnag, bydd y trothwyon ariannol o dan y RhGC yn newid.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid yw cadw pethau fel ag y maent yn opsiwn oherwydd bod angen gwneud newidiadau fel eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau i drothwyon ac awdurdod ar gyfer eithriadau yn ofynion cyfreithiol; maent yn cael eu cynnig er mwyn gwneud y Cyngor yn fwy tebyg i fusnes ac yn fwy effeithlon ac i gefnogi swyddogion caffael i gyflymu'r broses. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae RhGC newydd yn golygu newidiadau cyfansoddiadol na allant gael eu cymeradwyo ond gan y Cyngor llawn yn dilyn eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Bydd unrhyw newidiadau i'r RhGC angen cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Yn gefnogol i'r newidiadau |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau ar yr adroddiad yma |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cyd awdur yr adroddiad felly ei sylwadau wedi'u cynnwys. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | Y manylder gyda gosod contractau bychan wedi'i liniaru drwy :-<br>- Ddynodiad arbenigol<br>- Hyfforddiant<br>- Llwybr archwilio<br>- Defnyddio fframwaith contractau<br>- Profion gan Archwilio Mewnol<br>Adolygu ar ôl 12 mis gydag argymhellion pellach ac / neu adolygiad pellach |

| F – Atodiadau: |
|---|
| 1. Copi o'r Rheolau Gweithdrefn Contract newydd arfaethedig.<br>2. Crynodeb o welliannau / newidiadau allweddol rhwng y RhGC newydd a'r rhai presennol. |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| D/B |

ATODIAD / APPENDIX
1

**Cyfansoddiad: 4.9 Rheolau Gweithdrefn Contract**

**4.9.1 Cyd-destun**

4.9.1.1 Y rheolau hyn yw Rheolau Gweithdrefn Contract (y "Rheolau") Cyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor") a ysgrifennwyd yn unol â’r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (2015) ar gyfer caffael gan awdurdodau sy’n contractio.

4.9.1.2 Dim ond y Cyngor llawn all ddiwygio’r Rheolau hyn, ar ôl ystyried unrhyw gyngor a gynigir gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ac / neu Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig

4.9.1.3 Rhaid darllen y Rheolau hyn ar y cyd â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor (4.8) ac unrhyw ganllawiau neu weithdrefnau caffael a gyhoeddwyd gan y Cyngor ac unrhyw ganllawiau arfer dda sy’n berthnasol i’r math o gaffael.

4.9.1.4 Bydd y Rheolau hyn yn gymwys i’r holl "gontractau perthnasol" a wneir gan, neu ar ran, y Cyngor ar gyfer darparu gwaith, cyflenwadau, nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau ar gyfer:-

4.9.1.4.1 cyflenwi neu gael gwared ar nwyddau neu ddeunyddiau

4.9.1.4.2 llogi, rhentu neu brydlesu nwyddau neu offer

4.9.1.4.3 cyflawni gwaith

4.9.1.4.4 darparu gwasanaethau yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) y rhai sy'n ymwneud â

(a) recriwtio staff

(b) trafodion tir ac eiddo

(c) gwasanaethau ariannol ac ymgynghori

(ch) y cyflenwad o staff a ddarperir gan asiantiaid cyflogaeth, consortia neu gwmnïau eraill

(d) ysgolion, a gynhelir gan y Cyngor, a'u gweithwyr ac eithrio lle cawsant eu diwygio gan y Cynllun Ariannu Teg sy'n berthnasol i ysgolion.

4.9.1.5 Nid yw contractau perthnasol yn cynnwys:-

4.9.1.5.1 contractau cyflogaeth sy'n gwneud unigolyn yn weithiwr uniongyrchol i'r Cyngor

4.9.1.5.2 cytundebau ynglŷn â phrynu, cael gwared ar a throsglwyddo tir (y mae’r Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn berthnasol iddynt)

4.9.1.5.3 talu grantiau i drydydd parti (er y bydd angen rhoi ystyriaeth i Reolau Cymorth Gwladwriaethol)

4.9.1.6 Mae 'Swyddog Cyfrifol' (SC) yn y Rheolau Gweithdrefn Contract hyn yn cynnwys Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth neu unrhyw berson arall y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo/iddi

4.9.1.7 Mae 'Swyddog Caffael Cymeradwy (SCC)' o fewn y Rheolau hyn yn golygu swyddog sydd ag awdurdod i gaffael gwasanaethau/gwaith ar ran y Cyngor. Mae gan unrhyw swyddog o'r fath gyfrifoldeb parhaus i ddangos i'w Pennaeth Gwasanaeth perthnasol eu bod wedi cael hyfforddiant digonol i'w galluogi i ddeall y rheolau caffael, gan gynnwys, lle mae hynny'n berthnasol, y Rheoladau Contractau Cyhoeddus 2006 (2015). Yn ychwanegol at hyn, bydd yr holl SC yn gyfrifol ar y cyd â'u SCC am sicrhau fod hyfforddiant priodol yn cael ei dderbyn, ei loywi a'i ddiweddaru yn unol â'r cyfrifoldeb a bennir yn y paragraff hwn.

4.9.1.8 Mae'r Rheolau hyn yn nodi gofynion gorfodol.  Gall methiant i gydymffurfio â'r Rheolau hyn, Cyfansoddiad y Cyngor neu ofynion cyfreithiol y DU a'r UE gael ei ddwyn at sylw'r Swyddog Monitro, y Rheolwr Archwilio Mewnol neu swyddog perthnasol arall fel y bo'n briodol a gall arwain at gymryd camau disgyblu

4.9.1.9 Yn ychwanegol at hyn, dylai gweithwyr nodi:-

4.9.1.9.1 unrhyw gyfarwyddyd neu weithdrefnau caffael a fabwysiadwyd gan y Cyngor

4.9.1.9.3 unrhyw gyfarwyddyd ar arfer dda sy'n berthnasol i'r math o gaffael

**4.9.2 Egwyddorion Cyffredinol**

4.9.2.1 **RHAID** i'r holl weithdrefnau caffael:-

4.9.2.1.1 sicrhau gwerth am arian drwy gyflawni'r cyfuniad gorau o bris ac ansawdd

4.9.2.1.2 fod yn gyson â'r safonau uchaf o onestrwydd

4.9.2.1.3 weithredu'n dryloyw

4.9.2.1.4 sicrhau tegwch wrth ddyrannu contractau cyhoeddus

4.9.2.1.5 gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, yn cynnwys egwyddorion Cytuniad yr UE

4.9.2.1.6 sicrhau nad yw ystyriaethau anfasnachol yn dylanwadu ar unrhyw benderfyniadau contractio

4.9.2.1.7 cefnogi holl flaenoriaethau a pholisïau perthnasol y Cyngor

4.9.2.1.8 cydymffurfio â gofynion cyfrinachedd masnachol yn ogystal â gofynion statudol perthnasol, yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data

**DS** Bydd y Rheolau hyn yn berthnasol i weithgareddau contractio unrhyw bartneriaeth os mai'r Cyngor yw'r corff atebol oni bai fod y Cyngor yn cytuno fel arall yn benodol

4.9.2.2 Gweithdrefnau ar y Cyd

Gall 4.9.2.2.1 Gall y Cyngor ymddiried y cyfan neu ran o'r weithdrefn dendro neu ddyfynbrisio i awdurdod neu awdurdodau eraill sy'n gweithredu ar y cyd arall, neu gorff tebyg, sydd â gweithdrefnau sy'n cyfateb i'r gweithdrefnau hyn, a ddyluniwyd i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r un amcanion, yn amodol ar y canlynol:-

(a) os bydd y corff yr ymddiriedir y weithdrefn iddo yn gorff sector cyhoeddus, bydd angen cyflwyno rhybudd ymlaen llaw ynglŷn â'r trefniadau i'r Deilydd Portffolio Cyllid a'r Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaeth perthnasol a chael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a fyddant yn gyntaf yn ystyried adroddiad yn manylu ar y gweithdrefnau cyffelyb a fabwysiadwyd gan y corff hwnnw

(b) fel arall, bydd y trefniant angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor Gwaith, yn dilyn ymgynghori gyda'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 neu'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) ac ystyried adroddiad yn manylu ar y gweithdrefnau cyffelyb a fabwysiadwyd gan y corff hwnnw

(c) os yw'r corff yn awdurdod lleol neu'n grŵp o awdurdodau lleol, efallai y bydd y trefniant yn caniatáu i'r broses o dderbyn y tendr neu'r dyfynbris gael ei ddirprwyo i'r corff, os cytunir ar hynny ar yr adeg y gwneir y trefniant

4.9.2.2.2 fel arall, ni ellir dirprwyo derbyn tendr neu ddyfynbris y tu allan i'r Cyngor

4.9.2.2.3 ym MHOB achos rhaid i'r trefniant ganiatáu i'r Cyngor a'i archwilwyr gael mynediad llawn i lwybr archwilio'r penderfyniadau a wnaed

4.9.2.3 Partneriaethau

4.9.2.3.1 Mae Rheol Gweithdrefn Ariannol 4.8.6.4 yn delio â threfniadau partneriaeth ac yn rhoi cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo.  Gall telerau cymeradwyaeth o'r fath gynnwys gweithdrefnau all effeithio ar y modd y bydd caffael yn cael ei weithredu gan neu ar ran y Cyngor neu'r bartneriaeth.  Os mai'r bartneriaeth yw'r parti sy'n contractio, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith wth gymeradwyo'r trefniadau partneriaeth gymeradwyo hefyd weithdrefnau caffael y bartneriaeth

**4.9.3 Eithriadau**

4.9.3.1 Ac eithrio lle mae'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (2015) yn gymwys, mae gan y Pwyllgor Gwaith yr hawl i hepgor neu amrywio gofynion y Rheolau

4.9.3.2 Yn ogystal, efallai y bydd y Rheolau hyn yn cael eu hepgor neu eu hamrywio os yw'r amgylchiadau yn cael eu hardystio gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro neu'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, neu eu dirprwyon perthnasol, fel rhai sy'n cwrdd ag unrhyw un o'r meini prawf canlynol:-

4.9.3.2.1 ar gyfer gwaith, gwasanaethau a chyflenwadau sydd naill ai â phatent neu sydd o natur mor arbennig nad yw'n bosibl cael prisiau cystadleuol

4.9.3.2.2 ar gyfer cyflenwadau a brynwyd neu ar gyfer eu gwerthu mewn marchnad gyhoeddus neu arwerthiant

4.9.3.2.3 ar gyfer cyflawni gwaith neu wasanaethau, neu brynu cyflenwadau sy'n ymwneud â gwybodaeth neu sgiliau arbenigol neu unigryw

4.9.3.2.4 gyda sefydliad sydd wedi ennill cytundeb ar gyfer cyfnod blaenorol o waith drwy broses gystadleuol a lle bydd y gwaith yn ffurfio rhan o raglen gyfresol ac y nodwyd hynny eisoes

4.9.3.2.5 ar gyfer gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau sydd ond ar gael o un sefydliad

4.9.3.2.6 yn golygu bod cymaint o frys nad yw'n bosibl cydymffurfio â'r Rheolau

4.9.3.2.7 ar gyfer prynu darn o gelf neu eitem ar gyfer amgueddfa neu i gwrdd â gofynion penodol digwyddiad celf neu ddiwylliannol na all fod yn gystadleuol oherwydd natur y gofyniad

4.9.3.2.8 mewn perthynas ag arian grant sy'n gyfyngedig o ran amser gan gorff allanol lle na fydd y cyfyngiadau amser yn caniatáu i broses gystadleuol gael ei chwblhau **a** lle bo amodau'r grant yn caniatáu hyn

4.9.3.2.9 ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 neu Ddeddf Plant 1989, ar yr amod y bydd tendrau'n cael eu gwahodd neu eu trafod yn unol â Rheol 4.9.4 os yw'r contract yn cael ei roi allan i dendr

**4.9.4 Tendro a Dyfynbrisiau**

4.9.4.1 Cyn cynnal unrhyw ymarfer caffael bydd y SC/SCC yn amcangyfrif cost caffael o'r fath, gan gynnwys yr holl gostau atodol ac ategol. Mae'n rhaid iddynt fodloni eu hunain bod yr awdurdod yn bodoli o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer gwariant o'r fath, neu y bydd yn bodoli cyn i'r gwariant gael ei ymrwymo, a bod ganddynt awdurdod dirprwyedig i wario o gyllidebau o'r fath.

4.9.4.2 Cyn cynnal unrhyw ymarfer caffael, bydd y SC/SCC yn ymgyfarwyddo eu hunain gydag unrhyw ymrwymiadau contractyddol cyfredol perthnasol ac yn sicrhau y glynir wrthynt drwy gydol y broses.

4.9.4.1.3 Wrth amcangyfrif cost y caffael, bydd y SC/SCC yn cynnwys y gwerth disgwyliedig dros gyfnod llawn y Contract, gan gynnwys unrhyw estyniadau a / neu adnewyddu. Os yw tymor llawn y contract yn hysbys, yna gall y Swyddog Cyfrifol geisio arweiniad pellach gan y Gwasanaeth Caffael.

4.9.4.1.4 Mae'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus yn cynnwys y rheolau agregu y dylid eu defnyddio wrth amcangyfrif gwerth y contract

4.9.4.2 Gellir cynnal cystadleuaeth mewn un o ddwy ffordd:

4.9.4.2.1 dogfennau'n cael eu hanfon allan ar ffurf confensiynol naill ai wedi eu printio neu ar CD. Dychweliadau i fod ar yr un ffurf. Mae hyn yn ddelfrydol lle nad yw'r farchnad efallai yn gyfarwydd â cheisiadau ar-lein neu

4.9.4.2.2 bod popeth ar gael ar-lein, sy’n cael ei alw’n aml yn e-dendro. Mae'r Cyngor yn tanysgrifio i’r datrysiad e-dendro. Mae hyn yn arbed amser a chost argraffu, ac mae'n ddelfrydol ar gyfer marchnadoedd TG sydd wedi’u datblygu’n dda

4.9.4.2.3 **RHAID** defnyddio e-dendro ar gyfer pob contract sy’n werth dros £25k

4.9.4.3 Bydd y SC/SCC yn ymgynghori gyda'r Gwasanaeth Caffael cyn tendro ar lefel y Trothwy Contractau Mawr neu uwch

4.9.4.4 Rhaid i'r SC/SCC ymgynghori gyda'r Rheolwr Yswiriant a Risg cyn i unrhyw broses gaffael ddechrau ar gyfer cael cyngor ynglŷn â gwerthoedd yswiriant

4.9.4.5 Bydd y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (2015) yn berthnasol ar gyfer pob prosiect lle bydd y costau disgwyliedig yn uwch na lefelau trothwy’r UE ar yr amser y dechreuir y prosiect ar gyfer caffael y nwyddau, y gwaith neu’r gwasanaethau perthnasol. Bydd raid ymgynghori gyda’r Gwasanaethau Cyfreithiol ym mhob achos o'r fath.

4.9.4.6 Bydd y drefn dendro lawn yn Rheol 4.9.7 yn berthnasol pan fydd y gost ddisgwyliedig yn uwch na £30k hyd at drothwy’r UE **(CONTRACTAU MAWR)**

4.9.4.7 Mae'r weithdrefn ddyfynbrisiau yn Rheol 4.9.6 yn berthnasol pan fydd y gost ddisgwyliedig yn £10k hyd at £30k **(CONTRACTAU BACH)**

4.9.4.8 Mae'r weithdrefn dyfynbris sengl yn Rheol 4.9.5 yn berthnasol lle mae'r gost ddisgwyliedig yn llai na £10,000 **(MÂN GONTRACTAU)**

**4.9.5 Gweithdrefn Dyfynbris Sengl Contractau Mân (hyd at £10k)**

4.9.5.1 Bydd y SC/SCC yn siecio a oes trefniant pwrcasu corfforaethol (megis Fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol) yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gofyniad penodol ac, os oes, bydd archeb yn cael ei gwneud dan y trefniant hwnnw

4.9.5.2 Os nad oes trefniant yn bodoli bydd y SC/SCC yn cael, lle bo hynny’n ymarferol, o leiaf **un** dyfynbris, o restr gymeradwy o gyflenwyr, lle mae rhestr o'r fath yn bodoli, neu o restr gyffredinol o gyflenwyr sydd wedi eu cofrestru

4.9.5.3 Os na fydd rhestr o’r fath yn bodoli, yna bydd y SC/SCC yn asesu pa berson neu gwmni sy’n gymwys ar gyfer y dibenion a fwriadwyd

4.9.5.4 Rhaid cynnal trywydd archwilio er mwyn sicrhau bod y prosesau wedi eu dilyn gyda thystiolaeth o gyfiawnhad gwrthrychol am ddewis person neu gwmni a wahoddir i roi dyfynnu pris

**4.9.6 Gweithdrefn Dyfynbrisiau Contractau Bach (£10,000k hyd at £30k)**

4.9.6.1 Bydd y SC/SCC yn siecio a oes trefniant pwrcasu corfforaethol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gofyniad penodol ac, os oes, bydd archeb yn cael ei gwneud dan y trefniant hwnnw

4.9.6.2 Os nad oes trefniant o'r fath yn ei le bydd y SC/SCC yn gwahodd o leiaf dri dyfynbris ar gyfer y gwaith/gwasanaethau

4.9.6.3 Bydd pob un a wahoddir i roi dyfynbris yn cael yr un mynediad i wybodaeth ynglŷn â’r contract arfaethedig

4.9.6.4 Bydd pob cwmni a wahoddir i roi dyfynbris yn derbyn yr un dyddiad cau ar gyfer dyfynbrisiau ac ni fydd dyfynbrisiau yn cael eu gwerthuso tan ar ôl y dyddiad cau hwnnw

4.9.6.5 Rhaid cadw trywydd archwilio yn dangos pa ddyfynbrisiau a wahoddwyd sut y cawsant eu hasesu a chanlyniad yr ymarfer

4.9.6.6 Ar gyfer unrhyw gontract sy’n werth £25k neu fwy, rhaid rhoi hysbyseb gyhoeddus ar wefan gwerthwchigymru yn www.gwerthwchigymru.gov.uk. Gellir ychwanegu at hyn drwy roi hysbysebion mewn cylchgronau masnachol ac ati yn unol â disgresiwn y Gwasanaeth perthnasol.

**4.9.7 Gweithdrefn Tendro Contractau Mawr (£30k hyd at Drothwy’r UE)**

4.9.7.1 Bydd y SC/SCC yn siecio a oes trefniant pwrcasu corfforaethol ar gyfer y gofyniad penodol ac, os oes, bydd archeb yn cael ei gwneud dan y trefniant hwnnw.

4.9.7.2 Os nad oes trefniant o'r fath yn ei le a bod y SC/SCC yn fodlon nad oes unrhyw fudd i weithredwyr economaidd sydd wedi eu lleoli mewn aelod-wladwriaethau, byddant yn gosod hysbyseb gyhoeddus ar wefan GwerthwchiGymru yn www.gwerthwchigymru.gov.uk neu unrhyw wefan y cafwyd cyfarwyddyd i’w defnyddio dan y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (2015) er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau prynu. Yn ychwanegol at hyn, gellir rhoi hysbyseb/ion mewn cylchgronau masnachol, yn ôl disgresiwn y Gwasanaeth

4.9.7.3 Ym mhob achos arall rhaid cyhoeddi hysbyseb gyhoeddus yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb ar gwerthwchigymru gan fod yn ddigon hygyrch hefyd i agor y gystadleuaeth o fewn y farchnad yr UE (i'r graddau y gall y contract, o ystyried holl amgylchiadau'r achos, o bosibl fod o ddiddordeb i gontractwyr mewn aelod-wladwriaethau eraill)

4.9.7.4 Dylai'r hysbyseb nodi natur a phwrpas y contract arfaethedig a, lle y mae'n berthnasol, lle y gellir cael manylion pellach, wahodd tendrau ar gyfer y gwaith a phennu'r drefn ar gyfer cyflwyno tendrau. Rhaid rhoi o leiaf 10 niwrnod gwaith o rybudd

4.9.7.5 Ni fydd unrhyw dendr yn cael ei ystyried onid yw wedi ei gynnwys mewn amlen blaen wedi ei chyfeirio'n amhersonol at y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a rhaid ei selio'n ddiogel ac arni'r gair "Tendr" a nodi wedyn y pwnc y mae'r tendr yn ymwneud ag ef, ond ni chaniateir nodi arni unrhyw farc hynod neu farc a fwriadwyd i ddangos pwy yw'r anfonwr a bydd darpar dendrwyr yn cael eu hysbysu o hynny. Ar ôl eu derbyn, bydd amlenni o'r fath yn cael eu cadw heb eu hagor yn yr Adaran Gyfreithiol tan yr amser a bennwyd ar gyfer eu hagor

4.9.7.6 Bydd tendrau’n cael eu hagor fesul un, ym mhresenoldeb dau weithiwr o leiaf, yn cynnwys y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro neu enwebai a'r SC/SCC, neu berson a enwebwyd. Bydd manylion pob tendr yn cael eu cofnodi ar restr

rhifo mewn trefn.  Bydd y tendrau a'r rhestr yn cael eu llofnodi gan y partïon sy'n bresennol ar adeg agor tendrau o'r fath

4.9.7.7 Bydd unrhyw dendr a dderbynnir ar ôl yr amser penodedig fel arfer yn cael eu dychwelyd yn brydlon i'r tendrwr gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.  Fodd bynnag, os bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn fodlon bod tystiolaeth o bostio mewn pryd i'w ddosbarthu erbyn yr amser a nodir yng nghwrs arferol dosbarthu post, a bod y tendrau eraill heb eu hagor, yna fe all ef / hi, yn ôl ei dd/disgresiwn llwyr, ganiatáu'r tendr efallai

4.9.7.8 Lle gwelir tystiolaeth o gamgymeriadau neu anghysonderau clercyddol neu rifyddol ar adeg archwilio'r tendrau a fyddai'n cael effaith ar ffigwr/ffigyrau'r tendr, bydd y Swyddog Cyfrifol yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r tendrwr am fanylion gwallau neu anghysonderau o'r fath ac:-

4.9.7.9 mewn achosion lle mae gwallau trawsgrifio neu gyfrifiannu amlwg ar wyneb y ddogfen, rhoddir i'r tendrwr y cyfle i gywiro'r gwallau hynny a;

4.9.7.10 ym mhob achos arall, caiff gyfle i gadarnhau neu dynnu'r cynnig yn ôl yn ysgrifenedig i'r Swyddog SC/SCC. Os bydd y tendrwr yn tynnu'n ôl, yna bydd y tendrwr nesaf yn y drefn gystadleuol (fel y cafodd ei asesu'n unol â'r dull asesu a fabwysiadwyd) yn cael ei archwilio a'i drin yn yr un modd

4.9.7.11 Gellir newid y weithdrefn hon lle mae'r ymarfer yn dilyn canllawiau arfer da cenedlaethol neu gydnabyddedig sy'n pennu trefn arall a bydd pob tendrwr yn cael gwybod ymlaen llaw am y weithdrefn i'w dilyn

4.9.7.12 Dim ond y Pennaeth Swyddogaeth (Cyllid)/Swyddog A151 neu'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro all awdurdodi unrhyw eithriad arall i'r drefn hon a hynny ar ôl ystyried adroddiad gan y SC/SCC

4.9.7.13 Er mwyn osgoi amheuaeth ac i sicrhau cysondeb, rhaid i unrhyw hysbyseb y mae angen ei chyhoeddi dan adran 4.9.7 yma gael ei chymeradwyo gan y Tîm Caffael Corfforaethol cyn cael ei chyflwyno i'r farchnad/ei chyhoeddi.

**4.9.8 Manyleb o'r Cynnyrch, Gwerthuso a Derbyn**

4.9.8.1 Mewn unrhyw ymarfer caffael rhaid cyflwyno'r wybodaeth ganlynol i'r rheini sy'n dymuno tendro neu ddyfynnu pris:-

4.9.8.1.1 disgrifiad o'r nwyddau sydd eu hangen neu fanylebau o'r gwaith neu'r gwasanaethau sydd eu hangen.  Bydd hyn yn cynnwys Telerau ac Amodau'r Cyngor a Chytundeb Prosesu Data, os yw'n berthnasol

4.9.8.1.2 a fydd y cwmnïau'n cael eu hasesu ar sail eu gallu technegol ac os byddant, sut y bydd hynny'n cael ei wneud

4.9.8.1.3 a fydd y cwmnïau'n cael eu hasesu ar eu sefyllfa ariannol ac economaidd ac os byddant, sut y bydd hynny'n cael ei wneud

4.9.8.1.4 a fydd yr asesiad yn un ar sail y pris yn unig neu ar sail y tendr / dyfynbris mwyaf manteisiol yn economaidd.  Os mai'r olaf sy'n berthnasol, dylid cyflenwi manylion am unrhyw gynllun sgorio a ddefnyddir ar gyfer y gwerthusiad, yn cynnwys unrhyw is-feini prawf

4.9.8.1.5 rhaid i bob tendr dros y Trothwy Contractau Mawr gael eu gwerthuso ar sail y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd

4.9.8.1.6 nid oes unrhyw ymrwymiadau ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf nac unrhyw dendr / ddyfynbris

4.9.8.1.7 os derbynnir tendrau amrywiad, ddatganiad i'r perwyl hwnnw, a manylion ynglŷn â'r modd y byddant yn cael eu hasesu

4.9.8.1.8 datganiad bod Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn berthnasol i'r Cyngor a bod unrhyw wybodaeth y mae'r tendrwr yn ystyried ei fod yn gyfrinachol, neu a fyddai'n debygol o ragfarnu eu diddordebau masnachol, yn cael eu nodi ar wahân, gyda rhesymau, yn y tendr neu'r dyfynbris

4.9.8.2 Gall un o weithwyr y Cyngor awdurdodi derbyn dyfynbris ar yr amod bod:-

4.9.8.2.1 ganddo ef / hi yr awdurdod dirprwyedig angenrheidiol i wneud hynny dan y Cynllun Dirprwyo, ynghyd ag awdurdod i ymrwymo cyllideb y Cyngor, a fydd hefyd yn ddigonol ar gyfer y contract arfaethedig a;

4.9.8.2.2 bod y tendr / dyfynbris wedi ei werthuso yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd a naill ai:-

(a) mewn achos lle mae'r contract yn cael ei ddyfarnu ar sail pris, dyfynbris y tendr yw'r pris isaf neu

(b) mewn achos lle mae'r contract yn cael ei ddyfarnu ar sail y tendr neu'r dyfynbris mwyaf manteisiol yn economaidd, bod y cynllun sgorio wedi ei roi i'r tendrwr, a bod y contract i'w ddyfarnu yn unol â'r cynllun sgorio hwnnw

4.9.8.2.3 Bydd y SC/SCC yn hysbysu'r holl dendrwyr o ganlyniad yr ymarfer tendro a'r dyddiad y daw'r cyfnod segur i ben (os yn berthnasol)

4.9.8.2.4 Rhaid i'r llythyr penderfyniad dyfarnu i dendrwyr aflwyddiannus gynnwys y canlynol:-

(a) y meini prawf dyfarnu

(b) y rheswm dros y penderfyniad, gan gynnwys nodweddion a manteision cymharol y tendrwr llwyddiannus

(c) y sgorau a gafodd y tendrwr aflwyddiannus (gyda dadansoddiad llawn o sgorau yn erbyn pob maen prawf ac is-feini prawf wedi eu cefnogi gyda naratif byr)

(ch) enw'r tendrwr llwyddiannus

(d) datganiad clir ynghylch pryd y bydd y cyfnod segur yn dod i ben (os yn berthnasol)

4.9.8.2.5 Bydd yr holl ymgeiswyr a gafodd eu heithrio rhag cael eu gwahodd i dendro yn cael gwybod bod eu ceisiadau wedi cael eu gwrthod a'r rhesymau am hynny

4.9.8.3 Gellir cymeradwyo amrywiadau i'r weithdrefn dderbyn dan unrhyw un o'r amgylchiadau isod:-

4.9.8.3.1 gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol i aelodau - lle y gwneir y taliad mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol i aelodau o'r cyhoedd a bod rhaid i'r Cyngor yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol ystyried dymuniadau'r defnyddwyr gwasanaeth

4.9.8.3.2 contractau a wneir fel asiantiaid - lle mae'r tendrwr yn cael ei wahodd fel asiant ar gyfer person neu gorff arall ac sydd â gofynion hollbwysig a nodir yn ysgrifenedig

4.9.8.3.3 hyrwyddo cystadleuaeth – lle mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 neu'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn cymeradwyo dull arall ar gyfer ymarfer caffael penodol gyda'r nod o hyrwyddo, cynnal neu wella cystadleuaeth yn y farchnad, yn unol ag asesiad y Cyngor

**4.9.9 Telerau i'w nodi mewn Tendrau, Dyfynbrisiau a Chontractau**

4.9.9.1 Dylai'r disgrifiad o'r nwyddau, gweithiau neu wasanaethau sydd eu hangen mewn unrhyw wahoddiad i dendro neu ddyfynbris gynnwys y canlynol:-

4.9.9.1.1 Unrhyw safonau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Cenedlaethol neu unrhyw safon gydnabyddedig arall gan gynnwys gofyniad Iechyd a Diogelwch a Rheoliadau CDM;

4.9.9.1.2 lle bo'n berthnasol, unrhyw ddarpariaethau yng Nghynllun Iaith y Cyngor

4.9.9.1.3 ar gyfer pob contract neu archeb, bydd angen prawf o yswiriant digonol er boddhad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Adran 151 gan gynnwys atebolrwydd cyhoeddus, atebolrwydd y cyflogwr ac indemniad proffesiynol os oes angen hynny

4.9.9.1.4 hawl mynediad at ddogfennau perthnasol a chofnodiadau'r contractwr i bwrpasau monitro ac archwilio a gofynion Deddf Diogelu Data 1998

4.9.9.1.5 y gwaith, deunyddiau, materion, gwasanaethau neu bethau i'w cyflwyno, i'w cyflenwi neu eu gwneud (gan gynnwys manylebau technegol)

4.9.9.1.6 y pris sydd i'w dalu gyda datganiad o ddisgownt neu ddidyniadau eraill

4.9.9.1.7 yr amser neu'r amseroedd ar gyfer cyflawni'r contract

4.9.9.2 ym mhob contract ysgrifenedig dros y trothwy Contract Bach rhaid cynnwys y darpariaethau canlynol yn nhelerau arfaethedig y contract:-

4.9.9.2.1 terfynu'r contract ac adennill unrhyw symiau a dalwyd lle bu tystiolaeth o lwgrwobrwyo neu lygredd

4.9.9.2.2 yn rhoi hawl i'r Cyngor i derfynu rhan neu'r cyfan o'r contract neu i gael darpariaeth arall o gyflenwadau, gwasanaethau a gwaith sydd i'w cyflenwi dan y contract mewn achos o dor-cytundeb ar ran y contractwr neu os bydd y contractwr yn dod yn fethdalwr

4.9.9.2.3 y pris (ac unrhyw fecanwaith ar gyfer penderfynu’r pris, unrhyw bris ychwanegol neu ostyngiadau)

4.9.9.2.4 yn gwahardd y contractwr rhag is-gontractio, neilltuo neu fel arall drosglwyddo'r contract heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor ac ar yr amod y bydd y contractwr yn parhau i fod yn atebol i'r Cyngor am unrhyw ran o'r contract a allai gael ei his-gontractio

4.9.9.2.5 cydymffurfiaeth y contractwr â gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â:-

(a) iechyd a diogelwch, gan gynnwys sefydlu systemau a gweithdrefnau priodol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau a gwaith sydd wedi eu caffael yn cynnwys y Rheoliadau CDM

(b) atal anghydraddoldeb a hyrwyddo cydraddoldeb

(c) y glynir wrth y gofynion o ran hawliau dynol a pherfformiad gweithgarwch swyddogaethol dan y contract (fel pe bai'r contractwr yn gorff cyhoeddus)

(ch) rhyddid gwybodaeth sy’n golygu ei bod yn ofynnol i’r contractwr gydweithio gyda'r Cyngor wrth ymdrin â cheisiadau, gyda’r contractwr yn derbyn y bydd y wybodaeth hon yn agored i’w datgelu a chan ddilyn y gofynion o ran tryloywder lleol ar gontractau a thendrau

(d) diogelu data

(dd) deddfwriaeth trosglwyddo gweithlu lle y bo'n briodol, gan gynnwys codau ymarfer

(e) unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol eraill

4.9.9.2.6 cydymffurfio â pholisïau cynaliadwyedd y Cyngor

4.9.9.2.7 indemniadau ar gyfer unrhyw hawliad mewn perthynas ag atebolrwydd cyflogwr neu atebolrwydd cyhoeddus yn deillio o'r contract, gan gynnwys, os yw'n briodol, torri hawliau eiddo deallusol a gofynion yswiriant priodol gan y contractwr

4.9.9.2.8 indemniadau mewn perthynas â hawliadau a wnaed yn erbyn y Cyngor mewn perthynas â gweithgareddau contractwyr a darparu yswiriant boddhaol yn erbyn hawliadau o'r fath

4.9.9.2.9 mewn achosion lle mae gweithgareddau’r contractwr yn rhai o fath y gellir fel arfer eu hyswirio felly, darparu ar gyfer y Cyngor dystiolaeth o yswiriant indemniad boddhaol a ddelir gan y contractwr

4.9.9.2.10 ar gyfer contractau uwchlaw lefel Contractau Mawr sy’n ymwneud â gwneud gwaith neu ddarparu gwasanaethau, darparu diogelwch digonol mewn perthynas â chwblhau gan y contractwr naill ai drwy gadw’n ôl symiau sy'n ddyledus neu rwymedigaeth

i dalu iawndal penodedig neu berfformiad a amnewidiwyd neu (lle mae’n briodol) ddarparu bond perfformiad neu warant rhiant gwmni

4.9.9.2.11 darparu i'r Cyngor ddiogelwch digonol mewn perthynas ag eiddo deallusol gyda diogelwch indemniad lle bo hynny'n briodol

4.9.9.2.12 darparu i'r Cyngor warantau digonol gan gynhyrchwyr cyflenwadau mecanyddol a pheirianneg neu ar gyfer cyflenwadau o gynnyrch eraill lle mae gofynion y Cyngor wedi rhagnodi neu wahardd deunyddiau neu lle mae dyletswydd o sgil a gofal yn briodol i wneuthuriad y cynnyrch mewn contractau ar gyfer prynu cyflenwadau

4.9.9.2.13 lle mae’n briodol, darpariaethau i sicrhau y gweithredir trefniadau gwirio a gwahardd priodol er mwyn sicrhau diogelwch grwpiau sy'n agored i niwed

4.9.9.2.14 hawl y Cyngor i ymgymryd â gweithdrefnau monitro a chydymffurfio

4.9.9.2.15 darparu i'r Cyngor ymrwymiadau cyfrinachedd digonol ynghyd ag indemniadau priodol

4.9.9.3 Rhaid i bob contract fydd yn werth mwy na £50,000:-

4.9.9.3.1 gael ei wneud dan sêl y Cyngor a'i ardystio gan o leiaf un o Swyddogion y Cyngor, neu

4.9.9.3.2 gael ei lofnodi gan o leiaf ddau o Swyddogion y Cyngor gydag un o'r ddau Swyddog yn Bennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro neu ei h/enwebai.

**4.9.10 Gwaith Rheoli ar ôl Gosod Contract**

4.9.10.1 Bydd y trefniadau rheoli contract yn cael eu nodi yn y gwahoddiad i dendro a’r contract dilynol.  Bydd hyn yn sicrhau y ceir adrodd yn ôl yn amserol am berfformiad, ansawdd, boddhad cwsmer a gwybodaeth reolaethol mewn perthynas â blaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth

4.9.10.2 Ni chaniateir amrywio contract heb ganiatâd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyllid) / Swyddog A151 neu’r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro neu dan ei dirprwyaeth penodol ef neu hi i swyddog arall

4.9.10.3 Ni fydd unrhyw gontract fydd yn fwy na throthwy’r UE yn cael ei ymestyn o ran ei hyd na’i werth oni bai:-

4.9.10.3.1 bod estyniad o'r fath wedi ei gynnwys yn yr Hysbysiad Contract gwreiddiol a bod y dogfennau contract yng nghyswllt estyniad o’r fath yn unol â'r darpariaethau y manylwyd arnynt yn y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus a bod opsiynau eraill wedi eu hystyried drwy gyfrwng arfarniad opsiynau a bod y SC/SCC yn fodlon bod yr estyniad yn dangos gwerth am arian a’i fod er budd gorau’r Cyngor yng ngoleuni perfformiad y contractwr.

4.9.10.4 Gall contractau islaw trothwy'r UE gael eu hymestyn yn ôl hyd neu werth os:-

4.9.10.4.1 Na fyddai estyniad o’r fath yn golygu, pe bai wedi ei gynnwys yn y contract gwreiddiol, y byddai'r gwerth cyffredinol wedi mynd uwchlaw trothwy’r UE a bod opsiynau eraill wedi eu hystyried drwy werthusiad opsiynau a bod y Swyddog Cyfrifol yn fodlon bod yr estyniad yn dangos gwerth am arian a’i fod er budd gorau'r Cyngor yng ngoleuni perfformiad y contractwr a bod gwerth cyfunol hwn a chontractau eraill gyda nodweddion tebyg waeth pwy yw’r cyflenwr yn parhau i fod isalw trothwy’r UE.

4.9.11 Amrywiadau

4.9.11.1 Bydd unrhyw amrywiad(au) arfaethedig sydd ar unrhyw adeg yn fwy na 10% o werth y contract yn cael ei asesu/ eu hasesu yn y lle cyntaf i sicrhau nad yw’n torri deddfwriaeth neu bolisi. Rhaid cofnodi’n fanwl y rheswm/rhesymau am yr amrywiad. Ni fydd amrywiadau’n cael eu defnyddio i gelu perfformiad gwael neu broblemau sylfaenol a rhaid i’r effaith ar yr amserlenni gwreiddiol, yr hyn y dylid ei gyflawni a gwerth am arian ffurfio rhan o’r asesiad. Os yw’r effeithiau’n sylweddol, neu dros 10% o werth y contract, rhaid ymgynghori gyda’r SC perthnasol ynghyd ag unrhyw gydranddeiliaid a rhaid mofyn cyngor y Gwasanaeth Caffael.

# ATODIAD / APPENDIX 2

## CRYNODEB O'R NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU

1. Rydym wedi ceisio cadw'r diwyg fel y mae gydag ond ychydig o fân-newidiadau i'r dyluniad er mwyn sicrhau cysondeb gyda fformatau a ddefnyddir gan Gynghorau eraill. Mae hyn er mwyn sicrhau fod modd i'r rheiny sy'n dibynnu ar y Rheolau hyn yn eu gwaith o ddydd i ddydd addasu i'r model newydd hwn yn rhwydd. Y bwriad hefyd yw helpu darparwyr, yn arbennig yn Ynys Môn a Gogledd, i gymharu'r trefniadau ym mhob Cyngor. Yn ein barn ni, mae hyn yn symleiddio'r broses ar eu cyfer ac yn annog ac yn cefnogi mwy o fusnesau lleol i dendro neu i gyflwyno dyfynbrisiau am waith a gwasanaethau.

2. Mae'r Rheolau yn awr yn cynnwys gofyniad newydd i Swyddogion siecio a oes trefniant mewnol neu gydnabyddedig eisoes yn bodoli. Mae hyn er mwyn annog y defnydd o fframweithiau, gan gynnwys unrhyw gonsortiwm prynu lleol ac i gefnogi fframweithiau cydweithio. Fe'u bwriedir i arbed amser ac arian a gallant annog defnyddio cyflenwyr lleol a gânt eu nodi mewn unrhyw fframwaith perthnasol.

3. Mae gwerthoedd y contractau wedi cael eu newid fel a ganlyn:-

- **£1 → £10,000 (Mân Gontractau)**

  Mae'n caniatáu i'r Swyddog Cyfrifol asesu cyflenwyr cymwys a gofyn am o leiaf un dyfynbris ysgrifenedig. Awgrymir y dylid codi hyn o'r trothwy cyfredol o £3,000, er mwyn caniatáu proses gyflymach, llyfnach a llai biwrocrataidd. Fodd bynnag, mae yna 'quid pro quo'. Mae gofyniad penodol (sydd eisoes ymhlyg) i'r Swyddog Cyfrifol gadw trywydd archwilio llawn ar ffeil i gyfiawnhau'r penderfyniad a wnaed. Mae egwyddorion cyffredinol caffael, fel y darperir ar eu cyfer yn y Rheolau, wedi cael eu dyfeisio er mwyn sicrhau tryloywder, dyrannu gwaith yn deg a sicrhau gwerth am arian i'r Cyngor.

- **£10,000 → £30,000 (Contractau Bychan)**

  Yn yr achos hwn, rhaid i'r Swyddog Cyfrifol gael tri dyfynbris ysgrifenedig o hyd. Mae'r gwerth a awgrymir yn parhau i fod yn £30,000.

- **£30,000 hyd at Drothwy'r UE (Contractau Mawr)**

  Mae angen defnyddio'r weithdrefn dendro lawn. Nid yw hyn wedi newid ar wahân i'r ffaith bod y trothwy wedi gostwng o £30,000 i £25,000. Fodd bynnag, mae gofyniad cyfreithiol newydd yn awr i'r Cyngor ystyried unrhyw ddiddordeb traws-ffiniol a allai fod yn berthnasol i'r contract penodol. Os oes diddordeb o'r fath yn debygol, yna mae angen i unrhyw hysbyseb ymestyn i'r farchnad Ewropeaidd. Os yw'n debygol na fydd diddordeb o'r fath, yna bydd angen hysbyseb genedlaethol.

4. Mae gofyniad newydd i ddefnyddio e-dendro ar gyfer yr holl achosion caffael sy'n uwch na throthwy'r UE. Mae hyn wedi cael ei newid er mwyn adlewyrchu'r newidiadau diweddar yn y ddeddfwriaeth.

5. Ar hyn o bryd, rhaid cael awdurdod i ddefnyddio e-dendro ar gyfer achosion caffael sy'n is na throthwy'r UE. Bellach, mae'n fater i'r Swyddog Cyfrifol benderfynu arno yn unol â'i ddisgresiwn.

6. Mae'r eithriadau yn y rheolau wedi newid hefyd, oherwydd daw awdurdod ymlaen llaw (fe gynigir) gan Swyddogion ac nid y Pwyllgor Gwaith. Fodd bynnag, bydd rhaid cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith (sef y Pwyllgor Gwaith neu'r Aelod Portffolio) ar gyfer unrhyw beth sydd y tu allan i'r eithriadau. Bwriad hyn yw cyflymu'r broses o wneud a gweithredu penderfyniad ac i wneud i ffwrdd â'r oedi sy'n gysylltiedig â gofyn am benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd gan y Swyddogion y dewis o hyd o ofyn am benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith os yw'r mater yn un cynhennus. Bydd rhaid cael penderfyniad y Pwyllgor Gwaith o hyd os oes angen cyllideb.

7. Mae'r manylebau o ran allbwn a'r telerau i'w pennu wedi newid i gynnwys gofynion deddfwriaethol perthnasol megis defnyddio'r Cytundeb Prosesu Data a'r Cynllun Iaith Gymraeg.

8. Mae estyniad hefyd i'r gofyniad i gynnwys meini prawf ac is-feini prawf asesu ynghyd â rheolau o ran dyfarnu contractau a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth yr UE.

9. Mae rhai newidiadau i'r gofynion ar ôl gosod y contract megis rheolau amrywio/ymestyn a fydd yn mynd gam ymhellach i sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheolau'r UE.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **20 Ebrill 2015**<br>**14 Mai 2015** |
| **Pwnc:** | **Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Awena Walkden<br>2563 |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor, sef cylch gorchwyl newydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio fel y caiff ei nodi yn yr Atodiad i'r Adroddiad hwn.

**Rhesymau**

Gwnaed cais gan y Dirprwy Brif Weithredwr i newid cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio i adlewyrchu newidiadau mewn arfer dda fel oedd yn cael ei ragweld yn y Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus (2013), Mesur Llywodraeth Leol 2011, Rheoliadau Archwilio a Chyfrifon 2010 ac yn arbennig Cyfarwyddyd CIPFA 2014.

Yn dilyn adolygu'r Cyfarwyddyd CIPFA newydd yn erbyn cylch gorchwyl cyfredol y Pwyllgor Archwilio, mae'r Pennaeth Proffesiwn (Archwilio Mewnol) o'r farn nad yw'r cylch gorchwyl yn nodi'n glir iawn beth yw pwrpasau'r Pwyllgor. Felly mewn cyfarfod ar 10 Rhagfyr 2014, penderfynodd y Pwyllgor Archwilio argymell i'r Cyngor newid enw'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant er mwyn amlygu rôl uwch y Pwyllgor. Ar 9 Chwefror 2015, cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl newydd yn unol â'r Atodiad i'r Adroddiad hwn.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Yr unig opsiwn arall ar gael fyddai cadw pethau fel ag y maent. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod yn gorfforaethol, a chan y Pwyllgor Archwilio, fod angen diwygio'r cylch gorchwyl er mwyn cydymffurfio â'r arferion gorau cyfredol ynghyd â Charwyddyd CIPFA.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Newid cyfansoddiadol yw hwn y mae angen i'r Pwyllgor Gwaith wneud sylwadau arno cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Wedi ei gychwyn gan y Dirprwy Brif Weithredwr |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Awdur yr adroddiad. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Pennaeth Proffesiwn (Archwilio Mewnol) a holl Aelodau Pwyllgor Archwilio'r Cyngor. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Cylch gorchwyl newydd a awgrymir |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Mae'r cylch gorchwyl cyfredol i'w weld yn http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-3-responsibility-for-functions/constitution-34-regulatory-and-other-committees/ |

**Cyngor Sir Ynys Môn**

## 3.4.8 Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – DRAFFT ARFAETHEDIG o Gylch Gorchwyl

### 3.4.8.1 Pwrpas

3.4.8.1.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor ac yn darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

3.4.8.1.2 Mae'r Pwyllgor yn darparu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol, a chywirdeb yr adroddiadau ariannol. Trwy oruchwylio gwaith archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill mae'n gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol wedi eu sefydlu.

3.4.8.1.3 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi ei nodi isod.

3.4.8.1.4 Bydd y Pwyllgor yn cael cyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) fel y swyddog gyda chyfrifoldeb am weinyddiaeth ariannol, a chan yr archwilwyr allanol a mewnol. Gallant hefyd, o fewn cyllideb a gymeradwywyd, ofyn am gyngor annibynnol o'r tu allan i'r Cyngor.

3.4.8.1.5 Bydd gan archwilwyr mewnol/allanol y Cyngor hawl i ofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ystyried unrhyw fater y mae'r archwilwyr yn credu y dylid ei ddwyn i sylw'r Cyngor.

### 3.4.8.2 Llywodraethu Corfforaethol

3.4.8.2.1 Adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu corfforaethol a chytuno ar gamau i sicrhau cydymffurfiaeth ag arferion gorau.

3.4.8.2.2 Monitro cydymffurfiad y Cyngor gyda'i safonau ei hun a rheolaethau a safonau cyhoeddedig eraill, gan gynnwys cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion Iechyd a Diogelwch.

3.4.8.2.3 Sicrhau bod gan y Cyngor system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso gweithredu swyddogaethau'n effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

3.4.8.2.4 Monitro effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian.

3.4.8.2.5 Adolygu effeithiolrwydd rheolaeth fewnol o leiaf unwaith y flwyddyn a goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu ac argymell mabwysiadu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar adeg llofnodi a dyddio'r cyfrifon blynyddol gan y swyddog ariannol perthnasol ar yr hwyraf.

3.4.8.2.6 Darparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar berfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor.

3.4.8.2.7 Parhau i adolygu trefniadau llywodraethol sy'n ymwneud â phartneriaethau sylweddol y mae'r Cyngor yn barti iddynt a chadw dan adolygiad effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymdrin â gweithio mewn partneriaeth.

3.4.8.2.8 Gall y Pwyllgor adolygu materion llywodrathiant corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol mewn perthynas â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor. Yn ogystal ag adolygu dogfennau, wrth gyflawni rôl archwilio, gall fynnu bod unrhyw aelod neu swyddog o'r Cyngor yn mynychu'r Pwyllgor i roi eglurhad ar faterion sydd o fewn eu cylch gorchwyl:

(i) cydymffurfiaeth neu fel arall gyda gweithdrefnau'r Cyngor;
(ii) cydymffurfiaeth neu fel arall gyda safonau llywodraethiant corfforaethol a sefydlwyd;
(iii) i ba raddau y mae risg wedi ei hystyried a chael sylw;

ac mae'n ddyletswydd ar yr unigolion i fynychu os oes gofyn.

**3.4.8.3 Rheoli Risg**

3.4.8.3.1 Datblygu a pharhau i adolygu Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer y Cyngor.

3.4.8.3.2 Adolygu'r gwaith o ddatblygu, gweithredu ac ymwreiddio rheoli risg o fewn y Cyngor gan gynnwys gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ar ddigonolrwydd y trefniadau hynny.

3.4.8.3.3 Adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol a, lle bo'n briodol, gofyn am ymateb gan reolwyr ar gamau i reoli risgiau.

3.4.8.3.4 Adolygu proffil risg y Cyngor a'r sicrwydd bod camau'n cael eu cymryd ar faterion yn gysylltiedig â risg, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phartneriaethau arwyddocaol.

3.4.8.3.5 Codi ymwybyddiaeth o faterion rheoli risg o fewn y Cyngor a sicrhau bod anghenion hyfforddiant ac addysg mewn perthynas â rheoli risg yn cael eu hamlygu ac yn cael sylw.

3.4.8.3.6 Sicrhau bod llinellau adrodd priodol ac effeithiol wedi eu sefydlu ar gyfer cyfathrebu yng nghyd-destun Rheoli Risg

**3.4.8.4 Cyfrifon Ariannol**

3.4.8.4.1 Adolygu a sgriwtineiddio datganiad cyfrifon y Cyngor cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn i sicrhau bod polisïau cyfrifo cywir wedi cael eu dilyn a bod yr holl bryderon sy'n codi o'r datganiad ariannol neu'r archwiliad yn cael eu dwyn i sylw'r Cyngor trwy adroddiadau ac argymhellion priodol.

3.4.8.4.2 Sgriwtineiddio Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a'r Adroddiad Blynyddol ar Weithgareddau'r Trysorlys cyn eu cymeradwyo gan y Cyngor.

3.4.8.4.3 Derbyn adroddiadau chwe misol ar Reoli'r Trysorlys er mwyn monitro datblygiadau a thueddiadau.

3.4.8.4.4 Adolygu amlygiad risg y Cyngor a'i allu i reoli risg mewn perthynas â'i weithgareddau Rheoli'r Trysorlys.

3.4.8.4.5 Rhoi unrhyw gyfarwyddiadau ynghylch cofnodiadau cyfrifo a systemau rheoli fel y mynnir gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

**3.4.8.5 Archwilio Mewnol ac Allanol**

3.4.8.5.1 Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol a sicrhau bod y Siarter yn darparu’r lefel angenrheidiol o awdurdod ac annibyniaeth sefydliadol i’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyflawni ei waith yn effeithiol.

3.4.8.5.2 Cymeradwyo'r penderfyniadau ynglŷn â phenodi a diswyddo prif swyddog archwilio a thâl y prif swyddog archwilio.

3.4.8.5.3 Ystyried strategaethau cynllunio archwilio yr archwilwyr mewnol ac allanol gan gynnwys ffi yr archwilwyr allanol.

3.4.8.5.4 Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol sydd yn seiliedig ar risg a sicrhau bod cyllideb ac adnoddau archwilio mewnol digonol ar gael i'w gwblhau.

3.4.8.5.5 Ystyried adroddiadau blynyddol a barn yr archwilwyr mewnol ac allanol gan gynnwys ystyried Llythyr Blynyddol yr archwiliwr allanol.

3.4.8.5.6 Ystyried adroddiadau unigol Archwilio Mewnol a rheolyddion allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

3.4.8.5.7 Adolygu cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol a Strategaeth Archwilio Mewnol drwy dderbyn ac ystyried adroddiadau cynnydd chwarterol gan y prif swyddog archwilio.

3.4.8.5.8 Ystyried ymateb rheolwyr i faterion a godwyd gan yr archwiliwr mewnol a rheoleiddwyr allanol, a lle bo'n briodol, gofyn am ymateb gan reolwyr.

3.4.8.5.9 Adolygu perfformiad archwilwyr mewnol ac allanol yn flynyddol.

3.4.8.5.10 Mae hawl gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor i ofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried unrhyw fater y mae'r archwilwyr yn credu y dylid ei ddwyn i sylw'r Cyngor.

3.4.8.5.11 Ystyried Adroddiad Blynyddol a barn y Rheolydd archwilio a chrynodeb o weithgareddau archwilio mewnol (gwirioneddol ac arfaethedig) a lefel y sicrwydd y gall roi ar gyfer trefniadau llywodraethiant corfforaethol y Cyngor.

**3.4.8.6 Atal Twyll a Llygredd**

3.4.8.6.1 Adolygu polisïau'r Cyngor a threfniadau gweithredol i swyddogion ac aelodau godi pryderon yn gyfrinachol am gamweddau posibl mewn adroddiadau ariannol a materion eraill, gan gynnwys camau dilynol priodol.

3.4.8.6.2 Adolygu polisi a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer atal, canfod, ymchwilio ac erlyn twyll a llygredd.

3.4.8.6.3 Adolygu systemau a rheolaethau'r Cyngor ar gyfer atal llwgrwobrwyo a derbyn adroddiadau ar ddiffyg cydymffurfio.

3.4.8.6.4 Derbyn adroddiad blynyddol gan y Swyddog Corfforaethol Atal Twyll ar yr holl anghysondebau a amheuir gan gynnwys unrhyw achosion o dwyll a llygredd.

3.4.8.6.5 Derbyn adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar weithredu'r polisi.

**3.4.8.7 Adnoddau Ymgynghorol**

3.4.8.7.1 Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynghori gan y Swyddog Adran 151 dynodedig fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, a chan yr archwilwyr allanol a mewnol. Yn ychwanegol fe allant hefyd, o fewn cyllideb a gymeradwywyd, geisio cyngor annibynnol o'r tu allan i'r Cyngor.

**3.4.8.8 Amlder**

3.4.8.8.1 Isafswm o 4 cyfarfod y flwyddyn.

3.4.8.8.2 Rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod os bydd y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn penderfynu y dylai, neu os bydd o leiaf un rhan o dair o aelodau'r pwyllgor yn gofyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor am gyfarfod.

**3.4.8.9 Aelodaeth**

3.4.8.9.1 Wyth aelod o'r Cyngor, i fod yn wleidyddol gytbwys, yn ogystal â hyd at ddau aelod cyfetholedig lleyg i'w penodi gan y Pwyllgor.

3.4.8.9.2 Ni fydd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn gymwys i fod yn aelodau o'r Pwyllgor hwn. Mae angen i'r Deilydd Portffolio Cyllid, cyn belled ag y bo modd, i fynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

3.4.8.9.3 Aelodau cyfetholedig, sydd ddim yn aelodau o'r Cyngor, i gael eu recriwtio ar gyfer sgiliau priodol i waith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac i'w penodi gan aelodau Cynghorwyr y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am gyfnod penodol i gael ei benderfynu ganddynt pan fydd y penodiad yn cael ei wneud.

3.4.8.9.4 Bydd pob aelod o'r Pwyllgor yn cael pleidlais.

3.4.8.9.5 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn penodi ei Gadeirydd ac ni fydd yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith ac eithrio pan fydd pob grŵp yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith (a gallai fod yn aelod cyfetholedig).

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **Pwyllgor Gwaith 20 Ebrill 2015**<br>**Cyngor Sir 14 Mai 2015** |
| **Pwnc:** | **Prif Weithredwr – Awdurdod i Newid y Cynllun Dirprwyo** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball – Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Awena Walkden – Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol)**<br>**Est. 2563**<br>apxce@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor :-

1. Bod y Cyngor yn newid y Cyfansoddiad fel y gall y Prif Weithredwr wneud newidiadau strwythurol i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion heb fynd drwy'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.

2. Bod y Cyngor yn awdurdodi'r Swyddog Monitro i weithredu'r newid drwy ychwanegu paragraff newydd i'r Cynllun Dirprwyo yn unol ag Atodiad 1, ac wedi hynny i weithredu unrhyw benderfyniadau perthnasol gan y Prif Weithredwr.

**Materion**

3. O dan eiriad presennol y Cyfansoddiad, yn Erthygl 15.2.1, rhaid i **unrhyw** newidiadau i'r Cyfansoddiad gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn yn dilyn eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

4. Mae'r broses hon yn un araf a biwrocrataidd, ac felly argymhellir y dylid cael hyblygrwydd trwy ganiatáu i'r Prif Weithredwr wneud rhai newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion heb orfod mynd ag adroddiad llawn i'r Pwyllgor Gwaith ac i'r Cyngor a thrwy hynny awdurdodi'r Prif Weithredwr i newid y Cynllun Dirprwyo yn Rhan 3.5 a Rhan 7.

5. Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth eisoes awdurdod i ailstrwythuro eu gwasanaethau eu hunain, cyn belled ag y bo'r ailstrwythuro yn parhau i fod o fewn y gyllideb ac yn cydymffurfio â pholisïau AD ac anghenion cyfreithiol.

6. Byddai'r newid arfaethedig hwn yn rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr ailstrwythuro swyddi'r Penaethiaid Gwasanaeth, Penaethiaid Swyddogaeth, Cyfarwyddwyr a'r Dirprwy Brif

| |
|---|
| Weithredwr heb fynd i'r Cyngor llawn - byddai newidiadau o'r fath yn golygu trosglwyddo rolau a chyfrifoldebau o un parti i un arall, newidiadau mewn cyfrifoldebau a newidiadau i deitlau swydd.  Ni fyddai'n cynnwys penderfyniadau y tu allan i gyllideb a byddai'n ddarostyngedig i gydymffurfiaeth â Pholisïau AD ac anghenion cyfreithiol.<br><br>7. Wrth ymarfer y pŵer hwn byddai'r Prif Weithredwr yn ymgynghori â'r partïon perthnasol a fyddai'n cael eu heffeithio, yn dilyn ymgynghori'n gyntaf gyda'r Pennaeth Proffesiwn (AD) a'r Deilydd(ion) Portffolio perthnasol. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Cadw'r status quo.  Mae'r rhesymau dros beidio â gwneud hyn wedi'u disgrifio yn Adran A yr Adroddiad hwn. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Bydd gweithredu'r Argymhellion yn golygu newidiadau Cyfansoddiadol na ellir eu cymeradwyo ond gan y Cyngor llawn yn dilyn eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cychwynnwyd gan y Dirprwy Brif Weithredwr a'i gytuno gan y Prif Weithredwr. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Rhaid i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad ynghylch unrhyw addasiadau sy'n newid y drefn ddirprwyo i'r Swyddog A151 ac mae angen gwneud hynny'n gliriach. Mae'r Swyddog A151 wedi cadarnhau bod y newidiadau arfaethedig a nodir yn Atodiad 1 yn rhoi sylw i'w bryderon. |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cyd awdur yr Adroddiad felly mae’r sylwadau wedi’u cynnwys yma. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Angen ymgynghori a rhaid glynu wrth brosesau AD eraill mewn perthynas ag unrhyw ailstrwythuro arfaethedig. |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Wedi’i gymeradwyo mewn egwyddor gan yr Arweinyddion Grwpiau am benderfyniad gan y Cyngor. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Newidiadau a awgrymir i’r Cynllun Dirprwyo. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

3.5.2.11 Bydd gan y Prif Weithredwr awdurdod i ddiwygio teitlau swyddi, a meysydd cyfrifoldeb yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Swyddogaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth fel y bydd ef / hi yn ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn darparu swyddogaethau'r Cyngor, blaenoriaethau gweledigaeth ac o ganlyniad i ad-drefnu staff, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro, Pennaeth Proffesiwn / AD a'r Deilydd(ion) Portffolio perthnasol. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath o fewn cyllideb ac yn cydymffurfio â pholisïau a phrosesau AD y Cyngor. I osgoi amheuaeth, rhaid cyfeirio unrhyw newidiadau arfaethedig all gael effaith andwyol ar allu'r Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro i wneud eu rolau statudol yn effeithiol i'r Cyngor llawn ar gyfer eu cymeradwyo lle bo'r Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro yn gofyn am hynny.

3.5.2.11 The Chief Executive shall have authority to amend the job titles, and areas of responsibility of the Senior Leadership Team, the Heads of Function and the Heads of Service as he/she considers necessary to deliver the Council's functions, vision, priorities and as a consequence of staff reorganisation, in consultation with the s.151 Officer, Monitoring Officer, Head of Profession (HR) and the relevant Portfolio Holder(s). Any such changes will be within budget and compliant with the Council's HR policies and processes. For the avoidance of doubt, any proposed changes that may have an adverse impact on the S.151 Officer's or the Monitoring Officer's ability to carry out their statutory roles effectively must be referred to full council for approval where the S151 Officer or Monitoring Officer so requests.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **27 EBRILL 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2014/15** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Y CYN REOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **NODI'R CYNNWYS** |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Yn yr adroddiad canlynol, ceir crynodeb o waith yr Adain Archwilio Mewnol am 2014/2015. Mae'r Rheolwr Archwilio yn cyflwyno adroddiadau cynnydd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio sy'n fodd o werthuso'n barhaus y fframwaith cyffredinol ar gyfer rheolaeth fewnol fel y caiff ei adlewyrchu yn y gwaith Archwilio.

**1.2** Daeth cyfres gyffredin o Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn weithredol o 01 Ebrill 2013. Mae'r PSIAS yn berthnasol i bawb sy'n darparu gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus ac fe'u mabwysiadwyd gan y Cyngor Sir o'r dyddiad hwnnw.

**1.3** Mae'r Prif Archwiliwr yn cadarnhau fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, hyd y gŵyr ef, wedi cydymffurfio gyda'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ac eithrio'r ffaith na chafwyd unrhyw raglen ffurfiol fewnol nac allanol ar gyfer sicrhau ansawdd yn ystod 2014-15. (PSIAS 1310)

## 2. ALLBYNNAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

**2.1** Yn y tabl isod, ceir cymhariaeth o'r nifer o archwiliadau a gynlluniwyd a nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd mewn gwirionedd fel ag yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2015. Yr un modd ag unrhyw flwyddyn, bu'n rhaid diwygio'r cynllun archwilio yn 2014/15 er mwyn cymryd i ystyriaeth amryfal ffactorau a gododd yn ystod y flwyddyn. Eleni, roedd y ffactorau hynny'n ymwneud yn bennaf â'r gwaith ychwanegol y bu'n rhaid ei wneud er mwyn rhoi sylw i risgiau a chyfeiriadau a oedd yn esblygu. Yn arbennig eleni, bu'n rhaid gwneud gwaith ychwanegol mewn perthynas â Rheoli Gwybodaeth a Dulliau Rheoli Mynediad Rhesymegol ynghyd â gwaith a oedd yn gysylltiedig â gweinyddu Cynlluniau Trydydd Sector.

**2.2** Cyhoeddwyd 46 o adroddiadau (Terfynol a Drafft) yn codi o adolygiadau ffurfiol yn ystod 2014/2015, o gymharu â'r 50 a oedd yn y Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol gwreiddiol ar gyfer 2014-15.

**2.3** Mewn achosion lle nad oedd adolygiadau wedi cael eu cynnal yn 2014/15 ond bod lefel o risg y mae angen ei hadolygu'n parhau i fodoli, mae'r adolygiadau hynny wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredol Mewnol ar gyfer 2015/16.

**2.4** Cafodd y cyfan o'r adolygiadau ariannol allweddol yn y cynllun eu cwblhau ar ffurf derfynol neu ddrafft erbyn diwedd y cyfnod ym mis Mawrth 2015.

**2.5** Yn ychwanegol at y gwaith ar Gynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2014/15, treuliwyd y chwarter cyntaf o 2014/15 yn cwblhau gwaith o Gynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2013/14 a chyhoeddwyd saith o adroddiadau terfynol yn ystod y cyfnod hwnnw.

## 3. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

**3.1** Bob blwyddyn, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn cymryd rhan mewn ymarfer Cymru gyfan ar gyfer meincnodi yn erbyn dangosyddion o ran cost ac allbynnau. Gwneir y gwaith meincnodi hwn ym mis Mai / Mehefin bob blwyddyn ac o'r herwydd, nid oedd canlyniadau 2014/15 ar gael mewn pryd i gael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn.

**3.2** Pan fydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi, byddant yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad cynnydd nesaf ar Archwilio Mewnol.

**3.3** Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn monitro dangosyddion perfformiad allweddol megis y ganran o'r Cynllun Gweithredol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod; boddhad y cwsmeriaid yn gyffredinol (holiaduron); a'r ganran o argymhellion Archwilio Mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd.

**3.4** **% o'r Cynllun Gweithredol a Gwblhawyd:** Fel sy'n digwydd bob blwyddyn, mae nifer o adolygiadau a oedd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer Archwilio Mewnol naill ai wedi cael eu gohirio i'r flwyddyn nesaf neu wedi cael eu tynnu o'r Cynllun wrth i amgylchiadau newid ac wrth i systemau newydd gael eu cyflwyno. Ar y llaw arall, mae nifer o adolygiadau'n cael eu hychwanegu at y Cynllun yn y flwyddyn wrth i risgiau neu newidiadau i ymarferion cyfredol ddod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. Felly, mae'r ganran o'r Cynllun Gweithredol a gwblhawyd yn cael ei gweithio allan ar sail nifer yr adolygiadau a gwblhawyd fel adroddiadau Drafft yn hytrach na nifer gwirioneddol yr adroddiadau Drafft a gyhoeddwyd sy'n ymwneud â'r meysydd hynny a gawsant eu cynnwys yn benodol yn y Cynllun Gweithredol a gymeradwywyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Roedd 50 o adolygiadau a oedd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredol gwreiddiol ar gyfer 2014-15 a gafodd ei gymeradwyo yn Ebrill 2014. Cwblhawyd 46 o adolygiadau Drafft ac / neu Derfynol yn ystod y flwyddyn. Felly, cwblhawyd 92% o'r Cynllun Gweithredol.

**3.5** **% o Argymhellion Archwilio Mewnol Uchel a Chanolig a Weithredwyd:** Ar 31 Mawrth 2015, roedd 49% o'r argymhellion Uchel a Chanolig wedi cael eu gweithredu'n gyffredinol a 71% heb gynnwys argymhellion a oedd yn ymwneud ag ysgolion ac a fu, unwaith eto eleni, yn anodd i'w monitro. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Addysg i fynd i'r afael â'r broblem hon yn 2015/16.

Yn ystod 2014/15, cafodd ffurf yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ei ddiwygio fel bod manylion yr argymhellion categori Uchel sy'n parhau i fod angen sylw yn cael eu hamlygu er gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio. Caiff adroddiadau cynnydd Archwilio Mewnol eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth er eu gwybodaeth a'u cefnogaeth er mwyn sicrhau fod risgiau lefel Uchel yn cael sylw'n brydlon.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn gweithio gyda'r Pwyllgor Archwilio i wella cyfraddau gweithredu ar argymhellion Uchel a Chanolig a gwneud Penaethiaid Gwasanaeth sy'n methu gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt o fewn y cyfnod amser penodedig yn fwy atebol. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ceisio ychwanegu at y wybodaeth a roddir i Benaethiaid Gwasanaeth ynghylch statws argymhellion yn eu gwasanaethau er mwyn eu cynorthwyo gyda'r dasg hon.

**3.6** Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o'r argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw yn Ebrill 2015 ac unwaith eto, bydd yn gweithio gyda Gwasanaethau yn 2015/16 i ddiweddaru'r system 4Action gyda'r data gweithredu diweddaraf a fydd, gyda gobaith, o gymorth i wella'r sefyllfa yn erbyn y targedau.


## 4. CASGLIAD CYFFREDINOL AR Y MEYSYDD A ARCHWILIWYD

**4.1** Yn Nhabl 1, gwelir nifer yr adolygiadau yr ymgymerwyd â nhw yn 2014/15 ac y cafwyd barn Gwyrdd; Gwyrdd/Ambr; Coch/Ambr neu Goch yn eu cylch ac mae'n cynnwys diffiniad ar gyfer pob lefel sicrwydd.

**Tabl 1**

| Graddfa | Beth yw ystyr y Barn Graddfa CAG | System/Risg 2014/5 |
|---|---|---|
| **Gwyrdd** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. | 15 |
| **Gwyrdd Ambr** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. | 14 |
| **Coch Ambr** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg. | 4 |
| **Coch** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Rhaid cymryd camau i reoli'r risg. | 4 |
| **YMGYNGHOROL** | Adolygiad ymgynghorol wedi cael ei ddylunio i ddarparu cyngor arfer orau - dim barn ffurfiol | 9 |
| | CYFANSWM | 46 |

**Tabl 2 – Siart Gylch o'r Farn CAG**



**4.2** Roedd canlyniadau cyffredinol ein gwaith Archwilio Mewnol a arweiniodd at farn sicrwydd CAG yn dangos fod 78% o adolygiadau o'r fath yn rhai cadarnhaol (Gwyrdd neu Gwyrdd/Ambr) a 22% yn rhai negyddol (Coch a Coch/ambr). Mae'r 22% o adroddiadau a arweiniodd at farn sicrwydd negyddol yn cynnwys wyth o adroddiadau (pedwar Coch a Coch/Ambr).

Mae'r farn gyffredinol ar gyfer y systemau a adolygwyd yn un cadarnhaol Gwyrdd/Ambr sy'n cyd-fynd â'r blynyddoedd blaenorol.

**4.3** Mae'r farn CAG gyffredinol hon yn adlewyrchu ychydig iawn o risg/risg isel i'r Awdurdod a hynny'n seiliedig ar sgôp y gwaith sy'n cael ei wneud, y camau gweithredu a argymhellwyd i reolwyr a'r systemau hynny'n parhau i weithredu'n unol â'r bwriad.

**4.4** Mae'r Rheolwr Archwilio, fodd bynnag yn ymwybodol o feysydd lle y byddai gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag gallu dibynnu'n rhesymol ar y systemau rheoli mewnol yng nghyswllt y systemau a adolygwyd yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â meysydd a oedd eisoes yn peri pryder i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r cyfarfod ym mis Medi 2014. Bydd y meysydd hyn yn parhau i beri pryder i Archwilio Mewnol hyd oni fydd yr holl argymhellion o bwys wedi cael eu gweithredu a hyd oni fedrir rhoddi sicrwydd fod yr holl fframweithiau a systemau yn eu lle; wedi cael eu sefydlu'n gadarn; a'u bod yn wydn ac yn effeithiol. Dyma'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r meysydd hyn.

**Parhad Busnes** – Camau gweithredu a argymhellir i gryfhau rheolaeth yn y maes hwn wedi cael eu casglu o nifer o adroddiadau gan ddarparwyr sicrwydd gan gynnwys Archwilio Mewnol. Mae cynnydd o ran trefniadau bellach yn cael ei fesur ar sail Gogledd Cymru.

**Rheoli Risg** – Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei Fframwaith Rheoli Risg ei hun a sefydlu rheoli risg yn gadarn yn y sefydliad. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn parhau i gael ei datblygu ac rydym eto i weithredu ar drefniadau adrodd rheolaidd.

**Rheoli Gwybodaeth** – Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cynnal adolygiad o'r maes hwn ac wedi nodi problemau a gwendidau rheoli tebyg i'r rheiny a nodwyd gan SAC, PWC ac Archwilio Mewnol mewn adroddiadau blaenorol. Mae adroddiad dilyn i fyny drafft gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrthi'n cael ei ystyried.

**Llywodraethiant** – Mae materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol allweddol wedi cael eu nodi eto yn 2014-15, er enghraifft, caffael corfforaethol; Diogelwch TGCh, Cynllun Trydydd Sector ac ati. Mae'r Cyngor wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio ei system electronig ar gyfer cydymffurfio gyda pholisïau a'u derbyn a oedd yn fodd o gofnodi fod defnyddwyr wedi darllen a deall y polisïau a'u bod yn cytuno i lynu wrthynt. Heb gofnod o'r fath, mae'r anos dangos fod y polisïau wedi cael eu cylchredeg yn ddigonol i'r staff perthnasol. Cyhoeddwyd adroddiad ar y materion hyn yn 2011-12, ac eto yn yr adroddiad ar Fynediad Rhesymegol yn Hydref 2014; fodd bynnag, mae nifer o'r argymhellion allweddol yn parhau i fod heb eu gweithredu.

**Fframwaith Caffael Corfforaethol** – Mae rheolwyr wedi ailstrwythuro a chryfhau'r Tîm Caffael. Bydd Rheolau Gweithdrefn Contractau newydd yn cael eu cyflwyno a'u gweithredu. Mae adolygiad o'r trefniadau Caffael wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer 2015/16 er mwyn rhoi sicrwydd fod y newidiadau wedi arwain at well cydymffurfiaeth gyda rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau.

**Fframwaith Partneriaethau** - Nid oes gan y Cyngor Fframwaith Partneriaethau ffurfiol i roi sicrwydd fod yr holl bartneriaethau â threfniadau digonol o ran llywodraethiant, rheoli a pherfformiad i gwrdd â'u hamcanion datganedig a'u bod

yn darparu gwerth am arian o ran yr adnoddau ariannol a'r adnoddau eraill y mae'r Cyngor wedi eu buddsoddi ynddynt.

Derbyniodd adolygiad o gydymffurfiaeth gorfforaethol gyda chanllawiau a gyhoeddwyd o ran gweinyddu Cynlluniau Trydydd Sector hefyd farn sicrwydd Coch yn 2014/15.

Bydd adolygiad dilyn i fyny o adolygiad Archwilio Mewnol o Drefniadau Partneriaeth a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013 yn cael ei gynnal yn ystod chwarter cyntaf 2015/16.

**Gweithredu Argymhellion mewn Ysgolion** – Mae problem yn parhau o ran y modd y mae ysgolion yn gweithredu ar argymhellion archwilio mewnol. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â materion ariannol a llywodraethiant yn yr ysgolion a dylent fod o bryder i Brifathrawon a'r Adran Addysg.

Ystyrir bod y rhain yn faterion pwysig i'r Cyngor y mae angen parhau i weithio arnynt yn ystod 2015/16.

**4.5** Dylid nodi na all unrhyw system o reolaeth fewnol ond darparu sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt yn erbyn camddatganiadau o bwys neu golled.

Ni wnaeth y gwaith archwilio a wnaed ac a gwblhawyd nodi unrhyw feysydd o bryder sy'n cael eu hystyried yn rhai arwyddocaol neu yn gritigol o safbwynt busnes y Cyngor yn gyffredinol y tu draw i'r rhai a nodwyd yn 4.4. uchod.

**TREFNIADAU ATAL TWYLL**

**5.1** Ar 1 Tachwedd 2014, cymerodd Gwasanaeth Sengl Ymchwilio i Dwyll (SFIS) yr Adran Gwaith a Phensiynau y cyfrifoldeb am yr holl ymchwiliadau i dwyll "budd-dal" a oedd yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn. Arweiniodd hynny at drosglwyddo un o ymchwilwyr yr awdurdod i'r tîm SFIS a phenodwyd yr ymchwilydd arall i swydd newydd sef Swyddog Atal Twyll Corfforaethol yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

**5.2** I bob pwrpas, mae hyn yn golygu na fydd yr Awdurdod mwyach yn ymchwilio i achosion o dwyll Budd-dal Tai oherwydd bydd hyn yn cael ei wneud yn awr gan yr SFIS. Fodd bynnag, ni fydd SFIS yn ymchwilio i achosion o dwyll mewn perthynas â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) oherwydd nid yw'n cael ei gategoreiddio fel "budd-dal", ac o'r herwydd, rhagwelir y bydd y Swyddog Atal Twyll yn ymchwilio i droseddau CTRS. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd SFIS yn cymryd rhan mewn ymchwiliadau Budd-dal Tai a CTRS ar y cyd yn y dyfodol.

**5.3** Gyda chreu swydd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol, rhagwelir y bydd y swyddog yn ymchwilio i droseddau CTRS a throseddau eraill yn ymwneud â'r Dreth Cyngor. Rhagwelir y bydd y swyddog hwn, mewn ymgynghoriad gyda'r Gwasanaeth Tai, yn ymchwilio i achosion o dwyll tenantiaeth y bydd y Gwasanaeth Tai yn eu canfod. Bydd y CCFO hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw droseddau twyll posibl a fydd yn cael eu cyfeirio i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol neu eu canfod ganddynt yn ystod eu gorchwylion archwilio arferol.

**5.4** Yn ychwanegol at y mesurau ymatebol traddodiadol y cyfeirir atynt uchod, bwriedir i'r CCFO fod â rôl fwy rhagweithiol o ran atal Twyll Corfforaethol a sefydlu fframwaith corfforaethol a fydd yn anelu at greu diwylliant o ymwybyddiaeth o dwyll a'i atal yn yr Awdurdod.

**5.5** Bwriedir mai un o brif flaenoriaethau'r CCFO ar y cychwyn fydd ymgynghori gyda'r holl Wasanaethau yn yr awdurdod er mwyn creu asesiad risg o ran twyll corfforaethol. Bydd yr asesiad risg hwn yn cael ei ddefnyddio i lunio polisïau a fydd yn gostwng colledion i'r Cyngor ac, yn y pen draw, i'r pwrs cyhoeddus. Yn ychwanegol at hyn, bydd y CCFO yn hwyluso hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o dwyll o ran dogfennau ffug a all gael eu cynhyrchu i bwrpas sefydlu hunaniaeth (ID).

**6. DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL**

**6.1** Yn ôl PSIAS 2450, rhaid i'r Prif Archwiliwr ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gellir eu defnyddio gan y sefydliad fel sylfaen ar gyfer ei ddatganiad llywodraethu. Yn ôl y safon, rhaid i'r farn archwilio ddod i gasgliad ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad.

**6.2** Caiff crynodebau o'r holl adroddiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd ynghyd â'r canlyniadau eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio drwy adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol y Rheolwr Archwilio. Cyflwynir adroddiad manwl i'r Pwyllgor Archwilio ar unrhyw adolygiad a oedd yn seiliedig ar systemau ac sydd wedi derbyn barn sicrwydd coch ac adroddir yn ôl ar ymateb y rheolwyr i'r adroddiad yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio.

**6.3** Cyhoeddwyd cyfanswm o bedwar adroddiad 'Sicrwydd Coch' yn 2014-15. Roedd y rhain yn ymwneud ag adolygiadau o Drefniadau Staff Asiantaeth; Rheoliadau Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau a Chynlluniau Trydydd Sector. Cafwyd barn Sicrwydd Coch hefyd ar weithredu ar argymhellion mewn perthynas â'r adolygiad dilyn i fyny o Fynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau.

**6.4** Arweiniodd pedwar o'r adolygiadau yr ymgymerwyd â nhw yn ystod 2014-15 at farn sicrwydd 'Coch Ambr' gyda'r rhain yn ymwneud ag adolygiadau dilyn i fyny ar weithredu ar argymhellion a wnaed yn adroddiad Credydwyr 2013/14; Trefniadau Digartrefedd; Cyflogres Athrawon ac adolygiad o Ddyledwyr Amrywiol 2014/15.

**6.5** Ar sail y gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2014/15, a chan gymryd i ystyriaeth y meysydd sy'n parhau i beri pryder fel y manylir arnynt yn adran 4.4 yr adroddiad hwn a nifer yr adroddiadau 'Coch' a 'Coch Ambr' a gyhoeddwyd fel y manylir arnynt yn adrannau 6.3 a 6.4 yr adroddiad hwn, mae gan y Cyngor drefniadau digonol ar gyfer rheoli risgiau. Fodd bynnag, mae angen cymryd camau i fynd i'r adael â'r meysydd hynny sy'n parhau i beri pryder, yn arbennig felly o safbwynt rheoli risg a llywodraethiant a chryfhau'r trefniadau rheoli mewn perthynas â'r meysydd eraill o'r adolygiad lle canfuwyd gwendidau yn 2014/15 a'r blynyddoedd cyn hynny.

**RHEOLWR ARCHWILIO** **27 Ebrill 2015**

## Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y Cyfnod gyda Barn CAG

**Atodiad A**

| | |
|---|---|
| Dilyn i fyny Credydwyr | COCH Ambr |
| Effeithlonrwydd | YMGYNGHOROL |
| Budd-daliadau | GWYRDD Ambr |
| Cyflogres | GWYRDD Ambr |
| Rheoli Trysorlys | GWYRDD |
| TAW | YMGYNGHOROL |
| Cwynion | GWYRDD |
| Asiantaeth | COCH |
| Oriau Gofalwyr Cartref | GWYRDD Ambr |
| Ymddiriedolaeth Elusennol | YMGYNGHOROL |
| Rhybuddion Dirwy | GWYRDD |
| Porth Amlwch | YMGYNGHOROL |
| Rhenti Tai | GWYRDD Ambr |
| Rheoliadau Mynediad Rhesymegol | COCH |
| Llywodraethu Gwybodaeth – Dilyn i Fyny | GWYRDD |
| Ysgol Henblas | GWYRDD |
| Ysgol Cylch y Garn | GWYRDD |
| Rheoli Cyllid Ysgolion - Cyllidebau | YMGYNGHOROL |
| Cynlluniau Trydydd Sector | COCH |
| Grantiau Gwisg Ysgol | GWYRDD |
| Dilyn i fyny - Ysgolion | GWYRDD Ambr |
| Plas Arthur – Canolfan Hamdden | GWYRDD |
| NFI 2014 | YMGYNGHOROL |
| Depo Gaerwen Depot - Diesel | YMGYNGHOROL |
| Cau Cyfrifon | GWYRDD |
| Canolfan Hamdden Amlwch | GWYRDD |
| Rheoliadau Mynediad Rhesymegol – Dilyn i fyny | COCH |
| Cynllun Trydydd Sector – Dilyn i fyny | GWYRDD Ambr |
| TalNet | GWYRDD Ambr |
| Tanwydd Arforol | YMGYNGHOROL |
| Digartrefedd | COCH Ambr |
| Datblygu Chwaraeon | GWYRDD |
| Cyflogres Athrawon | COCH Ambr |
| Ysgol Pentraeth | GWYRDD Ambr |
| Ysgol Llangoed | GWYRDD |
| Y Dreth Gyngor | GWYRDD Ambr |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | GWYRDD Ambr |
| Arianwyr | GWYRDD |
| Dyledwyr Amrywiol | COCH Ambr |

| | |
|---|---|
| Credydwyr | GWYRDD Ambr |
| Prif System Gyfrifon | GWYRDD Ambr |
| Cyflogres | GWYRDD Ambr |
| Rheoli Trysorlys | GWYRDD |
| Budd-daliadau Tai | GWYRDD Ambr |
| Rhenti Tai | GWYRDD |
| Bryn Trewan | YMGYNGHORO L |

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 14 Mai 2015 |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2014-15 a gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor ar gyfer 2014-15 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (est 2568) |

Rhagarweiniad

1. Mae'r Pwyllgor Safonau'n bwyllgor statudol ac arno 9 aelod (2 Gynghorydd Sir, 5 Aelod Annibynnol a 2 Aelod o Gynghorau Cymuned).

2. Penodwyd y Pwyllgor cyfredol am gyfnod o 4 blynedd hyd at 17 Rhagfyr 2015. Mae'r Swyddog Monitro wedi cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn gofyn am y cyfle i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wasanaethu am dymor arall. Gwnaed penderfyniad gan y Cyngor llawn ar 26 Chwefror 2015 i ymestyn yn awtomatig yr holl apwyntiadau yn y dyfodol an ddau dymor yn achos holl aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau. O'r herwydd, mae tymor yr aelodau annibynnol cyfredol wedi cael ei ymestyn i 17 Rhagfyr 2019.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r rôl a'r swyddogaethau isod (ymysg pethau eraill):-

   (a) hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr;
   (b) cynorthwyo cynghorwyr i lynu wrth y Côd Ymddygiad i Aelodau;
   (c) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr;
   (d) rhoi caniatadau arbennig;
   (e) delio gydag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro neu adroddiad a gyfeiriwyd ati gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2014, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2014/15. Yn y Rhaglen wreiddiol, nodwyd meysydd gwaith

arfaethedig, amserlen ac adnoddau. Gweler y ddogfen hon yn **ATODIAD A** yr Adroddiad hwn ac mae wedi cael ei diweddaru i gynnwys y gwaith sydd eisoes wedi cael ei gyflawni yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt.

Sylwadau'r Cadeirydd

Hoffai'r Cadeirydd ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn ystod y flwyddyn.

Y llynedd, roedd y Pwyllgor yn falch o nodi ei fod wedi treulio llai o'i amser yn cynnal gwrandawiadau neu'n mynychu cyfarfodydd/cyfryngu sy'n codi oherwydd achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad. Mae'r datblygiad cadarnhaol hwn wedi parhau ac yn y tair blynedd a hanner yr ydym wedi bod yn gweithio fel Pwyllgor Safonau, rydym wedi gweld gwelliant sylweddol mewn safonau yn y Cyngor ac mae wedi arwain at ostyngiad yn nifer y materion yn ymwneud ag ymddygiad a'r cwynion sy'n cael eu cyflwyno. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn benodol i aelodau a swyddogion am eu hymrwymiad a'u hymroddiad o ran cynnal safonau uchel ac, ar ôl rhagor na dwy flynedd o dymor y Cyngor cyfredol, gobeithir fod newid diwylliannol wedi ei sefydlu'n gadarn a bod perthnasau gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol bellach yn rhywbeth cyffredin.

O ganlyniad, mae'r Pwyllgor Safonau wedi gallu cymryd arno swyddogaeth fwy ragweithiol, yn enwedig o ran trefnu digwyddiadau rhanbarthol ar gyfer Pwyllgorau Safonau yng Ngogledd Cymru er mwyn hyrwyddo arferion da a meithrin perthynas dda ymysg Pwyllgorau Safonau'r rhanbarth. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys:-

(i) Cynnal hyfforddiant i Bwyllgorau Safonau yma ar gyfer y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru

(ii) Cynnal y cyfarfod o'r Fforwm Pwyllgor Safonau

(iii) Gwahodd yr Ombwdsmon i annerch yr holl Bwyllgorau Safonau yng Ngogledd Cymru ac ateb cwestiynau ar fwriadau a datblygiadau yn y dyfodol ac, yn arbennig, i geisio dylanwadu ar drefniadau'r dyfodol.

Unwaith eto, adolygodd y Pwyllgor y tair Cofrestr o Ddiddordebau a rhoddwyd cyngor i'r holl Aelodau.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i geisio meddwl yn arloesol a gwella ei gyfraniad bob blwyddyn ac er bod cydweithio rhanbarthol wedi bod yn bwysig, yn enwedig yn sgil cyflwyno darpariaethau a fydd yn galluogi sefydlu Pwyllgorau Safonau ar y cyd yn 2015, rydym wedi ymestyn ein hadolygiad o'r cofrestrau i gynnwys trosolwg o hyfforddiant ac mae aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi cysylltu gydag aelodau'n uniongyrchol i drafod unrhyw faterion neu bryderon yn codi o'r adolygiad o'r Cofrestrau.

Rydym hefyd wedi gwella ein trefniadau ein hunain ar gyfer adolygiadau datblygiad personol ac wedi dyfeisio rhaglen hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Rydym hefyd wedi bod yn ceisio canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant moesegol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Nid yw'r capasiti hwn ond wedi wedi bod ar gael yn sgil y gostyngiad yn y materion sy'n gysylltiedig â'r Cyngor hwn.

Gyda'r pwyslais cynyddol ar dryloywder o ran rôl Cynghorau Cymuned (Canllawiau a gyhoeddwyd ar 7 Mai 2015 dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013) a mwy efallai i ddod ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol: Grym i'r Bobl, ynghyd â throsglwyddo mwy o gyfrifoldebau i'r Cynghorau Cymuned (e.e. Camerâu Goruchwylio i Gynghorau Tref), ystyriwyd ei bod yn bwysig cefnogi'r Cynghorau hyn gyda'r agweddau hynny o'u gwaith sy'n rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau.

I'r perwyl hwn, cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr cymuned yn 2013/14 ond yn 2014/15, penderfynwyd canolbwyntio ar Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd lefelau presenoldeb yn dda a chafodd dderbyniad da ac yn 2015/16, rydym yn bwriadu mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg a chanolbwyntio ein hyfforddiant ar gynghorwyr tref.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor, rwyf wedi adrodd ar ein gweithgareddau i Arweinyddion y Grwpiau ac o bryd i'w gilydd, rwyf wedi mynychu cyfarfodydd yr Arweinyddion Grwpiau i drafod materion penodol.

Ar adegau, ymgynghorwyd hefyd gyda'r Pwyllgor Safonau, er enghraifft, ar nodiadau briffio i aelodau etholedig i ategu hyfforddiant ffurfiol http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/trefn-lywodraethol-corfforaethol/nodiadau-briffio-i-aelodau?redirect=false. Rydym hefyd wedi ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid Llywodraeth Cymru ar bwerau'r Ombwdsmon (ar 20 Mawrth 2015) a'r darpariaethau sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor Safonau yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol, paragraffau 3.31, 3.32, 3.33, 3.34, 3.35, 3.36 a 3.42 (ar 24 Ebrill 2015).

Ceir mwy o fanylion am weithgareddau'r Pwyllgor a chynlluniau'r Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn yr atodiadau sydd wedi eu hamgáu gyda'r Adroddiad hwn. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at barhau gyda'n gwaith ac yn ddiolchgar am y gefnogaeth yr ydym yn ei chael gan gynghorwyr a swyddogion.

**ARGYMHELLIAD:-**

1. Nodi'r Rhaglen a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau rhwng Ebrill 2014 a Mai 2015 - **ATODIAD A.**

2. Cymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2014/15 fel yr amlinellir yn **ATODIAD B.**

**ATODIAD A**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2014 I EBRILL 2015

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Ar **11/09/2014** cynhaliodd y Pwyllgor Safonau wrandawiad interim yn dilyn cyfeiriad gan OGCC.<br>• Ar **19/12/2014** cynhaliodd y Pwyllgor Safonau wrandawiad llawn yn dilyn cyfeiriad gan OGCC. |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Dim angen cymryd camau<br>• Gwnaed ceisiadau generig ar **1/4/2015** gan y Swyddog Monitro ar gais Arweinyddion Grwpiau ynghylch y strwythur tâl a thelerau ac amodau. |
| 3. | Cyflawni swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor neu unrhyw gynllun olynol os bydd model cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Ni dderbyniwyd unrhyw gyfeiriad |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.4(e) y Côd; gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. | | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Ar **30/10/2014** rhoddwyd hyfforddiant i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned gan y Swyddog Monitro<br>• Ar **11/3/2015** cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar y lefelau mynychu a'r atborth da mewn perthynas â'r digwyddiad hyfforddi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • Mae'r Pwyllgor Safonau yn cymeradwyo nodiadau briffio ar gyfer aelodau sy'n ychwanegu at hyfforddiant ffurfiol. Cyhoeddwyd pump o nodiadau briffio ar y pynciau a ganlyn:-<br>1. Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011;<br>2. Caffael Cyhoeddus;<br>3. Gweithdrefnau Gosod Tai y Cyngor;<br>4. Rhyddid Mynegiant Gwleidyddol v Côd Ymddygiad;<br>5. Cwestiynau Cyffredin ynghylch Rhoddion a Lletygarwch;<br>6. Caniatadau Arbennig.<br><br>Mae'r holl nodiadau Briffio ar gael ar fewnrwyd y Cyngor yn http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/trefn-lywodraethol-corfforaethol/nodiadau-briffio-i-aelodau?redirect=false<br><br>• Adolygodd y Pwyllgor Safonau gofnodion hyfforddiant yr Aelodau fel rhan o 5 a 6 isod. |
| 5. | Goruchwylio'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | • Erbyn diwedd Ebrill 2015 | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Ym mis **Chwefror 2015** cynhaliodd y Pwyllgor Safonau adolygiad blynyddol o'r cofrestrau.<br>• Ar **11/03/2015** trafodwyd y casgliadau mewn cyfarfod.<br>• Ar **24/3/2015** cylchredwyd canlyniadau cyffredinol yr adolygiadau i bob aelod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6. | Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | • Erbyn diwedd Ebrill 2015 | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Ym mis **Chwefror 2015** cynhaliodd y Pwyllgor Safonau adolygiad blynyddol o'r cofrestrau.<br>• Ar **11/03/2015** trafodwyd y casgliadau mewn cyfarfod.<br>• Ar **24/3/2015** cylchredwyd canlyniadau cyffredinol yr adolygiadau i bob aelod. |
| 7. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Dim angen cymryd camau |
| 8. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Ar **11 Mawrth 2015** cyflwynwyd papurau Ymgynghori i'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â phwerau'r OGCC (Pwyllgor Cyllid LlC), ac ar Ddiwygio Llywodraeth Leol; Grym i Bobl Leol.  Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno ymateb ar y cyd i rannau perthnasol yr ymgynghoriadau ar **20/3/2015** a **24/4/2015**. |
| 9. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Ddim yn berthnasol | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy r Swyddog | • Argymhelliad bod aelodau annibynnol y Pwyllgor yn gwasanaethu am ddau dymor.<br>• Cymeradwywyd gan y Cyngor ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Monitro | **26/5/2015** |
| 10. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Cyfarfod Blynyddol | • Cadeirydd | • 14 Mai 2015 |
| 11. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy:<br><br>- adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan<br>○ awdurdodau perthnasol eraill<br>○ Panel Dyfarnu Cymru<br><br>- cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru | | • Swyddog Monitro | • Adolygu'r penderfyniadau a gyhoeddwyd:<br><br>11/06/2014<br>11/09/2014<br>11/03/2015<br><br>• **1/7/2014** Pwyllgor Safonau CSYM yn trefnu hyfforddiant i bob aelod o Bwyllgor Safonau Gogledd Cymru. Ystyriwyd bod y digwyddiad yn llwyddiant ac o fudd.<br>• Ar **26/11/2014** cynhaliodd Pwyllgor Safonau CSYM Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru ac estynnodd wahoddiad i Ombwdsmon newydd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod yn bresennol. Cyflwynodd y Fforwm gwestiynau i'r Ombwdsmon. Cyflwynwyd adroddiad gyda'r cwestiynau hynny a'r ymatebion iddynt i'r Pwyllgor Safonau ar **11 Mawrth 2015**. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu cyflwyno i OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | • Yn parhau | • Swyddog Monitro<br>• Swyddog Cwynion Cwsmeriaid | • Adolygwyd ar:-<br><br>11/06/2014<br>11/09/2014<br>23/09/2014<br>11/03/2015 |
| 13. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | • Trwy'r flwyddyn | | • **31 Gorffennaf 2014** – penderfyniad ar argymhellion y Pwyllgor Safonau o'r adolygiad o'r cofrestrau.<br>• **5 Chwefror 2015** – trafod casgliadau'r gwrandawiad a gynhaliwyd ar 19/12/2014. |
| 14. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br><br>1. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>2. Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>3. Safonau ymddygiad Aelodau | • Trwy'r flwyddyn | • Swyddog Monitro | • Adolygwyr ar:-<br><br>11/06/2014<br>11/09/2014<br>11/03/2015 |
| 15. | Hyfforddi a Datblygu'r Pwyllgor Safonau. | • Yn parhau | • Y Cadeirydd<br>• Rheolydd Hyfforddiant AD<br>• Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog | • Ar **11 Mehefin 2014** cymeradwyodd y Pwyllgor Safonau eu disgrifiadau swydd newydd a'u harwyddo.<br>• Ym mis **Medi 2014** lluniwyd ffurflenni Adolygiad Datblygiad Personol ar gyfer y Pwyllgor gan yr Adeiniau Cyfreithiol ac AD a chynhaliodd y Cadeirydd Adolygiadau Datblygiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Monitro | Personol.<br>• Ym mis **Medi 2014** cynhaliodd y Swyddog Monitro ADP ar gyfer y Cadeirydd.<br>• Yn dilyn ADP lluniodd y Cadeirydd Gynllun Hyfforddi ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor. |

ATODIAD B

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2015 I EBRILL 2016

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 3. | Cyflawni swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor neu unrhyw gynllun olynol os bydd model cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.6 y Côd; yn arbennig Cynghorau Tref | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 5. | Goruchwylio'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi | • Erbyn diwedd Ebrill 2016 | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | | | |
| 6. | Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | • Erbyn diwedd Ebrill 2016 | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 7. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 8. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 9. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 10. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2016 | • Cadeirydd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy:<br><br>- adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan<br>    ○ awdurdodau perthnasol eraill<br>    ○ Panel Dyfarnu Cymru<br>- cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru<br>- cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan<br>- i'w adolygu dan gynllun adolygu perfformiad yn debyg i hwnnw a ddefnyddir gan yr aelodau etholedig | • Fel a phryd y bydd angen yn amodol ar gapasiti | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 12. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu cyflwyno i OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 13. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb | • Fel a phryd y bydd angen | • Y Cadeirydd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyffredin. | | | |
| 14. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br><br>1. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>2. Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>3. Safonau ymddygiad Aelodau | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mai 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini - 2014/2015** |
| **AWDUR:** | **Y Cynghorydd Meirion Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) a'r Cynghorydd Derlwyn Hughes (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio).** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I adrodd ar waith y ddau Bwyllgor Sgriwtini yn 2014/2015** |
| **SWYDDOG CYSWLLT :**<br>**E-bost:**<br>**Rhif Ffôn:** | **Geraint Wyn Roberts ( Swyddog Sgriwtini)**<br>**gwrce@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752039** |

**1.0 ARGYMHELLION**

1.1 Nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini 2014-2015.

1.2 Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel "Eiriolydd Sgriwtini" am y cyfnod Mai 2015 i Mai 2016 a Chadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2016 i Mai 2017. Wedyn, bydd rôl yr "Eiriolydd Sgriwtini" yn newid bob yn ail blwyddyn rhwng dau Gadeirydd y Pwyllgorau Sgriwtini.

**2.0 CEFNDIR**

2.1 Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini 2014-2015 yn cynnwys y gwaith a wnaed gan y ddau Bwyllgor Sgriwtini rhwng Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 8 Mai 2014 a 14 Mai 2015. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae'r Pwyllgorau Sgriwtini wedi bod yn ddigon ffodus i gael cyfraniadau gan aelodau a swyddogion.

2.2 Arweiniwyd y gwaith yn ystod y cyfnod hwn gan Gadeiryddion y ddau Bwyllgor Sgriwtini. Mae manylion materion a drafodwyd wedi eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini ar gyfer 2014/2015 sydd ynghlwm.

2.3 Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor llawn y flwyddyn ddiwethaf, penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Peter Rogers i wasanaethu fel yr "Eiriolydd Sgriwtini" am y cyfnod Mai 2014 i Mai 2015. Er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng yr eiriolydd a'r ddau bwyllgor sgriwtini, ystyrir yn awr y dylid neilltuo rôl yr " Eiriolydd Sgriwtini" i Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y cyfnod Mai 2015 i Mai 2016 ac i Gadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2016 i Mai 2017. Wedyn, bydd rôl yr "Eiriolydd Sgriwtini" yn newid bob yn ail blwyddyn rhwng dau Gadeirydd y Pwyllgorau Sgriwtini.

2.4 Nid oes tâl ar gyfer y rôl Eiriolydd Sgriwtini. Rôl yr Eiriolydd Sgriwtini yw:

- Hyrwyddo'r swyddogaeth Sgriwtini y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor
- Cefnogi datblygiad parhaus Sgriwtini yn y Cyngor.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini 2014-2015 |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU SGRIWTINI

# 2014-2015

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn 2014-2015** | |
| | Rhagair |
| 1. | Beth yw Trosolwg a Sgriwtini |
| 2. | Perfformiad Sgriwtini |
| 3. | Ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| 4. | Aelodaeth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (2014-2015) |
| 5. | Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (2014-2015) |
| 6. | Ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| 7. | Aelodaeth y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ( 2014-2015) |
| 8. | Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ( 2014-2015) |
| 9. | Ymgysylltiad Sgriwtini |
| 10. | Atodiad 1- Darn o'r "Adroddiad Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus" dyddiedig Ionawr 2014. (fe'i adwaenir hefyd "Adroddiad Williams"). Argymhellion 31-34. |

# Rhagair

<table>
<tr><td><u>Y Cynghorydd  R Meirion Jones</u><br><br>(Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol  2014-15)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">

Dyma'r ail gyfle yr wyf wedi ei gael i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Sgriwtini.

Mae'n bwysig i ni wybod ble rydym wedi bod er mwyn gwybod i ble rydym yn mynd. Gyda'r etholiadau ym Mai 2013, gwelwyd strwythur newydd yn y Cyngor sef wardiau etholiadol gyda llai o aelodau, 30 yn lle 40. Hefyd, daeth y strwythur newydd ar gyfer Pwyllgorau Sgriwtini i rym gyda dau bwyllgor sgriwtini - y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn lle'r pum pwyllgor blaenorol.

Roedd 2014/15 yn fwy heriol byth i Sgriwtini.  Nid oedir yn rhagweld y byddai'n gorfod ymdopi â cholli dwy o swyddi cefnogaeth uniongyrchol oherwydd yr arbedion effeithlonrwydd cyffredinol yr oedd rhaid i'r Cyngor eu gwneud. Oherwydd nad oedd gwaith yr Awdurdod wedi lleihau, roedd y pwysau ar Sgriwtini i sgriwtineiddio fel ag yr oedd o'r blaen ond gyda llai o gapasiti, bu'n gynyddol anodd cyflawni hynny.

Gellir dweud bod llwyddiant Sgriwtini o ran datblygu ei Aelodau newydd wedi dwysáu'r broblem. Gwelwyd cryn dipyn o weithgaredd sgriwtini ac mae wedi dangos sut y cyfrannodd Aelodau Sgriwtini at lywodraethiant corfforaethol effeithiol yr Awdurdod. Nid yw Sgriwtini ond cystal â'r ymdrech a wneir gan Aelodau Sgriwtini.  Mae angen i ni sicrhau y gallwn lunio a pherchenogi ein Blaenraglen Waith ac awgrymu pynciau. Mae ein swyddogion yn gwneud gwaith clodwiw ond rhaid i ninnau fel Aelodau weithio hefyd. Mae Aelodau Sgriwtini yn haeddu canmoliaeth am eu gwaith caled ac rydym yn ffodus o gael amrediad yn eu plith o ran gwybodaeth, profiadau bywyd ac angerdd am wasanaethau cyhoeddus. Maent yn esiampl o newid diwylliant oherwydd maent wedi bod yn fodlon torchi llewys, cyfrannu'n uniongyrchol a mynd ati'n ymarferol i gefnogi'r broses sgriwtini a herio polisïau ac arferion i gynnig syniadau newydd a gyrru gwelliant o gymharu â'r hen broses bwyllgorau a oedd yn fwy goddefol. Er gwaethaf y toriadau a orfodwyd, bu modd i Sgriwtini barhau i weithredu fel ffrind beirniadol a herio cynigion, gwneud gwahaniaeth ac ychwanegu gwerthu i'r broses. Diolch hefyd i'r llu swyddogion ac eraill a gyfrannodd at ein gweithgareddau.

Dyma rai enghreifftiau o'r Adolygiadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol/Panelau Sgriwtini yn 2014/15 –

- Adolygiad ynghylch Cau Parc Sglefrio Llangefni
- Adolygiad o'r Prosiect Gweithio'n Gallach

</td></tr>
</table>

- Adolygiad ynghylch Cau’r Cwrs Golff
- Proses Pennu Cyllideb 2015-16 (Ystyriwyd hefyd y Broses o Bennu Cyllideb y flwyddyn flaenorol a chanlyniadau hynny. Mae nifer o’r materion a godwyd wedi cael eu trafod gan y Panel a sefydlwyd i ystyried y broses gyllidebol).
- Grŵp Adolygiad Sgriwtini – Gwella Ysgolion
- Panel Adolygiad Sgriwtini – Rheoli Absenoldeb Salwch
- Panel Adolygiad Sgriwtini - Arbedion Effeithlonrwydd 2014-15

Wrth gwrs, roedd hyn yn golygu mwy o waith ac ni ddylid gwastraffu brwdfrydedd a gwaith Aelodau Sgriwtini a bydd angen ail-drafod sut i adeiladu ychwaneg o gapasiti. Datblygwyd sesiynau briffio anffurfiol cyn y cyfarfodydd sgriwtini ffurfiol ac mae’r arfer wedi cael ei fabwysiadu oherwydd mae’n gwella’r trefniadau.

Gydag aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith yn ymwneud yn fwy trefnus a gweithgar yn y modd y rheolir newid, achosodd hyn rywfaint o densiwn i’r rheiny y mae’n canolbwyntio arnynt, sef y sawl sy’n gwneud penderfyniadau a’u hymgynghorwyr proffesiynol, a rhoddwyd gwybod i ni am hynny tua diwedd y flwyddyn. Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru “Astudiaeth Cymru- Sgriwtini yn llywodraeth Lleol ” 2014 yn ategu hynny gan dynnu sylw at y ffaith nad yw awdurdodau lleol yn deall rôl cymorth sgriwtini uniongyrchol a’r egwyddor mai’r aelodau sy’n arwain. Cyfeiriwyd at hyn yn y cynllun gwasanaeth ar gyfer sgriwtini am 2014/15 ond oherwydd materion capasiti, ychydig o gynnydd a wnaed a bydd angen gwneud mwy o ymdrech i’w ymsefydlu’n gadarn gan gryfhau Sgriwtini. Ceir cadarnhad pellach fod Sgriwtini angen y cymorth unigryw hwn yn argymhellion 31-34 yn Adroddiad Williams (gweler Atodiad 1 os gwelwch yn dda) a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i sefydlu safon genedlaethol ‘Nodweddion y mae eu hangen ar gyfer Sgriwtini Effeithiol”.

Fel y dywedais yn Adroddiad llynedd ac rwy’n ailadrodd yma “Bu’n flwyddyn heriol gyda nifer o heriau ariannol. Mae’n bwysig fod y Cyngor yn parhau i ymateb i’r heriau ac, o bersbectif sgriwtini, ei fod yn parhau i geisio gwella’r gwasanaeth a chyfrannu at ddatblygu polisi.”

Yn yr Adroddiad hwn, ceir trosolwg o ail flwyddyn y ddau Bwyllgor Sgriwtini a dygir sylw at lwyddiannau’r aelodau etholedig wrth iddynt ymgymryd â’u swyddogaeth sgriwtini. Gobeithio y bydd y ddogfen hon yn rhoi trosolwg diddorol o’n gwaith.

| **<u>Y Cynghorydd  Derlwyn Hughes</u>**<br><br>**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2014-15)** |  |
|---|---|

Roedd 2014/15 yn flwyddyn lwyddiannus o gyfnerthu'r swyddogaeth sgriwtini yn Ynys Môn. Rydym wedi adeiladu ar brofiad ac arferion da a fireiniwyd dros y 2/3 blynedd diwethaf i siapio'r ffordd yr ydym yn adolygu a herio polisïau a phenderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith a'r gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau eraill hefyd.

Mae'r adroddiad a ganlyn yn cynnwys amlinelliad o elfennau allweddol  y rhaglen o waith sgriwtini ar gyfer 2014/15, gan amlygu ehangder y cylch gorchwyl a maint ac amrywiaeth ein gwaith.  Rwy'n gobeithio y byddwch yn eu gweld yn ddiddorol ac yn addysgiadol ac y byddwch yn cyflwyno unrhyw sylwadau, cwestiynau neu gynigion a fo gennych ar gyfer adolygiadau i'r dyfodol.

Wrth ddewis pynciau, ein pwrpas bob amser yw gweithredu fel cyfaill beirniadol a chyfrannu mewn dull cadarnhaol at wella gwasanaethau'n barhaus a darparu gwerth am arian.

Hoffwn ddiolch i'r llu o aelodau, swyddogion a chynrychiolwyr cyrff allanol y mae eu cyfraniadau meddylgar, eu hamynedd a'u brwdfrydedd wedi bod yn amhrisiadwy drwy gydol y flwyddyn.  Heb eu cefnogaeth ni fyddai gan Sgriwtini lais a byddai ein prosesau gwneud penderfyniadau yn llai atebol, yn llai cynhwysol ac yn wannach."

Wrth edrych ymlaen i 2015/2016, rydym yn gobeithio parhau gyda'r gwaith da a wnaed dros y flwyddyn a aeth heibio yn ymgysylltu gyda Chynghorau Tref/Cymuned, cymunedau a grwpiau preswylwyr wrth i ni geisio ehangu gorchwylion Sgriwtini ac annog ymgysylltiad â'r  broses sgriwtini ei hun.

## 1. BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI

1.1 Mae Pwyllgorau Sgriwtini yn rhan o’r ffordd y mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gweithredu. Ynghyd â sefydlu Pwyllgor Gwaith a chanddo bwerau i wneud penderfyniadau, bu’n rhaid, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, sefydlu un neu ragor o Bwyllgorau Sgriwtini i ddal y sawl sy’n gwneud penderfyniadau yn atebol, i yrru gwelliant ac i chwarae rôl o ran cynorthwyo i ddatblygu ac adolygu polisi.

1.2 Yng Nghyngor Sir Ynys Môn, bu dau Pwyllgor Sgriwtini yn ymwneud â’r swyddogaeth sgriwtini yn 2014-2015.

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

1.3 Y tair egwyddor sy’n arwain y Pwyllgorau Sgriwtini yw:

- Hyrwyddo dull agored a thryloyw o wneud penderfyniadau a dal y sawl sy’n gwneud penderfyniadau yn atebol mewn modd adeiladol.
- Cefnogi’r Cyngor i wireddu ei weledigaeth ar gyfer y Cyngor ynghyd â’i nodau a’i flaenoriaethau strategol.
- Hyrwyddo gwelliant parhaus, arferion gorau ac arloesed o ran y gwasanaethau, y swyddogaethau a’r polisïau y mae’r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu y mae ganddo ddylanwad drostynt.

1.4 Gall y Pwyllgor Sgriwtini wneud ei waith mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol.
- Ystyried pwnc dros gyfnod hwy o amser trwy sefydlu Panel Adolygiad Sgriwtini.
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar faes penodol.
- Ymweld â safleoedd.

## 2. PERFFORMIAD SGRIWTINI

2.1 Prif nod Adroddiad Blynyddol Sgriwtini yw rhoi gwybod am yr hyn y mae'r Pwyllgorau Sgriwtini wedi bod yn ei wneud o fis Mai i fis Mai bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r eitemau y mae'r Pwyllgorau wedi rhoi sylw manwl iddynt dros y flwyddyn 2014/2015. Nod y Pwyllgorau Sgriwtini ar gyfer y flwyddyn nesaf yw ychwanegu gwerth trwy gyflwyno argymhellion adeiladol ac ystyrlon i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch sut y gellid gwella polisïau neu ofyn i benderfyniad gael ei ailystyried o dan y broses "galw-mewn".

2.2 Mae'n rhaid i bob Cyngor yng Nghymru ddarparu gwasanaethau yn erbyn cefndir o ostyngiad mewn gwariant cyhoeddus sy'n debygol o barhau yn y tymor byr i'r tymor canol. Yn ogystal, mae'r amgylchedd ariannol cyffredinol ar yr Ynys yn anodd ac mae gan sgriwtini rôl bwysig i'w chwarae i wella effeithlonrwydd gwasanaethau ac o ran sut mae'r Cyngor yn gweithredu.

2.3 Er mwyn mesur ei gyfraniad mae gan Sgriwtini gyfres eang o ddangosyddion perfformio chwarterol y gellir eu defnyddio i gymharu cynnydd o un chwarter i'r llall. Mae rhestr o'r holl ddangosyddion ar gael o'r Uned Sgriwtini ond mae'r tabl isod yn amlygu dau ddangosydd allweddol ar gyfer 2014/15:

| **Teitl y Dangosydd (2014-2015)** | **Targed** **(Ch) – Chwarterol** (B) – Blynyddol | **Ch. 1** | **Ch. 2** | **Ch. 3** | **Ch. 4** | **Diwedd Blwyddyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % presenoldeb Aelodau Pwyllgor ac Aelodau Portffolio yn y Pwyllgorau Sgriwtini | 80% (Ch) | **81%** | **81%** ↔ | **90%** ↑ | **77%** ↓ | **82%** |
| Y % o argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini a gymeradwyd gan y Pwyllgor Gwaith. | 90% (Ch) | **100%** | **100%** ↔ | **80%** ↓ | **100 %** ↑ | **95%** |

**3. Ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad /darpariaeth yr holl wasanaethau, sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol , Cyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu gynlluniau a pholisïau sy'n eu holynu) ac i gefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaol.

**4. Aelodaeth y Pwyllgor 2014-15**

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol/Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. R Meirion Jones (Cadeirydd) | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Raymond Jones | Caergybi | Annibynnol |
|  | Cyng. Victor Hughes | Bro Rhosyr | Annibynnol |
|  | Cyng. Ann Griffith | Bro Aberffraw | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Robert Llewelyn Jones | Caergybi | Heb Ymuno |

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol /Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. Gwilym Jones (Is-Gadeirydd) | Llifon | Annibynnol |
|  | Cyng. Jim Evans | Aethwy | Annibynnol |
|  | Cyng. Lewis Davies | Seiriol | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Llinos Medi Huws | Talybolion | Plaid Cymru |
| 1 Sedd Wag | | | |

Nodwch os gwelwch yn dda fod aelodaeth y Pwyllgor hefyd wedi cynnwys y Cynghorydd Jeff Evans a'r Cynghorydd Peter Rogers yn 2014-2015.

## 5. Rhaglen Waith y Pwyllgor (2014/15)

Cynhaliwyd 14 cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystod 2014-2015.

| Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2014/15 | |
|---|---|
| **Dyddiad Pwyllgor** | **Eitem a Drafodwyd** |
| **8 Mai 2014** | Ethol Cadeirydd i’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. |
| | Ethol Is-Gadeirydd i’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| | |
| **12 Mai 2014** | Diweddariad y Cadeirydd |
| | Enwebiad i'r Panel Rhiantu Corfforaethol |
| | Uned Cynnal a Chadw Adeiladau'r Gwasanaeth Tai |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 4 2013/14 |
| | Trefniadau Diogelu Plant Mewn Ysgolion |
| | Cais Sgriwtini - Cau'r B4419 Ym Mhentre Berw |
| | Blaenraglen Waith |
| | |
| **1 Gorffennaf 2014** | Diweddariad y Cadeirydd |
| | Opsiynau ar Gyfer Llety i Bobl Hŷn - Garreglwyd |
| | Cyfarfod ag Anghenion Oedolion Hŷn : Amlwch a Llangefni |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| | Materion Cyllidol - Canlyniadau'r Gyllideb Gyfalaf 2013/14 |
| | Materion Cyllidol - Cyllideb Refeniw 2013/14 - Canlyniadau Dros Dro |
| | Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol |
| | |
| **1 Medi 2014** | Diweddariad y Cadeirydd |
| | Monitro Perfformiad - Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 1 2014/15 |

| | |
|---|---|
| | Monitro'r Gyllideb - Y Gyllideb Gyfalaf -Chwarter 1 2014/15 |
| | Monitro'r Gyllideb - Y Gyllideb Refeniw - Chwarter 1 2014/15 |
| | Cyfeiriad gan Aelod - Cau Parc Sglefrio Llangefni y tu allan i Ganolfan Hamdden Plas Arthur |
| | Blaenraglen Waith |
| | Tai Gofal Ychwanegol |
| | |
| **26 Medi 2014** | Cau Parc Sglefrio Llangefni |
| | |
| **15 Hydref 2014** | Diweddariad y Cadeirydd a'r Aelodau |
| | Cyllideb 2015/16 |
| | Prosiect Gweithio'n Gallach |
| | Opsiynau Gofal Ychwanegol yn Amlwch a Llangefni |
| | Moderneiddio Ysgolion - Caergybi |
| | Parc Sglefrio Llangefni - Adolygiad Sgriwtini |
| | |
| **4 Tachwedd 2014** | Prosiect Gweithio'n Gallach (Galw i Mewn) |
| | |
| **24 Tachwedd 2014** | Diweddariad y Cadeirydd ac Aelodau |
| | Cerdyn Sgorfwrdd Corfforaethol Chwarter 2 |
| | Monitro'r Gyllideb - Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2 2014/15 |
| | Monitro'r Gyllideb - Cyllideb Refeniw Chwarter 2 2014/15 |
| | Cynigion ar Gyfer Cyllideb Refeniw 2015/16 |
| | Diweddariad ar y Rhaglen Drawsnewid |
| | Cytundebau Bysiau Ysgol - Tendrau a Strwythur Taliadau |
| | Clwb Golff Llangefni |
| | |
| **13 Ionawr 2015** | Diweddariad y Cadeirydd |
| | Blaenraglen Waith |
| | Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg |

| | |
|---|---|
| | Adroddiad Dadansoddol: Ansawdd Gwaith Asesu Craidd - Gwasanaethau Plant |
| | Diweddariad ar y Panelau Canlyniad Sgriwtini |
| | |
| **3 Chwefror 2015** | Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2015/16 |
| | |
| **10 Chwefror 2015** | Bidiau Cyfalaf 2015/16 |
| | Cyllideb  Ddrafft 2015/16 - Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus |
| | Hunanasesiad Corfforaethol |
| | |
| **24 Mawrth 2015** | Dileu Dyledion |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter Ch 3 2014/15 |
| | Adroddiadau Monitro Refeniw a Cyfalaf Chw3 2014/2015 |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini – Arbedion Effeithlonrwydd 2014/2015 |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini - Absenoldeb Salwch |
| | |
| **16 Ebrill 2015** | Diweddariad y Cadeirydd a’r Aelodau |
| | Dogfen Gyflawni Flynyddol 2015/2016 |
| | |

## 6. Ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar sicrhau bod buddiannau dinasyddion Ynys Môn yn cael eu hyrwyddo a bod blaenoriaethau ac adnoddau'r Cyngor yn cael eu hadlewyrchu yn llesol yn y partneriaethau, y cydweithio, y gweithio ar y cyd â threfniadau asiantaeth allanol, fel fydd yn bodoli o bryd i'w gilydd. Bydd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn ymestyn i drefniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a bydd yn cynnwys (ond heb fod wedi ei gyfyngu i'r meysydd lle mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol mewn materion trosedd ac anhrefn. Yn ychwanegol at hyn, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ymestyn i faterion yn ymwneud ag adfywio a'r cysyniad "Ynys Fenter" (neu gynlluniau a pholisïau fydd yn eu holynu).

## 7. Aelodaeth y Pwyllgor 2014-15

Mae ar y Pwyllgor 10 o Aelodau etholedig.

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol/ Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. Derlwyn R Hughes (Cadeirydd) | Llugwy | Annibynnol |
|  | Cyng. William T Hughes | Twrcelyn | Annibynnol |
|  | Cyng. Dafydd Rhys Thomas | Ynys Gybi | Annibynnol |
|  | Cyng. Carwyn Jones | Seiriol | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Robert Llewelyn Jones | Caergybi | Heb ymuno |

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol /Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng.Ynys Alun Mummery (Is-Gadeirydd) | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Richard Owen Jones | Twrcelyn | Annibynnol |
|  | Cyng. John Griffith | Talybolion | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Dylan Rees | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
| 1 Sedd wag | | | |

Nodwch os gwelwch yn dda fod aelodaeth y Pwyllgor hefyd wedi cynnwys y Cynghorydd Raymond Jones yn 2014-2015.

## 8. Rhaglen Waith y Pwyllgor (2014/15)

Cynhaliwyd 9 cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ystod 2014-2015. Mae’r dyddiadau a’r eitemau i’w gweld yn y tabl isod. Mae cofnodion y cyfarfodydd i’w gweld ar wefan y Cyngor.

| **Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2014/2015** | |
|---|---|
| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Eitem a Drafodwyd Ystyriwyd** |
| **8 Mai 2014** | Ethol Cadeirydd i’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. |
| | Ethol Is-Gadeirydd i’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. |
| | |
| **13 Mai 2014** | Enwebiad y Pwyllgor ar y Panel Rhiant Corfforaethol |
| | Cynllun Integredig Sengl |
| | Clirio Ffeiliau o Hen Ysgol y Graig, Llangefni |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd/Is-Gadeirydd |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **11 Gorffennaf 2014** | Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa |
| | |
| **24 Gorffennaf 2014** | Canolfan Gyfathrebiadau Heddlu Gogledd Cymru |
| | Trefniadau Rhanbarthol a Lleol i Ddiogelu Plant ac Oedolion |
| | Comisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc |
| | Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol - Diweddariad ar Gynnydd |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd/Is-gadeirydd |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **25 Medi 2014** | Cynllun Integredig Sengl - Gwynedd ac Ynys Môn. |
| | Cymunedau'n Gyntaf Ynys Môn - Adroddiad Cynnydd |

| | |
|---|---|
| | Strategaeth Dai Leol ar Gyfer Ynys Môn |
| | Ffioedd Cychod Siarter/Pleser 2014/15 |
| | Rhaglen Waith Bwrdd Cyflawni Integredig Ynys Môn ar Gyfer Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Ymgynghoriad ar y Cynllun Gwella 2015/16 |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd/Is-Gadeirydd |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **27 Tachwedd 2014** | Cynllun Integredig Sengl (Gwynedd ac Ynys Môn) a Chyd-drefniadau Sgriwtini Arfaethedig ar Gyfer y Bwrdd Gwasanaeth Lleol |
| | Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai - Cytundeb Gwirfoddol |
| | Newidiadau Arfaethedig i'r Polisi a'r Strategaeth ar Gyfer Adnewyddu Tai Sector Preifat |
| | Adroddiad Blynyddol ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GWE) |
| | Adroddiad Blynyddol - 'Gwrando ar Gwynion a Dysgu Oddi Wrthynt' |
| | Trefniadau Diogelu ar gyfer Oedolion Sy'n Agored i Niwed |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd neu Is-Gadeirydd |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **14 Ionawr 2015** | Trefniadau Sgriwtini Y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd Arfaethedig |
| | Fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Cynghorau (ACRF) Arolygu, Gwerthuso ac Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol |
| | Diogelu Corfforaethol (Plant) |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd neu’r Is-Gadeirydd |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **12 Mawrth 2015** | Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Blaenoriaethau Allweddol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn |
| | Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| | Cynigion ar Gyfer Gweithio Mewn Partneriaeth er Mwyn Sicrhau Gwelliannau i’r A5025 a Phriffyrdd Eraill i Hwyluso Cynigion Datblygu Pŵer Niwclear Horizon |
| | Cyllideb Blynyddoedd Cynnar |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd neu’r Is-Gadeirydd |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **12 Mai 2015** | Llys Llewelyn, Aberffraw |

| | |
|---|---|
| | Cyllido swydd Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelleodd, Diwylliant a Ieuenctid |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd neu Is-Gadeirydd |
| | Rhaglen Waith |

## 9. YMGYSYLLTIAD SGRIWTINI

9.1 Mae sylwadau a syniadau sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn pwnc dan sylw yn werthfawr i sicrhau sgriwtini effeithiol.

9.2 Mae arferion gorau o ran Sgriwtini fel arfer yn golygu bod rhaid i Aelodau weithio gyda phobl a sefydliadau lleol er mwyn darparu gwasanaethau sy'n effeithiol ac yn ymatebol.

9.3 Bydd Pwyllgorau Sgriwtini yn cyfarfod yn gyhoeddus (ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae angen trafod materion cyfrinachol) a bydd dyddiadau lleoliad y cyfarfodydd a'r blaenraglenni gwaith ar gael ar wefan y Cyngor yn http://www.ynysmon.gov.uk

9.4 Yn ogystal, gellir gwahodd partneriaid ac asiantaethau allanol i fynychu Pwyllgorau Sgriwtini fel y gall y Pwyllgor mofyn eu sylwadau a'u barn ar faterion sy'n cael effaith ar y modd y darperir yr amcanion corfforaethol.

9.5 I ddysgu mwy am Sgriwtini yn Ynys Môn neu i roi eich sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'r Tîm Sgriwtini yn:


Tîm Sgriwtini
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni.
Ynys Môn.
LL77 7TW

Sgriwtini@ynysmon.gov.uk


| | | |
|---|---|---|
| Bev Symonds | Rheolydd Sgriwtini yn gyfrifol am:<br>- Prif Swyddog Cefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | (01248) 752078<br>bsxce@ynysmon .gov.uk |
| Geraint Wyn Roberts | Swyddog Sgriwtini yn gyfrifol am:<br>- Prif Swyddog Cefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | (01248) 752039<br>gwrce@ynysmon.gov.uk |

**Atodiad 1- Darn o'r "Adroddiad Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus" dyddiedig Ionawr 2014. ( adnabod hefyd fel " Adroddiad Williams").**

## Rhestr o Argymhellion 31-34

### *Craffu*

31. Rhaid cydnabod a rhoi blaenoriaeth i bwysigrwydd, statws a gwerth gwaith craffu, a'i gynnal a'i atgyfnerthu'n barhaus. Er mwyn cefnogi hyn:

• Rhaid i bob aelod etholedig, aelod annibynnol o fwrdd iechyd, cyfarwyddwr anweithredol, a swyddog, gydnabod pwysigrwydd a gwerth gwaith craffu wrth wella gwasanaethau i bobl a sefydliadau yng Nghymru. Rhaid arddel a diogelu annibyniaeth gwaith craffu yn gadarn, yn ogystal â'i natur adeiladol a chadarnhaol;

• Yn yr un modd, rhaid i aelodau gweithredol, cyfarwyddwyr anweithredol, a swyddogion, gydnabod gwerth gwaith craffu wrth eu helpu i ddarparu gwasanaethau'n well. Rhaid iddynt roi cyhoeddusrwydd i'w penderfyniadau a'u hegluro'n glir, a gwahodd gwaith craffu arnynt, gan gynnwys craffu cyn y caiff penderfyniadau eu gwneud, mewn modd parod ac agored. Rhaid iddynt hefyd gydnabod ac ymateb i adroddiadau craffu yn brydlon ac yn ddidwyll;

• Fel rhan o'r ymdrech i godi statws a phroffil gwaith craffu, ac ymgysylltu â dinasyddion, rhaid sicrhau bod allbynnau a chanlyniadau gwaith craffu llywodraeth leol yn fwy gweladwy.

32. Rhaid i sefydliadau ystyried craffu fel buddsoddiad i sicrhau gwelliannau ac arbedion yn y dyfodol. Rhaid iddynt felly neilltuo'r adnoddau a'r cymorth priodol ar gyfer gwaith craffu:

• Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod cymorth priodol ar gael, ar lefel swyddogion, i ddatblygu cynlluniau craffu cydgysylltiedig, nodi bylchau mewn arbenigedd o fewn y pwyllgorau a rhoi gwybodaeth gymesur a dealladwy i aelodau'r pwyllgorau. Yn yr un modd, rhaid i sefydliadau eraill sicrhau bod yr adnoddau craffu yn ddigonol er mwyn cyflawni swyddogaeth graffu effeithiol.

• Rhaid i holl aelodau a chadeiryddion pwyllgorau craffu llywodraeth leol gael hyfforddiant gorfodol. Rhaid i hyfforddiant cyfwerth hefyd fod yn orfodol i aelodau cynghorau iechyd cymuned sy'n cyflawni rolau craffu, aelodau awdurdodau tân ac achub, ac eraill sy'n gyfrifol am graffu ffurfiol. Dylid rhoi hyfforddiant cyfwerth i aelodau anweithredol neu aelodau annibynnol hefyd, i'w helpu i gyflawni eu rôl o ddwyn eu tîm gweithredol i gyfrif;

• Rhaid i sefydliadau fabwysiadu ymagwedd "arfer gorau" at graffu yn hytrach na gwneud dim ond yr hyn sy'n ofynnol. Rhaid i'r canlyniadau a'r nodweddion craffu sy'n cael eu paratoi gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus gael eu datblygu mewn trafodaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Unwaith y cytunir iddynt, rhaid i bob sefydliad eu mabwysiadu o fewn chwe mis.

33. Rhaid i bwyllgorau craffu llywodraeth leol a chyrff craffu ffurfiol eraill ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd a phartneriaid. Dylai hynny gynnwys cyfethol unigolion o grwpiau eirioli a grwpiau eraill ar bwyllgorau craffu er mwyn cynyddu capasiti a gallu pwyllgorau o'r fath i gyflawni gwaith craffu adeiladol a hyddysg.

**Gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio**

34. Rhaid i archwilwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr sy'n cyflwyno adroddiadau ar sefydliadau unigol wneud hynny'n uniongyrchol i'r pwyllgor craffu neu archwilio priodol. Lle y bo'n briodol, dylent gynorthwyo'r Pwyllgor wrth ystyried a dwyn y tîm gweithredol i gyfrif.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **14 MAI 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Adroddiad Blynyddol 2014/15** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeirydd y Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2014/15** |

1) **Rhagarweiniad**

Rhydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr Awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd. Dan y Mesur, rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor.

Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol y mae'r Pwyllgor wedi ei ddarparu ers ei sefydlu yn 2012.

2) **Rhaglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2014/15 a cheir ynddo hefyd sylwadau ar y statws cyfredol.

Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y meysydd canlynol:

- Datblygu Aelodau a Chynlluniau Hyfforddiant
- Moderneiddio dulliau gweithio
- Gweddarlledu cyfarfodydd a gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau
- Cyllideb 2015/16 a'r effaith ar y Gwasanaethau Democrataidd
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Yn y tabl isod, ceir crynodeb o'r materion a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

| Dyddiad y Pwyllgor | Pwnc | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| 18/06/2014 | Amser Cyfarfodydd y Cyngor | Cyfeiriwyd y mater hwn i’r Pwyllgor yn dilyn Rhybudd o Gynigiad a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 8 Mai, 2014. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd baratoi cynigion ar gyfer 2015 ymlaen. Cafodd adroddiad yn argymell y dylid cynnal Pwyllgorau ar ddiwrnodau penodol ac amrywio amseroedd Pwyllgorau Sgriwtini ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 26 Chwefror, 2015. |
| | Amrywio Democratiaeth mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru | Cyflwynwyd adroddiad i’r Pwyllgor yn cyfeirio at yr argymhellion allweddol a amlygwyd mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2014 – “*Ar Ôl Pwyso a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru”.* Er mwyn rhoi sylw i’r argymhellion, roedd rhwydwaith o eiriolwyr amrywiaeth yn cael ei sefydlu a gofynnwyd i’r Cyngor enwebu aelod i gymryd arno/arni’r swyddogaeth honno. Enwebwyd y Cynghorydd Carwyn Jones. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor yn y man ar y cynnydd a wnaed o ran rhoi sylw i’r argymhellion ar sail Cymru gyfan. |
| | Mynychu o Bell | Cafodd adroddiad ar y darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ei ystyried gan y Pwyllgor ac yn yr adroddiad, cafwyd manylion ynghylch nifer o faterion a oedd yn ymwneud â gweithredu ac ystyriaethau technegol a goblygiadau o ran adnoddau y byddai angen rhoi sylw iddynt. Argymhellodd y Pwyllgor na ddylid cefnogi |

| | | |
|---|---|---|
| | | mynychu o bell oherwydd nifer o oblygiadau y dygwyd sylw atynt yn yr adroddiad. Wedyn, ystyriwyd y mater gan y Pwyllgor Gwaith ar 14 Gorffennaf, 2014 ac yn ei gyfarfod ar 9 Hydref, 2014, cymeradwyodd y Cyngor yr argymhellion i beidio â symud ymlaen gyda mynychu o bell. |
| | Absenoldeb Teuluol | Roedd yr adroddiad hwn yn ymdrin â’r gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a’r newidiadau arfaethedig i’r Cyfansoddiad gan gynnwys sefydlu Is-Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i bwrpas gwrando ar apeliadau dan y rheoliadau. Derbyniwyd hyn gan y Pwyllgor ac yna fe’i hystyriwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 14 Gorffennaf, 2014 a’i gymeradwyo gan y Cyngor ar 9 Hydref, 2014. |
| | Cynllun Datblygu/Hyfforddi Aelodau | Ystyriwyd adroddiad cynnydd gan y Pwyllgor wedi i’r Cyngor gymeradwyo’r cynllun ar 8 Mai, 2014. |
| | Grantiau Gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned | Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i’r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â dyrannu grantiau i Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer datblygu gwefannau. |
| 18/09/2014 | Gweddarlledu Cyfarfodydd y Cyngor | Cafodd adroddiad cynnydd ar ehangu’r cynllun peilot gweddarlledu ei ystyried gan y Pwyllgor gan nodi y cychwynnwyd gweddarlledu ym Mehefin 2014; yn ogystal, cymeradwyodd y Pwyllgor brotocol drafft ar gyfer gweddarlledu yn ymgorffori canllawiau CLlLC ar gyfer Aelodau a Swyddogion. |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau | Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar baratoi adroddiadau blynyddol gan Aelodau yn ystod 2013 – 2014 gan nodi fod yr holl Aelodau wedi paratoi adroddiadau ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth 2014 a bod y wybodaeth wedi cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin, 2014. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at yr amserlen ar gyfer paratoi adroddiadau ar gyfer 2014 – 2015. Cafodd adroddiadau pellach ar y mater hwn eu hystyried gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. |
| | Grantiau ar gyfer Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned | Adroddiad cynnydd pellach oedd hwn ar ddyrannu grantiau i Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer datblygu gwefannau. |
| | Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2014 - 2015 | Adroddiad cynnydd oedd hwn ar Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn a gofynnwyd am sylwadau'r Pwyllgor ar y materion y dylai'r Pwyllgor eu trafod yn dilyn y ddau grŵp ffocws a gynhaliwyd ym mis Mehefin i adolygu arferion gwaith. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai hyfforddiant pellach ar yr Ipads yn cael ei ddarparu ar gyfer Aelodau ar 26 Medi, 2014. |
| 02/12/14 | Gwerthusiad Annibynnol ar yr Ymyrraeth ym Môn | Trafodwyd a nodwyd gan y Pwyllgor, adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar yr Ymyrraeth ym Môn. Roedd yr adroddiad yn crynhoi nifer o gasgliadau allweddol a chyfleon ar gyfer dysgu ohonynt. |
| | Gweddarlledu Cyfarfodydd y Cyngor | Diweddariad oedd hwn i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 18 Medi, 2014. Yn yr adroddiad, cafwyd crynodeb |

| | | |
|---|---|---|
| | | o nifer yr 'ymweliadau' i'r gweddarllediadau byw a'r rhai a archifwyd. |
| | Grantiau ar gyfer Datblygu Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned | Adroddiad cynnydd pellach oedd hwn ar ddyrannu grantiau i Gynghorau Tref a Chymuned i ddatblygu eu gwefannau. |
| | Rhaglen Datblygu Aelodau | Diweddariad oedd hwn i'r adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 18 Mehefin, 2014. Yn ogystal, cyfeiriwyd yn yr adroddiad at yr amserlen ar gyfer cynnal adolygiadau datblygiad personol ar gyfer Aelodau fel sylfaen ar gyfer Cynllun Datblygu Aelodau 2015 - 2016. Yn yr adroddiad hefyd, cyfeiriwyd at y cyhoeddiad a wnaed gan y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol i roi'r gorau i Grant Gwelliant gan CLlLC o fis Mawrth 2015 a goblygiadau hynny o ran Rhaglenni Hyfforddiant Cenedlaethol a'r Siarter ar gyfer Datblygu a Chefnogi Aelodau. Penderfynodd y Pwyllgor wneud sylwadau i Lywodraeth Cymru yn ymateb i'r penderfyniad i roi'r gorau i Grant Gwelliant gan CLlLC. |
| 29/01/15 | Ymgynghori ar y Gyllideb | Rhoddwyd i'r Pwyllgor gyfle i wneud unrhyw sylwadau ar y cynigion yn y Gyllideb ddrafft mewn perthynas â Gwasanaethau Democrataidd. Un agwedd y dygwyd sylw'r Pwyllgor ati oedd yr arbedion arfaethedig yn yr adain Bwyllgorau o ran gostwng costau argraffu a phostio yn dilyn cyflwyno'r IPads i Aelodau. Cymeradwywyd yr argymhellion arfaethedig gan y Pwyllgor. |
| | Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau | Diweddariad oedd hwn i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | Pwyllgor ar 18 Medi, 2014. Cyfeiriwyd yn yr adroddiad hefyd at adolygiad a gynhaliwyd ar draws Cymru gan y Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus ar nifer yr adroddiadau blynyddol a gyhoeddwyd ar gyfer 2013 – 2014, yn nodi mai dim ond Ynys Môn ac un Awdurdod arall oedd wedi cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gyfer ei holl Aelodau. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig fersiwn symlach o'r templed er mwyn cynorthwyo Aelodau i baratoi adroddiadau ar gyfer 2014 – 2015 a derbyniwyd hyn gan y Pwyllgor. |
| | Datblygiad Proffesiynol Parhaus CLlLC ar gyfer Cynghorwyr 2015 | Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith a wnaed gan CLlLC ar ffurf fframwaith cymwyseddau drafft i gefnogi Aelodau yn eu rôl ac i gynorthwyo gyda pharatoi eu Hadolygiadau Datblygiad Personol. Cymeradwyodd y Pwyllgor y fframwaith cymwyseddau. |
| 25/03/15 | Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2015 - 2016 | Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn crynhoi'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol i Aelodau ar gyfer 2015 - 2016 a'r angen i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adolygu'r lefel o gefnogaeth a roddir i Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau. Mae cydnabyddiaeth i Aelodau ar gyfer 2015 - 2016 yn destun adroddiad ar wahân i'r Cyngor ar 14 Mai, 2015 a bydd y mater mewn perthynas â chefnogaeth i Aelodau yn ffurfio rhan o Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2015 - 2016. Yn y cyswllt hwn, penderfynwyd y byddai Pennaeth y Gwasanaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | | Democrataidd yn gofyn barn yr Aelodau cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn. |
| | Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau | Cyfeiriwyd yn yr adroddiad hwn at sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Safonau ar 12 Mawrth, 2015 yn dilyn adolygiad o gofrestrau'r Cyngor pryd nodwyd rhai anghysonderau rhwng y wybodaeth a roddwyd yn yr adroddiadau blynyddol ac yng Nghofrestr Sefydlog y Cyngor ac argymhellwyd rhai mân-newidiadau i'r templed ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol i'w cymeradwyo. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf a gwybodaeth ynghylch cyrff allanol a lefelau presenoldeb. Derbyniwyd hyn gan y Pwyllgor. |
| | Gweddarlledu cyfarfodydd | Diweddariad oedd hwn i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 2 Rhagfyr, 2014. Yn yr adroddiad cafwyd crynodeb ar nifer yr ymweliadau â'r gweddarllediadau byw a'r rhai archifol. |
| | Penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | Yn yr adroddiad hwn, cymeradwywyd argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2015 mewn perthynas â phenodi'n barhaol i'r swydd hon. |

| **3) Argymhelliad** |
|---|
| Gofynnir i'r Cyngor Sir dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor am 2014/15. |

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**28/04/2015**

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(**Ail-strwythuro'r Uwch Dim Rheoli gyda'r golwg ar wneud Arbedion Effeithlonrwydd
Restructuring of the Senior Management Team with a View to Making Efficiency Savings***)**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 13 a 15     Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 13 and 15     Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r mater hwn yn ymwneud â chyllideb y Cyngor, sydd yn arian cyhoeddus, ae mae yna fudd i'r cyhoedd o ran atebolrwydd am wariant yr arian hwnnw, sicrhau tryloywder mewn perthynas â sut mae busnes y Cyngor yn cael ei drefnu a'r strwythur y mae'n ei fabwysiadu i ddarparu'r gwasanaethau, yn cynnwys strwythur y sefylliad staffio.<br><br>This matter involves the Council's budget, which is public expenditure, and there is a public interest regarding the accountability for spending such monies, ensuring transparency in relation to how Council business is organised and the structure it adopts in discharging its Services, including the staffing establishment structure.</td><td>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Bydd gwybodaeth mewn perthynas â materion cyflogaeth sensitive yr Awdurdod yn yr adroddiad. Gellir adnabod AElodau unigol o staff yn y cynnwys a materion fydd maes o law yn arwain at drafodaethau a ymgynghoriadau gyda hwy am eu sefyllfa cyflogaeth.<br><br>Information relating to sensitive employment matters within the Authority will be contained in the report. Individual members of staff can be identified and matters that will in time lead to discussions and consultation with these individuals on their employment situation.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br>The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 13, 15 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST
## CYNGOR SIR / COUNTY COUNCIL

**Gweithredu ar Arfarnu swyddi a Tal Cyfartal/**

**Implementation of Job Evaluation and Equal Pay**

**14 MAI/MAY, 2015**

| Paragraff(au) 14,15<br>Paragraph(s) 14,15 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
| Mae hwn yn fater sy'n effeithio ar strwythur rheoli'r Cyngor ac, fel y cyfryw, mae gan y cyhoedd ddiddordeb uniongyrchol mewn cael eu hysbysu am faterion sy'n ymwneud â costau staffiio.<br><br>This is a matter which affects the Council's management structure and, as such, the public has a direct interest in being informed about matters which relate to the delivery, cost and efficiency of services including savings relating thereto.<br><br>Mae gan y cyhoedd diddordeb mewn materion cyllid cyhoeddus.<br>The public have an interest in matters of public finance. | Mae yna ddisgwyliad cyfreithiol y bydd materion sy'n ymwneud â gweithwyr unigol y Cyngor yn cael eu trin yn gyfrinachol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd o ymddiriedaeth a hyder mewn perthynas â'i ymwneud â'i staff ac mae'r wybodaeth yn yr adroddiad sydd ynghlwm, tra nad yw'n enwi unigolion, yn eu nodi yn anuniongyrchol. Mae i'r adroddiad oblygiadau cyflogaeth i'r swyddogion sy'n cael eu heffeithio ac fe all toriad dianghenraid mewn cyfrinachedd adael y Cyngor, fel cyflogwr, yn agored i gamau cyfreithiol /<br><br>There is a legal expectation that matters relating to individual employees of the Council are to be treated confidentially. The Council has a duty of trust and confidence in relation to its dealings with its staff and the information in the attached Report, while not naming individuals, indirectly identifies them. This Report has employment implications for those Officers affected and any unnecessary breach of confidentiality may leave the Council, as employer, open to legal action.<br>Mae'r adroddiad yn cynnyws oblygiadau ariannol a risgiau cyfatebol pe byddai cynnwys yr adroddiad yn cael ei ddategelu.<br>The report has implications and financial risks if the content of the report were revealed<br>The report contains information relating to consultations and negotiations with the trade unions which could put the Authority in a detrimental position.<br>Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud a ymghynghoriadau a thrafodaethau gyda'r undebau a allai fod yn rhoi y Cyngor mewn sefyllfa anffafriol pe byddent yn cael eu dateglu. |
| **Argymhelliad** – Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gynnal yr eithriad, o leiaf ar hyn o bryd, yn gorbwyso'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption, at least at this stage, outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank